ECO'R WYDDFA

Rhif 263 RHAGFYR 1999 Pris 40c

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch

Boed blwyddyn gynta'r ganrif newydd yn llawn diddanwch i chi.

Trip i'r Brifddinas

gan Sioned Roberts

Y criw tu allan i adeilad y Cynulliad.

Diwedd mis Tachwedd, gwelwyd criw Antur Waunfawr yn cychwyn ar daith i Gaerdydd am ddau ddiwrnod gyda chymorth ariannol gan grant Ewropeaidd.

Pwrpas y daith oedd i ddatblygu sgiliau gweithwyr Antur Waunfawr a chynyddu eu hunan hyder trwy eu cyflwyno i amgylchiadau gwaith gwahanol. Roeddem hefyd yn edrych ar ddatblygu ein sefydliad trwy ymweld â phrosiectau cymunedol a phrosiectau ailgylchu y ddinas. Aeth 18 o bobl ag anableddau dysgu i gyd, yn ogystal â staff a gwirfoddolwyr yr Antur.

Cychwynnodd y trip am 7 o'r gloch fore dydd Iau, 25 Tachwedd gyda'r rhan fwyaf yn ei chael yn anodd i gadw eu llygaid ar agor. Erbyn Llanidloes roedd pawb wedi hen ddeffro ac yn barod am baned. Cyrhaeddwyd Amgueddfa Werin Sain Ffagan ar ffiniau Caerdydd erbyn cinio. Roedd hwn yn gyfle gwych i gael profiad uniongyrchol o fywyd pobl yng Nghymru yn yr hen ddyddiau, gyda hen dai ac adeiladau o amgylch Cymru wedi eu dymchwel fesul carreg er mwyn eu hailgodi yn yr Amgueddfa awyr agored. Roedd gennym ddiddordeb arbennig yn ffermdy 'Carreg Wen' o ardal Waunfawr. Yn ogystal cawsom ymweld ag amgueddfa yn dangos ffasiynau dillad ar hyd y canrifoedd ac offer ffermio a oedd yn ddiddorol dros ben.

Yna aethom ymlaen i westy yng nghanol dinas Caerdydd, gwesty Jury's. Cawsom gyfle wedyn i gael ein gwynt atom a darganfod fod goleuadau Nadolig y ddinas yn cael eu troi ymlaen. Roedd yr olygfa yn

parhad ar dud 20

Chwilio am Bresant 'Dolig Gwahanol?

Selwyn Jones, un o aelodau'r pwyllgor yn cael cyfweliad radio.

£2 yw cost aelodaeth yn y Co-op yn Llanrug, ac mae aelodaeth yn para am oes. Mae'r Co-op, sydd wedi bod yn gwasanaethu cymuned Llanrug a'r pentrefi cyfagos ers dros gan mlynedd, nawr yn edrych ymlaen at y ganrif nesaf.

Mae Pwyllgor y Co-op, sy'n cynnwys aelodau newydd a etholwyd yn y cyfarfod blynyddol arbennig a gynhaliwyd ar Dachwedd 29, wedi paratoi cynllun fydd yn gweld datblygiadau newydd ar gyfer mileniwm newydd.

Rhan bwysig o'r cynllun fydd cais am arian gan Cymad i edrych ar anghenion aelodau a'r gymuned yn y dyfodol.

'Mae'n gyfnod cyffrous iawn i'r Co-op,' meddai Dylan Hughes, Rheolwr y siop.

'Bwriad y cynllun yw denu mwy o aelodau i'r siop, a sicrhau bod y siop yn cynnig yr amrywiaeth gorau o nwyddau i'n cwsmeriaid a'r gymuned,' ychwanegodd Goronwy Hughes, aelod o'r Pwyllgor.

Mae'r siop, sy'n gwerthu popeth ar gyfer y tŷ, peiriannau golchi llestri, carpedi a gwelyau yn ogystal â ffrwythau a llysiau, hefyd yn cynnig gwasanaeth cludo nwyddau i'r tŷ, ac yn denu aelodau o Waunfawr, Brynrefail, Caeathro a Deiniolen yn ogystal â Llanrug.

Oriau agor y siop yw 8.30am - 5.30pm dydd Llun, Mawrth, Iau a Gwener, a 8.30am - 12.30pm ar ddydd Mercher a Sadwrn. Gall pobl sydd eisiau cyfrannu syniadau ynglŷn â datblygiadau ar gyfer y dyfodol adael eu syniadau yn y bocs awgrymiadau yn y siop neu gysylltu ag aelodau'r pwyllgor.

A chofiwch, os nad ydych yn aelod, beth am brynu presant Dolig fydd yn para oes?

DA IAWN, HAF

Ers wythnosau bellach bu Haf, Buarthau, Llanrug yn ymarfer yn galed tuag at nofio noddedig i godi arian i Uned Cancr, Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Nos Iau, 9 Rhagfyr oedd y noson fawr yng Nghanolfan Hamdden Arfon. Daeth criw yno i gefnogi Haf a mawr oedd y bloeddio, ddeugain munud ar ôl cychwyn a Haf wedi nofio 1,000 metr — **40 HYD Y PWLL.**

Eisoes daeth £500 o arian noddi i law ac mae Haf rŵan gyda'r gwaith o gasglu gweddill yr arian. Bydd y cyfrif ar agor hyd ddechrau'r flwyddyn. Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu tuag at yr achos teilwng yma cysyllter â'r rhif ffôn (01286) 673929.

ECO'R WYDDFA

Rhif 263

RHAGFYR 1999

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, IONAWR 27
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol

NOS LUN, IONAWR 17
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu A
CHWEFROR	IONAWR 17	IONAWR 27	WAUNFAWR	Mrs Nan Roberts
MAWRTH	CHWEFROR 21	MAWRTH 2	LLANRUG	Mr Eifion Roberts
EBRILL	MAWRTH 20	MAWRTH 30	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands
MAI	EBRILL 17	EBRILL 27	DEINIOLEN	Mr W O Roberts
MEHEFIN	MAI 22	MEHEFIN 1	BRYNREFAIL	Mrs L P Roberts Williams
GORFFENNAF	MEHEFIN 19	MEHEFIN 29	BETHEL	Mr Geraint Elis
AWST	-	-	-	-
MEDI	AWST 28	MEDI 7	DINORWIG	Miss Marian Jones
HYDREF	MEDI 18	MEDI 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans
TACHWEDD	HYDREF 16	HYDREF 26	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans
RHAGFYR	TACHWEDD 20	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James

LLYTHYR

Plas Tirion
Llanberis

Annwyl Olygydd,
Yn ateb i lythyr Dewi Ellis (Eco mis Tachwedd) dyma ychydig o wybodaeth am 'Anti Magi Mericia' fel roeddan ni yn ei hadnabod.

Merch oedd hi i John Bing, 'Y Llyfrgell' a chwaer i Jane Bing (mam Llew a Gareth).

Fe aeth hi a'i chwaer, Annie, drosodd i America, priodi a threulio ei hoes yno.

Arferent ddod 'adref' i Lanberis ar eu gwyliau, yn ystod mis Awst fel arfer er mwyn cael mynd i'r Eisteddfod. Uchafbwynt eu gwyliau oedd cael mynd ar y llwyfan yn y seremoni 'Croesawu'r Cymry ar Wasgar'.

Fe sonia Dewi am ŵr Anti Magi, sef Reese Williams. Actor oedd o, ac ef oedd yn chwarae rhan Dai Bando (y bocsiwr dall) yn y ffilm 'How Green Was My Valley'.

Gwell i mi geisio egluro'r berthynas rhwng Anti Magi a'n teulu ni. Roedd ei thad, John Bing, yn frawd i Jane Jones (nain Eurwyn a Maria, 'Tawel Lan') ac i Elin Jones, fy hen, hen nain (mam nain). Felly roedd Anti Magi yn gyfnither i Dafydd Jones,' Tawel Lan' ac i nain, Anne Ellen Owen, Eilian Terrace. Aeth chwaer arall iddynt, Annie Jones, drosodd i Batagonia a threulio ei hoes yno.

Gwyddwn er pan yn blentyn fod Anti Magi yn *National Winner* fel y dywedai mam. Ei henw llwyfan oedd 'Megan Peris' a balch iawn oeddwn o gael dweud hyn wrth fy ffrindiau yn yr ysgol.

Chefais i erioed y fraint o fynd 'dros y dŵr' i'w chartref ond bu Helen, fy nghyfnither, a'i gŵr, Jack, yno lawer tro ac chael croeso gan y teulu bob amser.

Trist oedd clywed am ei marwolaeth yr haf yma ar drothwy ei phen-blwydd yn 100 oed.

Moreen Lennon

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Richard S. Humphreys
FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm-y-glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
TEITHIAU PERIS
48 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 872777
- Gwasanaeth effeithlon, cyfeillgar, dwyieithog
- Gwyliau i unigolion, teuluoedd neu grwpiau
- Penwythnosau yn theatrau Llundain
- Teithiau tramor i gorau ac i ysgolion
- Bargeinion munud olaf

Cynrychiolwyr The Global Travel Group plc (ATOL 83973)

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?
YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);
YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)
Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)
CDH
Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055
Cyfarchion y Tymor i bawb

Mae'r Nadolig yn nesau. Archebwch eich coed, rîthau celyn, addurniadau bwrdd, blodau ffres ac anrhegion blodau rŵan.

Ffrwythau a llysiau ffres ar gael fel arfer hyd y noson cyn y Nadolig. Defnyddiwch eich siop leol — mae'n llawer mwy cyfleus!

'STAR'
Ffrwythau, llysiau a bwydydd iach
57 Stryd Fawr
Llanberis 870555
Hoffai Marian ddymuno Nadolig Llawen iawn i'w holl gwsmeriaid

Diolch yn Fawr W.R.

Bu yma yn gweinidogaethau am ymron i 25 mlynedd ac ni all yr un gweinidog fod cyhyd mewn eglwys ac ardal heb ei fod dros y cyfnod wedi gadael ei ôl.

Y mae'r eglwys yma yn Y Cysegr wedi bod o dan ddylanwad un a fu ar hyd y blynyddoedd yn dal i roddi pwyslais mawr ar y Gair a'r hyn a ddywed y Gair wrthym. Wrth iddo bregethu a chynnal oedfa yn ein plith gallai ymddangos ar brydiau yn ysgafn a doniol a ninnau i gyd yn cael ein harwain ar hyd y ffordd honno o feddwl, ond yn sydyn a disymwth deuai'r ergyd yn syml a didwyll a hynny o'r galon. Roedd ei ffordd o annerch yn un hawdd, yn symud yn gyflym o un syniad i'r llall, ac fe'm trawyd yn aml fod daliadau W.R. wedi eu gwreiddio yn ddwfn a diysgog yn ei galon a'i fod bob amser, mewn gwirionedd, o ddifri. Sul hyfryd oedd y Sul hwnnw pan fyddai W.R. gartref yn ei bulpud yn Y Cysegr. Roedd yn adnabod ei gynulleidfa yn dda. Yr oedd bob amser yr un mor gartrefol, boed yn oedfa bregethu, oedfa Gymun ar y Sul neu Fore'r Dolig neu'r Pasg.

'Gwnaf fy ngorau i'ch bugeilio yn enw yr Arglwydd Iesu Grist,' dywedodd yn ei gyfarchiad i Adroddiad Blynyddol 1975, y flwyddyn y daeth yn Weinidog ar Y Cysegr ac rwy'n siwr y gallwn i gyd dystio iddo wneud hynny. Dros y blynyddoedd cafodd rannu nifer fawr o amrywiol brofiadau gyda'i aelodau. Bu yn Fugail aml ei bresenoldeb a chefnogaeth ar aelwydydd y rhai mewn profedigaeth. Llu ohonynt yn ystod y blynyddoedd. Yn yr un modd, bu yn ymwelydd parod a chyson â'r claf ar yr aelwyd neu yn yr Ysbyty, a gwnai gymwynas ar ei phen. Llawer i un sydd wedi tystio mor falch oeddynt o weld W.R. pan oeddynt mewn argyfwng. Roedd yr un mor gartrefol ei sgwrs ar yr aelwyd ac yn yr Ysbyty. Rydym yn ffodus iawn fod ei ffordd agos atoch a diymhongar wedi golygu bod rheini ifanc ar hyd y blynyddoedd wedi dymuno i'w plant gael eu bedyddio ganddo yn yr eglwys.

Derbyniodd lu o bobl ifanc yn gyflawn aelodau ar hyd y blynyddoedd ac er nad yw bod yn aelod o gapel yn rhywbeth mawr a phwysig yn ein cymdeithas heddiw parhau i ymaelodi mae'r ieuenctid. Derbyniwyd tri ar ddeg yn 1998, er enghraifft. Diddorol sylwi mae 166 oedd nifer yr aelodau yn 1975 pan ddaeth i ofal Y Cysegr ac ar ddiwedd 1998 roedd y rhif yn 205. Wrth gwrs, fel pob eglwys arall rydym wedi coli llawer hefyd trwy ddiffrawder.

Pan yn trafod symudiad ein gweinidog i Fanceinion, tystiolaeth sawl un yw 'fe fydd yn rhyfedd iawn heb W.R., rydym yn colli ffrind a Bugail da.'

Rydym ni yma wedi clywed aml i atgof ganddo am gymeriadau ei eglwysi cyntaf yn Sir Aberteifi a diamau bydd yn parhau i sôn ym Manceinion hefyd am eglwysi ei ofalaeth yma yn Arfon. Dymunwn oll, iddo ef a Menna ei briod, rwydd hynt yn yr ardal newydd. Fe â gyda'n dymuniadau gorau. Bydded ei lwybrau yn rhai hawdd eu troedio a llyfn, a bydded llaw yr Anfeidrol ei hun yn gysgod a chynhaliaeth iddo i bregethu'r Gair ac i fugeilio'r praidd ym Manceinion.

Siencyn Morgan Griffith
Ysgrifennydd yr Eglwys

W.R.

Ei emau o fyd amaeth — a'i eiriau
O storws magwraeth,
Trwy ofalon hwsmonaeth
Bu'n rhannu'r cnwd yn ffrwd ffraeth.

Heddiw, cofiwn ei ddyddiau — yn gyson
Bu'n gysur â'i eiriau;
Yn cynnal fflam, heb amau
Y Gŵr a fu'n ei gryfhau.

RLJ

Gala Nofio yr Urdd

Cynhaliwyd Gala Nofio yr Urdd (Rhanbarth Eryri) i blant dan 10 a dan 12 yn ddiweddar a bu nifer o gystadleuwyr o fro'r Eco yn llwyddiannus. Daeth Caryl Wood o Waunfawr yn gyntaf yn y Nofio Rhydd a'r Nofio Cefn i ferched dan 12, ac fe ddaeth timau o'r Waunfawr yn ail yn y Cyfnewid Cymysg ac yn drydydd yn y Cyfnewid Rhydd i ferched dan 12.

Yn y cystadlaethau dan 10 daeth Iwan Arwel o Lanrug yn gyntaf yn y Nofio Cefn ac yn drydydd yn y Nofio Rhydd a dath Jason Reeves o Waunfawr yn gyntaf yn y Nofio Broga. Yn y cystadlaethau dan 10 hefyd daeth timau o Lanrug yn ail yn y cystadaethau Cyfnewid Rhydd i fechgyn a merched ac hefyd yn y gystadleuaeth Cyfnewid Cymsyg i fechgyn. Tîm llwyddiannus arall o'r ardal oedd tîm Bethel ddaeth yn drydydd yn y Cyfnewid Cymysg i fechgyn dan 10. Llongyfarchiadau calonog iddynt i gyd.

Llyfrau Nadolig Gwasg Gwynedd

Hunangofiant
Chwarter Canrif
Gerallt Lloyd Owen
FY NGHAWL FY HUN
•
DAL I SBECIAN DROS FY SBECTOL
John Roberts Williams
•
C'MON REFF
Gwyn Pierce Owen

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS
RHIWLAS
01248-361044

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
LLOGWCH FWS I'W DDATHLU'N DDIOGEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

LONDON GARAGE
FIAT FIAT **CWM-Y-GLO** FIAT FIAT
ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT

GORSAF PRAWF MOT
POB MÊC – CEIR A FANIAU BACH
GWASANAETH ac ATGYWEIRIO
CEIR AIL LAW AR WERTH
CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD
GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234
neu Ffacs: (01286) 870066

AR AGOR:
Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.
Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro *Eco'r Wyddfa* oddi wrth bawb ym musnes llefrith

EIRWYN WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO
Ffôn: (01286) 870563
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn

CHWILOTA

Diwedd Canrif

Yn ystod mis olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y rhyfel yn ne Affrica oedd yn mynnu sylw'r papurau dyddiol, a hyd yn oed yn cael adroddiadau pur fanwl mewn wythnosolion fel Yr Herald Cymraeg a'r Caernarvon and Denbigh Herald. Digwyddiadau digon cyffredin oedd gweddill yr adroddiadau am dref Caernarfon a phentrefi'r ardal. Ond roedd ambell i ddigwyddiad allan o'r cyffredin, ac un neu ddau hyd yn oed yn berthnasol i ni yn ystod mis olaf canrif arall.

Ar ddechrau Rhagfyr 1899 roedd y 'Welsh Cycle Manufacturing Company' o Gaernarfon (gyda siopau hefyd yn Aberystwyth, Pwllheli a Phorthmadog) yn hysbysebu Beics Mona am brisiau o ddeuddeg gini am feic dyn, ond tair punt ar ddeg am feic i ferch! Roedd merched yn costio'n ddrutach bryd hynny hefyd!

Ddechrau'r mis cafwyd adroddiad cynhwysfawr ar ymweliad Côr Meibion Eryri â Chastell Windsor i berfformio o flaen y frenhines — y tro cyntaf i gôr o ogledd Cymru gael y fraint o ganu yn Windsor. Yno hefyd roedd Ymerawdwr ac Ymerodres yr Almaen, a llu eraill o fân berthnasau'r teuluoedd brenhinol. Mae'n ymddangos fod Lloyd George wedi bod yn amlwg yn y trefniadau.

Teithiodd aelodau'r côr mewn trên o Gaernarfon i Lundain — a dau gerbyd arbennig wedi eu cadw ar eu cyfer. Yr arweinydd oedd John Williams, organydd proffesiynol Eglwys Crist, Caernarfon a'r cyfeilydd oedd Richard Pritchard, organydd Capel Salem, Caernarfon. Roedd hanner aelodaeth y côr yn chwarelwyr o fro'r 'Eco', a'r gweddill yn weithwyr o dref Caernarfon — o'r Swyddfa Bost a gweithfeydd argraffu'r dref gan mwyaf.

Argraffwyd rhaglen arbennig ar sidan ar gyfer yr achlysur — tri chopi yn unig: dau mewn sgarlad i'r pâr brenhinol o'r Almaen a chopi mewn glas brenhinol i Fictoria. Ar gloriau'r rhaglenni arbennig hyn roedd draig goch a thelyn gyda lluniau o'r arweinydd a Chastell Caernarfon oddi mewn. Roedd geiriad yr holl raglen yn Gymraeg a Saesneg, a chanmolwyd Cwmni W. Gwenlyn Evans, Caernarfon yn fawr am y gwaith argraffu hynod o gain.

Wedi diddori'r jambori brenhinol (a chael ffotograffydd i dynnu lluniau'r côr o flaen Castell Windsor), teithiodd yr aelodau ar drên i Northampton. Yno, cynhaliwyd cyngerdd arall i godi arian i filwyr clwyfedig oherwydd yr ymladd yn Ne Affrica. Mawr fu'r siarad yn y chwarel am hanes y daith a'r perfformiad o hynny tan y Dolig!

Erbyn yr ail a'r drydedd wythnos yn Rhagfyr roedd y Nelson Emporium yng Nghaernarfon yn hysbysebu 'Christmas Presents', sef 'musical toys and games'. Roedd y cigydd Henry Owen o'r Bont Bridd hefyd yn hysbysebu ei 'Christmas Show of Meat' ond cwmni Pierce and Williams a gadwai siop 'Yr Afr Aur' yn brolio fod ganddynt stoc enfawr o anrhegion Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Ond doedd wynebu'r Nadolig ddim yn fêl i un teulu yn Llanberis — gwta wythnos cyn yr Ŵyl cynhaliwyd cwest yn Ysbyty'r Chwarel ar William Jones, Bethesda Street a laddwyd mewn damwain yn Chwarel Dinorwig.

Yn ystod yr un wythnos cynhaliwyd cyfarfod yng Nghaernarfon gan Gomisiynwyr y Rheilffyrdd i ystyried cais gan y North Wales Narrow Gauge Railway Company i ymestyn y rheilffordd o Rhyd-ddu i Feddgelert. Roedd y tystion yn yr ymchwiliad i gyd o blaid adeiladu'r lein, gan honni y deuai â masnach newydd i bentref Beddgelert a'r cyffiniau. Yn wir, ceir adroddiad am nifer o ffermwyr yn y cyfarfod yn annog y Comisiynwyr i ganiatau'r cais. Mor wahanol fu ymateb ffermwyr yr ardal heddiw i'r cais am ail-agor y lein bach! Yr unig ddadl a gynigiwyd yn erbyn y cais oedd y ffaith y byddai un neu ddau o gertmyn yn debygol o golli eu gwaith.

... ac aeth y Dolig heibio gyda'i gnwd o eisteddfodau mân a mawr, a setlodd bywyd yn ôl i'r un drefn o dda a drwg ym mhob cymdeithas. Daeth y ganrif i ben i rai o drigolion y fro yn y Llys yng Nghaernarfon: Henry Roberts o Fethel yn cael dirwy am deithio ar y trên o Gaernarfon i Bontrhythallt heb dalu am docyn, a dau chwarelwr o Rhiwlas yn cael eu dirwyo am botsio cwningod ar Foel Rhiwen.

Pasiwyd dwy ddeddf seneddol go arbennig yn ystod blwyddyn olaf y ganrif ddiwethaf. O ganlyniad i fesur preifat yn y senedd, codwyd oedran gwirfoddol gadael ysgol i ddeuddeg, a hynny o fwyafrif bychan yn unig. Roedd yr ail ddeddf yn un go anghyffredin. Penderfynwyd fod rhaid i ferched oedd yn gweini mewn siopau gael yr hawl i sedd tu ôl i'r cownter, ond rhag gwneud y merched druan yn rhy ddiog, penderfynwyd yn y mesur seneddol fod un sedd i bob tair gweinyddes yn llawn digon! Sgwn i be ddigwyddodd i'r ddeddf honno erbyn heddiw.

Ar ddiwedd blwyddyn arall yn hanes yr 'Eco', carwn ddiolch unwaith eto i'r llu ohonoch fu'n cysylltu â mi ar wahanol agweddau o hanes y fro. Gwn na fu'n bosibl dilyn pob trywydd, ond mae'r ymchwil yn parhau ynglŷn â rhai eraill, a gobeithio yn ystod y flwyddyn nesaf y daw ffrwyth yr ymchwil hwnnw i dudalennau'r 'Eco'r Wyddfa'.

Mwynhewch y gwyliau a chawn gwrdd eto yn rhifyn Chwefror 2000.

Os oes gwybodaeth neu ymholiad am unrhyw agwedd o hanes bro'r 'Eco', cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.

DRAENOG

Glywsoch chi am y gŵr hwnnw aeth nôl am dro i fro ei febyd yng ngwlad Llŷn. Roedd o'n chwilio am westy arbennig yn Nefyn, ac aeth ar goll yn lân. Rhyfadd a fynta wedi ei fagu filltir neu ddwy i ffwrdd.

STA' Ni'n deall y peth!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION
Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

TYDI HI DDIM YN RHY HWYR I ARCHEBU O'R
Deli Dolig
Pwdin Dolig, Mins Peis, Stwffin, Hams
Bara Brith, Merangs ac yn y blaen
Y Bistro
Ffôn: 871278
sion
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: DANNY
A NERYS ROBERTS
HEFYD
Y BISTRO
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn Jones a'r staff

Un funud fach ...
Cliff

Rhag cywilydd i Cliff Richard am ddifetha'r Mileniwm i filoedd o bobl. Uchafbwynt blynyddol y byd recordiau yw'r ras i gyrraedd brig y siartiau erbyn 'Dolig. A dyna fo, Cliff, yn meiddio difetha'r cyfan trwy ddod i'r brig ddechrau'r mis, a bygwth aros yno dros yr Ŵyl. Amser a ddengys a fydd yn gwneud hynny, ond mae'r cyffro a barodd ei fersiwn gerddorol o Weddi'r Arglwydd yn hynod ddadlennol.

Does dim rhaid i bawb hoffi'r gân. A does dim rhaid i bawb wirioni ar Cliff Richard chwaith. Ond pwy fyddai wedi dychmygu y byddai'r fath wrthwynebiad iddo ef a'i gân? Gwrthododd mwyafrif gorsafoedd radio gwledydd Prydain ddarlledu'r gân mewn ymdrech fwriadol i'w hatal rhag cael sylw. Ymosodwyd yn gas ar Cliff ei hun, a'i 'bechod' mwyaf yw ei barodrwydd i arddel y Ffydd Gristnogol yng ngŵydd y byd.

'Pa hawl sydd ganddo fo i ddifetha'n hwyl trwy wthio Cristnogaeth i lawr ein cyrn gyddfau? A hynny adeg y 'Dolig o bob amser. A beth sydd a wnelo Iesu Grist â'r 'Dolig a'r Mileniwm prun bynnag?'

Cafodd ei gyhuddo o gymryd mantais ar y 'Dolig er ei fudd ei hun, ac o egsploitio ei gyd Gristnogion ac egsploitio Duw. Chymerai'r siopau a diddanwyr o bob math mo'r byd am wneud hynny trwy ddechrau'r Ŵyl tua diwedd Awst bob blwyddyn! Cafodd ei gyhuddo o fod yn wrthun ac aflan ei gymhellion. Onid oes gynnon ni le i ddiolch am bobl fel George Michael sy'n diogelu safonau gwâr a glân ein moesoldeb ar ddechrau canrif newydd!

Dangosodd y cyfan fod yna wrthwynebiad cryf i'r Ffydd Gristnogol yn y gwledydd hyn. Cewch ganu ac ysgrifennu a gwneud ffilmiau am bob math o aflendid, ond gwae i neb roi sylw i eiriau'r Iesu!

Mae arnaf ofn y bydd yr elyniaeth i'r Ffydd yn cryfhau yn y ganrif newydd. Gweddïwn am nerth i barhau'n ffyddlon i'r Arglwydd Iesu Grist.

JOHN PRITCHARD

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

MARWOLAETH. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Margaret Williams a Meira, Goleufryn yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith a modryb, sef Mrs Dilys Sheasby o Corfe Castle, Dorset yn 84 mlwydd oed. Chwaer annwyl i Mrs Rhona Thomas, Llanberis ac i'r diweddar Mr Eric Williams.

Yn dawel yng nghartref Plas y Bryn, Bontnewydd (gynt o Dolwen) bu farw Mrs Katie Watkins yn 90 mlwydd oed. Bu Mrs Watkins yn hynod weithgar yn y pentref ar hyd y blynyddoedd hyd nes i'w hiechyd ei chaethiwo ac iddi gartrefu yng nghargret Plas y Bryn saith mlynedd yn ôl. Bu'n aelod ffyddlon yn eglwys Sant Gabriel ac yn athrawes Ysgol Sul am flynyddoedd lawer, yn aelod o Undeb y Mamau, Merched y Wawr, Clwb y Graig, Clwb Pobl y Cwm ac yn mynychu dosbarthiadau WEA.

Cof sydd gan lawer amdani yn trefnu nosweithiau llawen yn yr hen ganolfan, trefnu gwasanaethau'r Plygain a'r arwerthiant ddydd Mawrth wedi'r Diolchgarwch. Bu ei hangladd yn Eglwys St Gabriel dydd lau, 2 Rhagfyr a rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Parch Gareth Parry. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Yn dawel yn Ysbyty Eryri, Caernarfon ar 1 Rhagfyr bu farw Mrs Nellie Wyn Pritchard yn 79 mlwydd oed (gynt o Plas Pengwaith a 23 Dôl Afon). Bu ei hangladd ddydd Llun, 6 Rhagfyr gyda gwsanaeth yng nghapel y Tabernacl ac yna yn dilyn ym mynwent Llanrug pryd y gwasanaethwyd gan y Parchedigion Gwynfor Williams a John Pritchard. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r plant, Melfyn, Selwyn, Carol a Haydn a'u teuluoedd yn eu profedigaeth a'u galar.

DIOLCH. Dymuna Mari, Dylan a Gethin a theulu y diweddar Iorwerth Jones, Min-y-don ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch i'r Parch John Pritchard a Mr John Bumby am eu gwasanaeth ac i Mr M Pritchard a Gwynfor am eu trefniadau trylwyr.

Dymuna Einir a Geraint, Gwêl Eilidr ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r caredigrwydd a dderbyniasant ar achlysur geni eu mab bychan, Ifan Gwynn.

CYFARCHION Y NADOLIG. Dymuna Mrs Megan Jones, 21 Dôl Afon ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau a'i chymdogion gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Mair Huws, prifathrawes yr ysgol, sydd heb fod yn rhy dda yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymunaf ddiolch i bawb sydd wedi anfon newyddion yn gyson bob mis i'r Eco drwy gydol y flwyddyn. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Teyrnged i'r diweddar Mr Iorwerth Jones

Ar ran y Gymdeithas Diogelu Hen Beiriannau Amaethyddol Gogledd Cymru hoffwn gydymdeimlo â Mari, Dylan, Gethin a'i frodyr a'r teulu i gyd.

Fe wnes i gwrdd â Iorwerth am y tro cyntaf tua tri deg o flynyddoedd yn ôl yng Nglynllifon tra roedd yn atgyweirio bwyler gwresogi, a chael sgwrs bleserus iawn. Ni fu inni gyfarfod wedyn hyd nes y daeth yn aelod o'r Gymdeithas ddiwedd y saithdegau, ac o hynny ymlaen buom yn cyd-drafeilio tan ddiwedd Ebrill eleni.

Roedd rhinweddau Iorwerth yn syrthio i mewn i dri phen: Crefftwr, Cymeriad a Chyfaill annwyl i bawb oedd yn ei adnabod.

Dechreuodd ei yrfa gyda D.J. Williams, Caernarfon fel prentis gof, yna i'r fyddin ac yn ôl i D.J. ac mae ei waith i'w weld yn ngiât Castell Chirk. Pan ddechreuodd atgyweirio hen beiriannau amaethyddol ac wedyn hen geir, yr oedd ei ddawn fel crefftwr i'w weld ar ei waith ac roedd yn gallu gwneud unrhywbeth gyda darn o haearn.

Ara ôl gadael D.J. Williams aeth i weithio gyda Chwmnïau Sweeney a Foster Pearson cyn mynd yn ddarlithydd i'r Coleg Technegol. Yn ystod ei amser yno cafodd hi'n anodd iawn setlo a dyna'r unig dro i mi ddadlau ag o, er mwyn ei berswadio i aros yno, a da oedd hynny er lles y myfyrwyr a fu o dan ei ofal.

Wrth deithio'r wlad efo'n gilydd fe gafwyd hwyl na ellir ei egluro. Adroddai ei hanes yn gweithio hefo D.J., ac yr oedd ganddo dipyn o feddwl o D.J. ei hun. Nid oedd yr hanesion yn hwyliog i gyd dim ond y ffordd yr adroddai hwynt. Roedd pob siwrnai yn mynd yn gyflym iawn. Os byddem yn cychwyn yn gynnar roedd yn rhaid stopio am frecwast ac roedd yr 'Early Starter' wedi dod yn boblogaidd gennym i gyd. Fel cyfaill yr ydym oll yn mynd i'w golli yn fawr iawn. Gwelais hyn yn ei bentref ei hun wrth ei helpu i dynnu corn simdde rai blynyddoedd yn ôl. Fe stopiai pobl i dynnu arno ac yntau yn eu hateb yn ôl yn ei ffordd ddihafael ei hun. Fe wnes fwynhau y dau ddiwrnod yn fawr er y bu'n rhaid i mi weithio ychydig gyda'r pwli a'r bwced.

Dyn sedd ôl oedd Iorwerth yn y Gymdeithas a'r clwb ceir. Roedd Now, Jim a dau arall wastad yn y cefn yn eistedd fel criw o hogiau drwg. Methais ei gael i gynnig y Diolchiadau mewn cyfarfodydd, roedd wastad yn gallu awgrymu rhwyun arall pan y ofynnwn iddo ddiolch, gan ddweud y gallai hwnnw wneud yn well.

Brynhawn dydd Sadwrn diwethaf, tua 2.30 rhaid i mi ddiolch i Meirwen am ddweud, 'Well ni fynd i weld Iorwerth', ac ar ôl cyrraedd cael braw o weld y teulu i gyd yno, ond cefais dreulio rhyw ddau funud yn ei gwmni. Dywedodd, wrth i ni adael, 'Diolch i ti, mêt.' I fyny i ddydd Sadwrn diwethaf roedd wastad yn dweud, 'Brysia yma,' neu 'Mi ddôi i dy weld.' Diolch i chwi am y cyfle i dalu y deyrnged yma i grefftwr, cymeriad a chyfaill annwyl, a be fedra i ddweud ond 'Diolch, mêt'.

John Bumby

Ar Werth

Cwt ci o wneuthuriad cryf - £40 neu'r cynnig agosaf. Cysylltir â Mrs D. Jones, Dolafon, Llanrug. Ffôn: (10286) 673462).

DAFYDD OWEN
TRYDANWR
Pob math
o waith trydanol
a Larwmau Lladron
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
National Inspection Council for Electrical Installation Contracting
NICEIC
APPROVED CONTRACTOR
11 Rhes Faenol
LLANBERIS
Ffôn: (01286) 871680

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth

E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Roger a'r staff

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

GŴYL GERDD DANT. Llongyfarchiadau i Dona Mair Roberts ar ddod yn drydydd yr yr Unawd Cardd Dant o dan 16 oed yn yr Ŵyl Gerdd Dant yng Nghorwen.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned y Waunfawr yn y Ganolfan, y Waunfawr nos Fawrth, 30 Tachwedd. Roedd y cynghorwyr Vera Roberts a Clive James yn bresennol. Cafwyd adroddiad fod Wardeniaid Cŵn Cyngor Gwynedd yn galw heibio ar amserau yn y pentrefi er mwyn ceisio atal pobl sy'n gadael i'w cŵn faeddu mewn mannau cyhoeddus. Roedd Cyngor Gwynedd yn falch bod y Cyngor Cymuned yn fodlon cymryd y brydles ar gyfer y man chwarae newydd i blant yng Nghaeathro. Ynglŷn â'r cais am ragor o arwyddion 'Gwarchod Cymdogol' bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am Gaeathro a'r Waunfawr ym mis Ionawr. Rhoddwyd caniatad cynllunio gan Gyngor Gwynedd am estyniad i greu cyfleusterau toiled a man chwarae i blant ym Mharc Glan Gwna.

Cytunwyd gyda syniad Cyngor Gwynedd i godi arwyddion er mwyn codi ymwybyddiaeth o enwau llynnoedd, afonydd a phontydd. Penderfynwyd cyflwyno Pont Peblig ac Afon Seiont ar gyrion Caernarfon.

O'r diwedd mae Cyngor Gwynedd wedi cymryd camau i arafu traffig yn y pentref. Mae'r Gorchymyn Traffig sy'n ymestyn yr ardal 30mya i'w weithredu o 29 Tachwedd. Gobeithiwn y bydd yr arwyddion newydd wedi'u codi cyn bo hir. Hefyd mae Cyngor Gwynedd am beintio 5 arwydd tawelu ar y ffordd. Fodd bynnag, nid oes cynnig gan Gyngor Gwynedd i ateb y broblem o ddiffyg pafin dros bont afon Efail Bach ar y ffordd i siop 'Londis' y pentref.

DATHLIADAU'R DOLIG, 1999. Erbyn hyn mae'r pentref wedi goleuo — blaen y Capel, Tafarn Bryngwna a nifer o aelwydydd. Ac hefyd, wrth gwrs, ceir Y Goeden Dolig ar y Sgwâr. Diolch i gyfranwyr Clwb 100 Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro mae'r Pwyllgor unwaith eto wedi gallu prynu, codi a goleuo'r goeden. Mae pawb yn gobeithio na fydd gwyntoedd cryfion yn malu'r goeden eto eleni ac na fydd lladron yn dwyn y bylbiau lliw (110 folt gyda llaw a di-ddefnydd mewn cartref - NODER!)

Hefyd cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Caeathro y Sul diwethaf gyda eitemau gan y plant a'r Ysgol Sul newydd ei hail-sefydlu — llongyfarchiadau i'r plant a'u hathrawon.

Beth sydd ar ôl? Wel, cynhelir Parti Dolig plant oed cynradd ac iau yn Y Ganolfan, Y Bontnewydd am 5.30 brynhawn lau, 23 Rhagfyr, hefo Siôn C orn. Ac wedyn, Diwrnod Nadolig!

AR RAS WYLLT. Dyna fu hanes Tim Lloyd, Bodawel yn y rhaglen deledu o'r un enw ar nos Lun, 6 Rhagfyr. Roedd Tim yn aelod o dîm Rhedwyr Eryri a aeth i Schermerhorn yn yr Iseldiroedd i gystadlu yn erbyn rhai o dimau gorau Ewrop yn y farathon (ie, 26 milltir!) mwd (ie!) enwog. Roedd e'n 28fed yn y ras — llongyfarchiadau.

Y MILFLWYDD. Bu dadl ynglŷn â'r union milfed blwyddyn ond erbyn hyn Nos Calan, 31 Rhagfyr 1999 fydd y noson fawr. Tybiaf y bydd selogion Tafarn Bryngwna yn dathlu yn y dafarn, diolch i Brenda a Willy a'u lletygarwch. Hefyd bydd Parti Plant a Phobl Ifanc am 3.00 bnawn dydd Llun, 3 Ionawr gyda sioe fyw, lluniaeth tymhorol ac anrheg goffa i bob un ohonynt.

Beth am y flwyddyn newydd, y cyntaf yn y milflwydd newydd? Trwy gefnogaeth trigolion y pentref, cedwir teimlad pentref ac agosrwydd yn y gymuned. Hefyd mae'r pentrefwyr yn rhoddwyr hael, fel sy'n hysbys wrth i gyfeillion gasglu at achosion da o ddrws i ddrws. Hefyd maent yn cefnogi Tynfa Misol Pwyllgor y Cae Chwarae ac felly yn galluogi'r pwyllgor i drefnu digwyddiadau a rhoddion yn ystod y flwyddyn. Ond, mae unrhyw bwyllgor yn teimlo fel parhau dim ond ar ôl derbyn cefnogaeth y gymuned, er enghraifft, trwy fynychu'r Cyfarfod Blynyddol.

Hefyd mae'r pentrefwyr yn cefnogi Capel y Pentref trwy eu cyfraniadau ariannol. Fodd bynnag, nid yw'r oedolion cystal mynychwyr â phlant yr Ysgol Sul! Deallwn y bydd yr Henaduriaeth yn caniatau cyn bo hir y gwaith i addasu'r Capel fel canolfan ysbrydol a chymunedol i Gaeathro — eich pentref chi. A fydd y pentrefwyr yn fodlon mynychu'r oedfaon, ymgymeryd â dyletswyddau rheoli'r adeilad a chefnogi gweithgareddau cymunedol?

Gan nad oes gan y Capel ofal gweinidog ers bron i fis rwan, mae 'na lawer mwy o gyfrifoldebau ar yr aelodau. Dim ond un blaenor ac un organydd sydd ar gael. Trwy gynnig rhannu'r baich gall mwy o bobl helpu i rannu'r fraint a'r cyfrifoldebau.

MODURDY
PLAS BACH
CAEATHRO
Ffôn: Caernarfon 672072
GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn
WILLIE A BRENDA
BRWNGWNA
CAEATHRO Ffôn: 674568
Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod ein blwyddyn gyntaf
BWYD BAR
PARTION I FYNY
I TUA 18 O BOBL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb ym
MHARC GWYLIAU
GLAN GWNA
CAEATHRO. Ffôn: Caernarfon 673456
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN
GAREJ GWALIA
CAEATHRO
Ffôn 673096

GWASANAETH TORRI LAWR
24 AWR ★ M.O.T.
TRWSIO CEIR
LONDIS
Mae ein siop newydd ar agor 7.30 am - 10 pm bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, a.y.y.b.

Beth am wneud 'cefnogi gweithgareddau yng Nghaeathro' yn un addewid y milflwydd?
TUA'R GWANWYN. Diolch i roddwr anhysbys a phlannwyr gwirfoddol, disgwylir gwledd o liwiau melyn cenin pedr yng nghanol y pentref yn y gwanwyn.

Parc Gwyliau'r Milflwydd

Braf oedd clywed am fenter Cwmni Stadau Glan Gwna wrth i'r cwmni gyflwyno cais cynllunio i Gyngor Gwynedd er mwyn creu atyniad a fydd yn tynnu ymwelwyr y dyfodol. Craidd y cais yw:

* ail-leoli carafanau statig;
* lleihau nifer o garafanau statig o 734 i 650;
* newid defnydd o gae i safle unedau teithiol
* gwelliannau amgylcheddol

Sefydlwyd Canolfan Gwyliau Glan Gwna yn y 1990au. Erbyn hyn mae'r dwysedd uchod o unedau gwyliau a defnydd sal o'r tirwedd naturiol wedi sbarduno'r perchenogion, Myfyr a Gwenda Jones, i anelu am ganolfan ar gyfer y dyfodol. Gwelwyd fod angen gwella gwasanaethau angenrheidiol, megis draeniau, goleuadau stryd ac uwchraddio'r safle i gyd. Trwy foderneiddio ac uwchraddio gall y safle gystadlu hefo canolfannau tebyg eraill yn yr ardal a manteisio ar botensial newydd tref Caernarfon ar gyfer twristiaeth.

Felly, mae'r perchenogion wedi cyflwyno Cynllun Gwella Pum Mlynedd er mwyn cwrdd ag anghenion ymwelwyr y dyfodol. Bydd gwellhad i ansawdd gwasanaethau, llety a'r amgylchedd, gyda'r ffocws ar ansawdd ond nid niferoedd. Bydd hyn o fudd, nid yn unig i'r cwmni ond i'r eceonmi leol. Gyda nifer o swyddi i bobl lleol ar y safle, ac yn lleol. Newyddion da!

Fel canlyniad, bydd llai o garafanau yng nghanol y safle. Bwriedir dymchwel y sialedau ar lawnt flaen Plas Glan Gwna a'r hen weithdy y tu ôl i'r Plas. Bydd carafanau yn cael eu lleoli yn yr ardaloedd eraill ymhellach o'r canol, wedi eu marcio hefo llinellau ar y cynllun, ac ar y safle presennol ar gyfer carafanau teithiol (safle A) ar dir segur a thrwy ail agor y llwybrau trwy'r coedlannau. Ail leolir y carafanau teithiol ar y cae rhwng Afon Seiont a'r briffordd i Gaernarfon.

Ased mwyaf Glan Gwna yw ei leoliad cudd. Bydd y safle, ar ôl diwedd y Cynllun Datblygu, yn medru darparu ar gyfer ymwelwyr sy'n medru fforddio talu'n uwch a gwario mwy ar eu gwyliau. Bydd yr holl ganiatad cynllunio sy'n bodoli eisoes yn cael eu defnyddio ond safleoedd wedi'u cymeradwyo eisoes yn cael eu hail-leoli. Fel canlyniad bydd lleihad bach yn y cyfanswm o unedau ar y safle o 84, i lawr o 734 i 650.

Teimlwn fod menter y perchenogion yn haeddu canmoliaeth fawr a chefnogaeth lawn Pwyllgor Cynllunio Ardal Arfon Cyngor Gwynedd. Eisoes mae'r cwmni wedi gwario ar dirlunio'r Llyn Uchaf ac ail-greu'r Clwb ar y safle. Mae'r enghraifft hon yn esiampl i bawb, yn enwedig y rhai sy'n mynnu nad oes menter yn y Cymry. Nid yn unig pentref Caeathro fydd yn ennill o'r fenter ond economi'r pentrefi cyfagos a thref Caernarfon.

Newyddion da ar gyfer tymor y Nadolig ac ysbrydoliaeth deilwng ar gyfer y Milflwydd. Da iawn!

DRAENOG

Gwell fyddai i bobol sy'n ffonio'r garej am bris trwsio'r car wneud yn siŵr fod y rhif cywir ganddynt. Mae person plwyfi dyffryn Peris yn ystyried arallgyfeirio i faes trin ceir wedi iddo dderbyn cymaint o alwadau ffôn yn ddiweddar.

Llythyr o'r America

Arvon,
Michigan.
April 14 1885

Annwyl Frawd,
Gan fy mod mewn hamdden i ysgrifennu, cymeraf y fantais bresenol i wneud hynny, hwyrach pe buaswn wedi cael gair oddiwrthyt, y buasai gennyf well ddefnydd i ysgrifennu, ond fodd bynnag mentraf wneud gan ddisgwyl y daw defnydd fel y byddaf yn symud ymlaen.

Buasai yn dda gennyf pe buasai gennyf rhyw gyflawnder o newyddion i'w hanfon i ti ond, wele, nid oes gennyf.

Cofus gennyf ddarllen rhywdro yng nghofiant 'D. Rolant' y Bala, am dano yn gofyn i'w gydymaith wrth fyned i Lundain, 'Dear one, hwn a hon, bach, ydan ni ddim wedi dwad i walbant y byd bellach, dwad.' Os na chafoodd D. Rolant ei ben draw, rwy'n credu fy mod i wedi ei gael, achos nid wyf wedi gweled un droedfedd pellach nag Arvon yma er pan wyf yma. Yng nghanol coedydd mawrion yr wyf, rhai mor fawr ag y mae'n gofyn cael dyn dipyn mwy na 'Wil Dafis' i weled drostynt. Y mae wedi ei glirio yma tua 60 *acres*, a thu mewn i'r 60 *acres* yma mae y pentref a'r chwarel. Pan yn Wisconsin meddyliais y buaswn yn lecio yn iawn yn y chwarel am dymor, ond druan o honof, nid yw fy serch ond yn oeri tuag atti bob dydd, er fod yma le da iawn i wneud pres, etto waeth i ddyn hebddynt os bydd mewn gwaith nad yw yn ei hoffi. Hwyrach pe buaswn heb fod yn agor daear Wisconsin y buasai rhyw obaith gwneud chwarelwr o honwyf. Wedi i'r hen geffyl ddysgu 'cast' anhawdd iawn yw ei dynu o hono, felly y mae gyda finnau, yr wyf wedi dysgu 'cast' yn Wisconsin, ac rwyn ofni (pe bawn yn ofni hefyd) na thynir byth mohono o honwyf. Crefft dda i mi, dyna'r grefft orau o ddigon yn America yma, a dyna'r grefft sydd mwyaf unol a'm natur a'm meddwl, ac a'm stumog innau. Paid a synnu dim os clywi fy hanes cyn diwedd y flwyddyn 1885 yn 'Niobrara Valley' Nebraska, neu yn 'Missouri Valley Dakota', os na byddaf yn digymod yn well a'r lle hwn, ac a'r gwaith. Nid oes dim yn fwy sicr na byddaf yn ceisio am *'Claim'* yn un o'r ddau le yna, h.y. os yr 'Arglwydd a'i mwyn', (chwedl Nain).

Pe buaswn yn myned oddiyma yfory nesaf buasai gennyf ddigon i dalu fy *boarding* a fy *farw* yn ol a blaen i Miluawkee, Wisc. pellder oddiyma 367 o filltiroedd.

Cefais lythyr o'r 'Llan', (Wisconsin cofia rwyf yn ei feddwl) heddyw oddiwrth Jemima, ac yr oedd yn dweud ei bod wedi derbyn llythyr etto, yr ail, oddiwrth yr hogan Benneth hono, o Milwaukee, ac na welodd yr un ac ymadroddion mor isel erioed, rhy gywilyddus o lawer i'w hanfon yna i John Ellis, er mai dyna fuasai ei dyletswydd, meddai. Ond yr oedd yn credu ei bod wedi anfon digon yna. Y mae arnaf gywilydd ei bod yn perthyn yr un gronyn i mi.

Y mae yn gywilydd ei bod yn gwneud y fath beth gyda theulu mor barchus a'r 'Llan'. Byddaf yn gwrido pan y byddaf yn meddwl am y tro ofnadwy a gwael, ond o drugaredd, nid ydynt yn edrych yr un gronyn dicach wrthyf, os rhywbeth, yr wyf yn fwy yn eu llyfrau nag o'r blaen.

Hefyd yr oedd yn dweud fod mab Ellen ei chwaer, sef John Closs Rowlands, brawd i'r eneth ag mae ei darlun yna gennych chwi, wedi bod yn Chicago yr wythnos ddiweddaf yn edrych am ei chwaer, ai fod wedi gweled J. Parry Jones yno, a dyna yr hanes ddiweddaf am dano a gefais. Yr oedd ei wraig a'r plant yn myned o Cambria i Dakota yr un diwrnod a Betsy Closs, a golwg ddigalon arni.

Y mae John C. Rowlands yn saer coed da iawn ac yn ffarmwr hefyd. Y mae ganddo 160 *acres* yn Dakota, ond nid yw wedi trin dim arni yno, ac hefyd efe a'i chwaer sydd yn feddianol o'r ffarm y mae ei mam yn byw arni yn Wisconsin, ond y mae ei mham wedi priodi ers blynyddoedd gyda un o Gonwy o'r enw R. Thomas, ac y mae iddynt un bachgen 15 oed. Y maent yn deulu caredig iawn. Byddwn yno yn aml iawn pan yn Cambria, ac yr oeddwn yn ffrind garw a Johnny C. Credaf y bydd ef a'i chwaer, Nell C. Rowlands allan yn dda ar ol hen lanciau a hen ferchaid y 'Llan'. Y maent yn fwy cartrefol yno o lawer nag yn eu cartref eu hunain.

Y mae Humphrey Closs yn dal yn wael iawn. Yr oedd Jemima yn dweud eu bod wedi clywed oddiyno ddiwrnod cyn iddi ysgrifennu i mi, ac nad oedd dim ond ei fod. Yr oedd yn dweud pe buasai yn cael gair ei fod ychydig fach yn well y buasai yno *right away*.

A fydd Evan William yn cael gweled y llythyrau a fyddaf yn ei anfon i ti? Cofia am eu darllen iddo bob tro, a William Roberts hefyd, achos y mae 'newyddion da o'r wlad bell, fel dyfroedd oerion i enaid sychedig'.

Yr wyf yn cofio yn bur dda am yr hen sgwrsus yn y chwarel gyda'r ddau, ac y mae'n siwr eu bod yn dal yr un mor flasus yna o hyd. Yr oeddwn wedi myned ers wythnosau (cyn ymadael o'r chwarel am yr America), son am dani mor naturiol a myned at fy mhryd bwyd, ac os na byddai llwnc pur dda yn myned i lawr amser cinio yn yr *Office* byddwn yn teimlo rhywbeth fel diffyg treuliad yn fy *mrest* bob tro. Mae yr olygfa a'r ymddiddanion yn fyw o fy mlaen y funud hon, ac os y byddai rhyw sylwadau newydd a da iawn wedi dod i'r bwrdd, ond odid fawr na byddwn innau ac E. Williams yn ail daflu drostynt yn y prydnawn, ac felly rhwng popeth, penderfynnu dod i gael golwg ar y fan y bu cymmaint o son am dani, a dyna sydd gennyf i'w ddweud cyn terfynu nad wyf wedi cael fy siomi yma o gwbl, nid wyf yn dweud hyn er mwyn dweud, na y mae ugeiniau fel arall, yn cyhoeddi melldith uwch ben y wlad, ac hwyrach wedi bod yn wlad pur dda i'r cyfryw rai, yn fynych iawn y diog, a wnaiff redeg y wlad yr Yankee i'r llawr. Yn wir y mae yma le sobr iawn i'r diog. Ni waeth iddo ef 'roddi ffidil yn y to'.

Wel rhaid terfynu gan roddi y cofion gorau at bawb yna o'r hen gyfeillion a derbyn dithau y cofion gorau.

Ydwyf dy frawd,
Owen W. Rowlands

Paid a synnu dim os byddi yn cael gair oddiwrthyf yn bur diswta o rhyw gwr arall o'r wlad fawr yma, cyn diwedd yr haf.

O.W.R.

Y mae Lizzie Ellis yn y bumed lle yn ceisio gwasanaeth er pan y mae yn y wlad yma. Y mae y 3ydd lle iddi yn Milwaukee. Onid yw hyn yna yn siarad digon pe na bai neb arall. O.W.R.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH
ANN A BILLY HUGHES
SIOP TREFLYN
BETHEL
Ffôn: (01248) 670106

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Wil a'r staff

Cig Bethel

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

Gwyliwch am ein prisiau arbennig am ŵyn lleol yn y flwyddyn newydd

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

CYFLENWYR PORTHIANT
IDRIS MORRIS
BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO

Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
Y Felinheli 670439

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Cefnogwch Fusnesau Lleol

CEIR CYMRU
BETHEL (01248) 670451
(Hefyd yn Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y naw mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

Dymuniadau gorau ar gyfer 2000 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: **'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

BETHEL
Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Y Carolwyr Cyntaf (Iwan a Manon Morgan)

Cenais, rhynnais ar riniog — hen aeaf
Yn y rhewynt brathog.
Llais a gefais i gofio
Gŵr a aeth o'i grud i'r grôg.

CARTREF PRESWYL ST TEILO. Cymerwyd drosodd Gartref Preswyl St Teilo yn gynharach eleni gan Ellis Wyn Jones a'i wraig, Iola. Nyrs yw proffesiwn Iola, ac mae Ellis Wyn yn dal i weithio fel barbwr dri diwrnod yr wythnos.

Bu'r cyfnod yn arwain at y Nadolig yn brysur iawn. Cafwyd arddangosfa dân gwyllt ym mis Tachwedd. Mwynhaodd nifer dda o'r 12 preswyliwr y cyfle i weld sioeau Nadolig plant oedran Babanod a lau yn ysgol gynradd y pentref. Nos Sul, 12 Rhagfyr cafwyd adloniant gan aelodau o barti enwog Hogia'r Ddwylan — (mae Ellis yn aelod o'r parti).

Daeth Trefor Williams o'r pentref i'r cartref i chwarae hen dapiau sain o artistiaid fel Triawd y Coleg — achlysur poblogaidd iawn. Dymunir diolch hefyd i Gwynfor Williams ac Ann Simmonds sy'n galw heibio'n fisol i roi cymun i'r preswylwyr.

Mae Ellis Wyn a Iola yn apelio am gael benthyg hen luniau o Eglwys St Teilo ar gyfer arddangosfa yn y Cartref. Fe'u dychwelir yn ddiogel ar ôl gwneud copïau ohonynt.

CLWB BRO BETHEL. Prynhawn Mawrth, 7 Rhagfyr, cynhaliwyd cyfarfod y mis yma yn Festri Bethel. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y llywydd, y Parchedig Gwynfor Williams, a dymunodd yn dda i Mrs Bessie Ellis, a oedd yn analluog i fod yn bresennol. Y siaradwraig oedd Glenys Griffith, Llwyn Eithin a chafwyd ganddi sgwrs ar wahanol draddodiadau ac arferion yr adeg yma o'r flwyddyn mewn gwahanol wledydd o gwmpas y byd. Cyflwynodd nifer o Garolau o'r gwledydd dan sylw ac ymunodd pawb mewn ambell Garol hefyd. Diolchwyd iddi ar ran y Clwb ac i'r merched am baratoi lluniaeth gan Mr Trefor Wiliams.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i Ifan Rowlands, Y Ddôl ar Iwyddo mewn arholiad Cerddorol Ysgrifenedig Gradd 5 dan nawdd Bwrdd yr Ysgolion Brenhinol.

CLWB FFERMWYR IFANC CAERNARFON. Bu mis Hydref yn fis prysur i Glwb Ffermwyr Ifanc Caernarfon. Cymerodd pedwar o'r clwb ran mewn noson gwis a gynhaliwyd yn Ysgol Dyffryn Nantlle.

Aeth criw da o'r clwb i sgïo ym Mhlas y Brenin a mwynhawyd y noson yn fawr.

Cynrychiolodd naw aelod y clwb mewn cystadleuaeth barnu ŵyn a bustych i'r cigydd. Daeth y clwb yn ail drwy'r sir. Clwb Ysbyty Ifan fu'n fuddugol eleni.

Yn ogystal â thripiau allan fel hyn mae'r clwb yn cyfarfod yn wythnosol yn Neuadd Goffa Bethel am 8 o'r gloch bob nos Fawrth. Estynnir croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymaelodi.

Hoffai'r clwb ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi dod i atom ar nosweithiau Mawrth yn ystod y flwyddyn. Diolchwn yn fawr i Gapel Cysegr a Chapel Bethel am gael defnyddio'u festri tra bo gwaith yn cael ei wneud yn y Neuadd Goffa.

DIOLCH. Dymuna Mrs Nora Parry, Tan y Buarth a'r teulu ddiolch i gyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth yn eu profedigaeth o golli modryb.

Diolch hefyd i bawb yng Nghartref St Teilo am bob gofal dros y blynyddoedd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Ellis Wyn, Iola
Holl staff a thrigolion
Cartref Preswyl
ST TEILO
BETHEL
Ffôn: 01248 670353

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PWYLLGOR NEWYDD. Yn y Neuadd Gymuned nos Lun, 13 Rhagfyr cynhaliwyd Noson Wasael. Noson o ganu Carolau, darlleniadau, eitemau gan y plant a blasu pwnsh poeth a mins pei. Diolchir i bawb a ddaeth i gefnogi ac i groesawu naws y Nadolig a chroesawu'r fileniwm newydd gyda'n gilydd.

Tynnwyd Clwb Cant Rhagfyr a'r enillwyr oedd 1. Carys Williams, Meini Gleision, Brynrefail; 2. Elinor Jones, Na N'og, Brynrefail; 3. Arvonia Jones, 4 Llys y Gwynt.

Dymunir diolch o galon i bawb sydd wedi cefnogi'r amrywiol weithgareddau drwy 1999 a diolch hefyd i ffyddloniaid y Clwb Cant. Adnewyrddir y tâl aelodaeth yn Ionawr a chroesewir aelodau newydd am 50c y mis neu £6 y flwyddyn. Y mae'r Clwb Cant hwn yn hwb sylweddol tuag at gostau y Neuadd Gymuned. Gobeithio y cawn hwyl gyda'n holl weithgareddau yn y flwyddyn 2000.

YSGOLION SUL Y PENTREF. Dymunir diolch i Jen Hughes ac Elizabeth Jones am drefnu i dros 50 o blant ac athrawon gael mynd i Theatr Gwynedd i weld y ffilm 'Gŵr y Gwyrthiau'. Er gwaetha'r tywydd garw iawn, roedd y plant yn sicr wedi mwynhau eu hunain yn y Theatr ac wedi mwynhau gweld y storïau am Iesu.

Trefnir Parti Nadolig ar y cyd yn Neuadd Eglwys Santes Helen, bnawn Mercher, 22 Rhagfyr o 2.30 hyd 4.00. Byddwn yn falch o unrhyw gyfraniad tuag at y parti.

YSGOL SUL BOSRA. Fore Sul, 19 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig y plant o dan y teitl, 'Nadolig yr Asynnod Balch'. Cymerwyd y rhan ddechreuol gan y bobl ifanc a'r athrawon gan roi cipolwg dros y mileniwm a aeth heibio. Do, fe ddaeth yntau yno, Sant y Plant, Sant Niclas, a chyflwyno anrheg y mileniwm i bob un am eu ffyddlondeb. Cyflwynwyd mwg y mileniwm i Mr Evie Jones gan holl aelodau'r Ysgol Sul am ei ffyddlondeb a'i ofal caredig. Diolch Mr Jones. Cyn mynd adref, cafodd pawb fins pei a diolchir i Bronwen am fod mor brysur.

LLONGYFARCHIADAU i ti, Urien Deiniol ar gael dy ddewis i chwarae i dîm Pêl-droed Bechgyn Ysgolion Gwynedd dan 14 oed. Pob hwyl ar y cicio yn 2000.

GWELLHAD. Ein cofion anwylaf atoch chi i gyd sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar a gobeithio y byddwch wedi gwella erbyn y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd Arbennig.

EGLWYS SANTES HELEN. Gwasanaethau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Sul, 19 (Adfent 4): 10.30am Cymun Bendigaid; 3.15pm Gwasanaeth Naw Llith a Charol a chyfraniadau gan blant yr Ysgol Sul;

Mawrth, 21 (Gŵyl Sant Tomos Apostol): 7.00pm Cymun Bendigaid.

Dydd Nadolig Crist, 25: 9.00am Cymun Bendigaid.

Sul, 26 (Gŵyl Sant Steffan, y Merthyr Cyntaf): 10.30am Cymun Bendigaid.

Mawrth, 28 (Gŵyl y Diniweidiaid): 10.30am Cymun Bendigaid.

Gwener, 31 Noswyl Calan: 11.30 Gwylnos, Litani a Chroesawu'r Milflwydd Newydd.

Sul, Ionawr 2 (Nadolig 2): 10.30am Boreol Weddi.

Iau, 6 (Yr Ystwyll): 7.00 Cymun Bendigaid.

Sul, 9 (Ystwyll 1): 10.30am Cymun Bendigaid.

Gweinyddir a phregethir gan y Gwir Barchedig David Thomas, Esgob Cynorthwyol y Dalaith.

Ionawr 16 (Ystwyll 2): 10.30am Cymun Bendigaid.

Ionawr 23 (Ystwyll 3): 10.30am Cymun Bendigaid.

YR YSGOL GYMUNED. Dymuna'r Staff a'r plant Gyfarchion yr Ŵyl i bawb yn y pentref a diolchir i bawb am eu cefnogaeth i holl weithgareddau'r ysgol drwy 1999. Diolchir hefyd i Gyfeillion yr Ysgol am eu gwaith caled hwythau. Ni chynhelir Gwasanaeth Nadolig eleni ond mae prysurdeb mawr ar y gweill hefo'r pantomeim 'Pinocio' a gynhelir fel dathliad y mileniwm ym mis Chwefror.

URDD ADRAN BENTREF.

Tach 30: Cafwyd cwis diddorol hefo Sioned Jones, cyn aelod ffyddlon o'r Adran, ond sydd bellach ym mwrlwm gweithgareddau Nadolig yn Ysgol y Felinheli.

Rhagfyr 7: Mwynhawyd Gwaith Llaw Nadolig hefo Bronwen Jones.

Rhagfyr 14: Gorffenwyd y tymor gyda pharti a disgo. Diolchir i'r ddau droellwr, Myrddin a Dafydd Glyn. Bydd yr Adran yn ail gychwyn ar Ionawr 11 gyda Dawnsio Llinell hefo Anti Jean.

TAITH NODDEDIG ER BUDD Y DEILLION. Pob dymuniad da i Dafydd Williams, Is-gadeirydd Bwrdd Llywodraethol yr Ysgol Gymuned ar ei daith elusen ar gefn ei feic yn Cuba yng nghanol mis Ionawr. Bydd yn rhaid iddo reidio oddeutu 250 o filltiroedd mewn pum niwrnod ac mae'r holl arian mae wedi'i gasglu yn mynd tuag at Gymdeithas Cŵn i'r Deillion. Yn ystod ei ymdrechion mae dau o'r pentref wedi ennill tegan meddal o gi bach blewog du mewn raffl a drefnwyd. Mae amryw o'r pentrefwyr eisoes wedi bod yn hael iawn gyda rhodd ariannol ac os hoffai unrhyw un arall gyfrannu gellir cysyltu â Dafydd ar (01286) 871754. Gobeithir cael hanes y daith yn rhifyn Chwefror.

DYMUNIR NADOLIG DEDWYDD I CHWI OLL A PHOB BENDITH YN 2000.

2,000

Fydd na'r un ysgytiad mewn hyn o fyd,
O gladdu un milflwydd a geni un arall 'r un pryd.

Ond mae'n debyg y bydd 'na filoedd yn sobor o chwil,
Wrth simsanu i groesi'r rhiniog i'r flwyddyn dwy fil.

A bydd tyrfa ym Mhalas Camelot yn gwylio'r sêr
Sy'n troelli'r corddwr, i ethol y milioners.

Ac yfory i Salem a Seilo, daw dyrnaid ynghyd,
I ddathlu pen-blwydd arbennig Gwaredwr y Byd.

Selwyn Griffith

Mae **Margaret** a **Jim Munro** wedi symud i **Gatref y Borth, Ffordd Betws, Llanrwst**. Maent yn diolch yn ddiffuant i'w ffrindiau a fu'n ymweld â nhw ym Mhlas Pengwaith, Llanberis. Croeso i bawb i Gartref y Borth. Dymunant i bawb o'r teulu, ffrindiau a chymdogion Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

DRAENOG

Cyhoeddwyd dau bamffledyn llwigar a chostus dros b en yn ddiweddar gan fudiad o'r enw Llanberis 'PROJECT', menter â'i bencadlys rhywle yn Llanberis, sy'n derbyn cymhorthdal hael o bwrs y Comisiwn Ewropeaidd. Yn Saesneg yn unig y cyhoeddwyd y pamffledi sydd wedi eu darparu ar gyfer ymwelwyr i Lanberis. Ond rhaid eu canmol am roi cyngor rhagorol i'r dieithriaid sut i lefaru yn eglur yn y Gymraeg. Awgrymir iddynt lefaru fel a ganlyn:

Croeso! (Kroy-so!)
Bore da (Borra-daa!)
Mynydd (Mun-idd!)
Rwy'n dy garu di (Roo-een dee garry dee!)

Gan fod nifer ohonom wedi cael yr un anhawsterau dros y blynyddoedd gyda'r Saesneg mae'r Eco am eich gwahodd i roi cynnig ar y canlynol:

Silly (Si-lii)
Stupid (Sti-wpid)
Insulting (ins-yltiing)

Nid oes gwobr am y cynnig gorau!!

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr yr *Eco*

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill
Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL

Nadolig Llawen a diolch am eich cefnogaeth oddi wrth
Alwyn a Sarah Jones
BLODAU RACCA
PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870605

RITHOEDD CELYN, COED NADOLIG
BASGEDI PLANHIGION, BLODAU FFRES A SILC
DANFON BLODAU 7 DIWRNOD YR WYTHNOS
DRWY'R FRO. GWASANAETH TUDALENNAU
SIARAD/*TALKING PAGES* 0800 600900

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

STERMAT
OFFER TŶ A GARDD

CAERNARFON
Ffôn: 676506

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth
yn ystod y flwyddyn

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH DRWY'R FLWYDDYN
CROESO ARBENNIG I BAWB DROS
WYLIAU'RNADOLIG A'R MILFLWYDD
GWELER EIN HYSBYSEB ARALL AM FANYLION

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

NADOLIG LLAWEN **PLUM24CYM** A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwms
Gwaith cynnal a chadw o bob math
Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER: WAUNFAWR (01286) 650552
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco.

Mae BRIAN a RITA HENDERSON

SIOP Y PENTREF

BRYN GWYNEDD
WAUNFAWR

yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

- Cardiau Manweb
- Fideos i'w llogi
- Alcohol ar werth

Swyddfa'r Post

SWYDDFA'R POST ac YSTORFA TŶ NEWYDD WAUNFAWR

Ffôn: 650708

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Colin, Judy a'r staff
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio

SFP

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

SNOWDONIA FIRE PROTECTION

YR HEN EFAIL, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650235
Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445

OFFER DIFFODD TÂN — masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i holl gyfeillion yr Antur ym mro'r Eco

Antur Waunfawr

ANTUR WAUNFAWR

01286 650 721 www.anturwaunfawr.org

Mae
LLEUFER, NELMA A TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650 291

yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

★ O LEIAF 60 O WELYAU MEWN STOC
★ 5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
★ 40 O '3-PIECE SUITES'

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwedd. £40: Mrs L.J. Williams, Plas Bodhyfryd; £25: Mr Ronald Williams, 18 Bro Waun; £10: Mr Neville Owen, Bryn Gwylan.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Treuliodd aelodau Sefydliad y Merched brynhawn difyr iawn ddydd Iau diwethaf, 2 Rhagfyr, pryd y cafwyd Parti Nadolig ym Mhlas Tirion, Llanrug. Roedd y bwyd yn ardderchog a'r awyrgylch Nadoligaidd yn hyfryd. Estynnwyd croeso cynnes iawn i Mrs Gwenda Williams o Ryd-ddu fel aelod newydd. Anfonwyd cofion yr aelodau at Mrs Peggy Jones a'r teulu yn eu pryder yn dilyn y ddamwain i'w hŵyr, Derfel. Dymunodd y Llywydd, Mrs Mair W Williams yn dda i Mr a Mrs Fred Buckley, 4 Croesywaun sydd yn mynd i Ganada at eu mab a'r teulu ar 8 Rhagfyr i ddathlu eu Priodas Aur, y Nadolig a'r flwyddyn newydd.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Alma a Rob Jones, Tan-y-fron ar enedigaeth eu hail ŵyr, Obed, mab bychan i Nan Wyn a Huw a brawd bach i Robin a Miriam.

PEN-BLWYDD HAPUS. Llongyfarchiadau i Eric a Rhian Jones, Stad Tref Eilian ar ddathlu eu Priodas Arian. Da deall bod Rhian yn gwella wedi llawdriniaeth.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Aled Rhys, Pen-y-graig ar gyrraedd ei 18 oed, ac i Mrs Annie Bennet, Llechwedd ar gyrraedd ei 93 mlwydd oed.

YMDDEOLIAD. Dymunwn bob hapusrwydd i Nan Huws Roberts, Bodrida ar ei hymddeoliad o'i swydd gyda'r Weinyddiaeth Amaeth.

GYRFA NEWYDD. Dymunwn yn dda i Elliw Haf, Afallon a Bethan Wyn, Y Frenni. Mae'r ddwy yn cychwyn gyrfa newydd ym Mrwsel.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Arianwen Thomas, Stad Tref Eilian sydd yn yr ysbyty ym Mangor ac at Mrs Mary Davies, Bryn Eithin sydd yn ysbyty Eryri.

Dymunwn wellhad i amryw o'r pentref sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Dymuniadau gorau i chwi i gyd dros Ŵyl y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

APÊL. Ni drigolion y Waun fydd yn gyfrifol am blygu'r rhifyn nesaf o'r Eco. Os gwelwch yn dda dowch yn llu i festri Croesywaun ar y nos lau olaf o Ionawr i helpu gyda'r gwaith. Diolch yn fawr.

DAMWAIN. Tra ar ymweliad â Chaernarfon, disgynnodd Miss Eirlys Jones, Maelor a thorri ei braich. Dymunwn wellhad buan i chi, Anti Eirlys.

Antur Waunfawr

Taith Ymchwil Antur i UDA

Wedi ennill dwy wobr a theithio i Gaerdydd a Llundain i'w casglu daeth y rhan olaf o wobr Busnes yn y Gymuned i Antur Waunfawr ar ddiwedd Hydref.

Teithiais gyda 11 o gynrychiolwyr busnesau cymunedol eraill yn amrywio o feithrinfa yn ne Lloegr, cynllun trafnidiaeth gyhoeddus yn Northumberland i ganolfan gymunedol yng ngogledd Belfast. Cymal cyntaf yr ymweliad oedd ymweld â grwpiau yn Chicago, Illinois. Yn anffodus diwrnod o daith bws oedd hon, oedd yn ddiddorol i gychwyn ond yn flinedig ar ôl gweld yr 8fed cynllun tai tra'n brwydro'r 'jet-lag' ar ôl cinio maint American. Roedd pethau wedi gwella erbyn yr ail ddydd pan rannwyd y grŵp yn ddau a buom yn ymweld â chanolfan YMCA oedd yn weithgar iawn mewn datblygu economaidd mewn ardal eitha tlawd o'r ddinas. Wrth gwrs, gan mai America oedd hyn roedd pob dim yn fwy na'r hyn roeddwn i wedi arfer â fo yn fy ngwaith dyddiol gyda'r Antur ond hefyd roedd yna gymhariaethau diddorol i'w gwneud gyda datblygu cymunedol yng Nghymru. Y prif bwyslais i'r grwpaiu hyn oedd datblygu'r eeonmi a chreu swyddi ac roeddent yn ymddangos yn llwyddiannus yn hynny o beth. Ond oherwydd y flaenoriaeth yma prin iawn oedd y sylw a roddwyd i ystyriaethau eraill megis gwarchod yr amgylchedd ac atebolrwydd i'r gymuned.

Ail ran yr ymweliad oedd hedfan i Houston, Texas i fynychu cynhadledd datblygu economaidd. Dyma agoriad llygad arall, bod ymysg cannoedd o Americanwyr yn rhwydweithio a cheisio roi gwybod iddynt am waith yr Antur - doedd y ffaith fod fy mathodyn yn nodi 'London, England' ddim llawer o gymorth ond cefais i a chyfaill o Belfast, a oedd yn yr un cwch, dipyn o hwyl wrth geisio esbonio wrth y bobl glên ar y ddesg y pwysigrwydd o newid hynny'n syth! Ond y peth mwya trawiadol o'r holl gynhadledd oedd y ffaith mai grwpiau yn seiliedig ar yr eglwys a'i gwaith yn deillio yn ôl i'r 60au a'r frwydr am hawliau cyfartal i Americanwyr Affricanaidd oedd wrth wraidd cymaint o'r datblygu cymunedol. Profiad tipyn yn wahanol i gynhadleddau rwy'n arfer eu mynychu mewn llefydd megis Llandrindod a Chaernarfon ac yn werth mynd dim ond er mwyn clywed yr areithiau tanllyd a'r porthi o'r llawr. Wedyn, gyda'r nos mewn 'rodeo' gyda chriw o gowbois a hynny, wrth gwrs, yn deimlad digon cartrefol i hogyn o Dregarth.

Efrog Newydd oedd y ddinas olaf i ni ymweld â hi ac wedi ceisio cael dipyn o heddwch yn ein gwesty ar Broadway buom draw i Brooklyn i ymweld â chynlluniau tai oedd yn cael eu rhedeg gan y gymuned. Ar yr edrychiad cyntaf roedd rhain yn esiamplau gwych o ddatblygiad cymunedol ond erbyn holi 'chydig a chael mwy o wybodaeth daeth yn weddol amlwg nad oeddant yn cyfateb i'n syniad ni o gyfarfod gofynion pobl anghenus. Yn hytrach roedd eu pwyslais ar wella un gymuned drwy symud 'problemau' i'r gymuned drws nesa (y Bronx yn yr achos yma) a'r darganfyddiad eu bod wedi gwario $6M ar ganolfan hamdden ond ddim yn gadael i neb dan 18 ddefnyddio'r adnoddau. Roedd hyn yn syndod mawr yn enwedig o gofio geiriau un o arweinwyr y daith, 'fel hyn fydd hi ym Mhrydain mewn 10 mlynedd...'

Ond, wedi'r siom yma cawsom ymweld â chynllun ardderchog ar Ynys Staten oedd yn cynorthwyo a galluogi pobl ar incwm isel i brynu a gwella eu cartrefi eu hunain a hyd yn oed gael cip ar lecyn o dir claddu sanctaidd yr Americanwyr gwreiddiol. Ac ar hynny y gadawsom America gyda llawer o brofiadau diddorol, llawer o gysylltiadau newydd a digon o 'jet-lag' i bara am flwyddyn.

Huw Davies
Antur Waunfawr

Cofiwch mae'r amser wedi cyrraedd unwaith eto i alw ar Gill a'i chriw yn Siop Bryn Pistyll a Dewi a'i griw yn y Parc i archebu eich nwyddau Nadolig. Eleni maent yn derbyn archebion am bwdinnau a chacennau Nadolig, coed Nadolig a thorchau. (01286) 650721.

Mae Liz a John Whitehead, Anna, Fiona a Shanna
THE VILLAGE CHIPPY
WAUNFAWR, Ffôn: 650683
yn dymuno Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

WELDPAR
CYMRU WALES
8 Pant y Waun
WAUNFAWR. Ffôn: 650426/720
OFFER WELDIO O'R SAFON UCHAF
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH BRIAN, SHIRLEY A TONY

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
EMRYS OWEN
PEIRIANAU AMAETHYDDOL
Y WAUN
(Waun Argricultural Engineering)
OFFER AMAETHYDDOL O BOB MATH
HAEARN ADDURN I'R TŶ
WAUNFAWR
Ffôn:
(01286) 650 253

TREFNIADAU
NOS GALAN
31 RHAGFYR 1999
SNOWDONIA
PARC
HOTEL
Oriau agor 12pm - 2pm
7pm - 1am
Mynediad i'r dafarn drwy
docyn yn unig gyda'r nos
DISGO I'R TEULU
7pm - 1am — £2.50 y pen
Ni chaniateirb i balnt fynd
drwodd i'r Lolfa, y noson hon

ŠKODA
OCTAVIA
Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth
John Ferrarese a'r staff
MODURDY PANT Y WAEN
WAUNFAWR Ffôn: 650524

Dewch i ddeifrio'r OCTAVIA . . .
CAR GWYCH AM BRIS FFANTASTIG!

Parti'r Octagon

PARTI'R OCTAGON. Dyma sylwadau rhai o'r plant am y noson fythgofiadwy.

Roedd yn noson grêt ac fe wnes i fwynhau'r noson yn fawr. Roedd yr athrawon yn mwynhau hefyd oherwydd gwelais Mr Elfyn Roberts yn dawnsio fel ffŵl gyda Mrs Williams, ein Dirprwy a Miss Berho!

Chwaraeodd y D.J. drwy'r nos ac am ychydig fe gafodd help gan Paul y 'Junior D.J.'!!

Diolch Daily Post.

Sophie Gordon, 7S

Grŵp Step by Step yn canu'n fyw a lluchiwyd llawer o wobrau i'r gynulleidfa. Roedd Carys o 'Rownd a Rownd' yno yn rhoi llofnodion i ni.

Roedd yn werth mynd i'r Octagon ac rydw i'n un o'r rhai lwcus sy'n mynd i Fflorida!

Rhys Williams, 7S

Roedd y parti yn yr Octagon yn wych ac roedd wedi ei noddi gan y Daily Post. Fy hoff beth yno oedd y grŵp Step by Step ac wrth gwrs, digon o fwyd a diod!

Parti anhygoel!!

Leigh Wiliams, 7S

Y tro cyntaf i mi fynd i'r 'Octagon'. Roeddwn yn meddwl ei fod yn lle mawr iawn. Roedd y grŵp, Daily Post wedi gwneud trefniant da iawn ynglŷn â'r parti.

Roedd y cyflwynwyr yn gwneud gwaith da ac roedd cerddoriaeth da yno hefyd. Roedd grŵp yno yn canu caneuon 'Steps'. Cefais hwyl yno ac rwy'n gobeithio yr enillwn eto yn 2001!

Heather Mowll, 7*

Roedd yn noson anhygoel o dda, roedd y gerddoriaeth yn grêt ac yn llawn bywyd. Roeddwn wedi mwynhau y grŵp yn dawnsio a chanu fel 'Steps' yn fawr, roeddynt yn wych! Roedd llawer iawn o addurniadau o gwmpas y lle ym mhobman ac yn brydferth a llawer o falwniau o gwmpas. Roedd pobl wedi mynd i lawer o drafferth i wneud y bwyd ac roedd yn neis hefyd.

Nia Glyn, 7S

Octagon 2000

Wel, pwy sa'n meddwl? Ar ôl holl ymdrechion y disgyblion eto 'leni i hel yr holl docynnau, unwaith eto mae Brynrefail yn cael pacio'u bagia' ac ymuno â Mickey, Minney a'u holl ffrindiau a mynd, unwaith eto, i Florida. Bydd y tri deg lwcus yn mynd draw fis Chwefror a phawb arall yn cael parti mwyaf y mileniwm yma!

Y dyddiad oedd 6.12.99 ac am hanner awr wedi chwech pentyrodd disgyblion Brynrefail i glwb nos Yr Octagon ym Mangor. Rhaid cyfaddef dyma'r tro cyntaf i mi fod mewn parti o'r fath. Roedd yr holl olygfa yn rhyfeddol. Goleuadau yn fflachio, cerddoriaeth uchel a phlant yn dawnsio. Roedd y lle yn wych.

Erbyn tua 9 roedd pawb yn mwynhau ac Elfyn Roberts a Mrs Williams, y Dirprwy yn dangos eu doniau wrth ddawnsio trwy'r nos.

Hon oedd ei gwobr am weithio mor galed a hoffwn ddiolch i staff y Daily Post a'r Octagon.

Gruffudd Pritchard, 70

NEWYDDION O Y

Ymweliad D

Dydd Gwener, 19 Tachwedd daeth gŵr adnabyddus iawn i'n hysgol. Fel rhan o gynllun UNICEF i ddathlu deg-mlwyddiant Siarter Hawliau Plant y Cenhedloedd Unedig o'r enw 'Rhowch ef i'ch A.S.' trefnwyd cymorthfa cwestiwn ac ateb yng nghwmni'n Haelod Seneddol ac Aelod Cynulliad lleol, Dafydd Wigley.

Gofynnwyd amrywiaeth eang iawn o gwestiynau yn ystod y sesiwn, o'r helynt ynglŷn â chig eidion, ffioedd coleg a thrafnidiaeth gyhoeddus, i hela llwynogod a'r ddarpariaeth leol gogyfer ag ambell i chwaraeon arbennig. Yn ogystal â hynny, cafwyd trafodaeth anffurfiol wedi'r sesiwn ynghylch y

Mwynhau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT
AA Specialist
RAC Selected

GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

LAVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll oddi wrth **Tim, Jackie a phawb yng**

NGORSAF BETROL

Esso **BERAN**

DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

TICEDI LOTERI AR WERTH

ATODIAD EISTEDDFODAU 1999

'Trychineb' gan Erin Eifion

Prif Lenor yr Ifanc



Anamal iawn y byddai Rhys yn ymweld â'r fynwent ond teimlai ei bod yn ddyletswydd arno fynd heddiw, gan ei bod yn flwyddyn gyfa' ers y ddamwain. Damwain a chwalodd hapusrwydd teulu a chymuned. Pob cam a gymerai, roedd yr atgofion yn llifo'n ôl fel ffilm yn rhedeg o'i flaen. Atgofion pleserus am ei ffrind direidus. Teimlai ofn wrth gerdded, ofn gweld y beddi am y tro cyntaf ers blwyddyn, ofn be wnai wrth weld yr enwau'n syllu arno, ofn beth fuasai ymateb ei ffrind o'i weld yn crio o flaen ei garreg fedd. Dim byd arall ond ofn. Credai unwaith bod 'Dolig yn amser i fwynhau, ond na, newidiodd un gêm rygbi normalrwydd 'Dolig i deulu'r Hardings.

Rhagfyr 20fed, 1997

Chwiban. Rhedodd y chwaraewyr allan o'r cytiau newid. Machynlleth mewn coch a Phanteg mewn du. Edrychent fel Cymru yn erbyn Seland Newydd ar Barc yr Arfau gynt. Capteiniaid yn ysgwyd llaw a chwiban yn dechrau'r gêm. Rhedeg nôl a blaen, taclo, pasio'r bêl, y dyrfa'n cefnogi eu tîm a'r rheolwyr yn rhegi'n ddi-baid wrth weld eu tîm yn gwneud yn wael bob hyn a hyn. Chwiban, cic gosb i Panteg, mae'n glir, felly 3 pwynt. Amser, 35 munud. Sgrym. 1, 2, 3 ... Chwiban? Distawrwydd, dim symudiad.

'Huw! 'Di o ddim yn gallu symud. Galwch am ambiwlans!'

Gorweddai'r bachwr ar lawr a'r tîm meddygol yn ceisio'i gadw mor gyfforddus ag y gallent, cwynai am yr un broblem a Gwyn Jones, capten Cymru, a ddigwyddodd gael anaf i'w gefn bythefnos ynghynt. Toc, cyrhaeddodd yr ambiwlans a'r heddlu. Jociai Huw lawer tro y dylai trefn llythrennau ei enw newid o RHH i HRH er mwyn cael y teitl 'His Royal Highness'. Y rheswm, breuddwydiai am gael ei hebrwng i lefydd gan yr heddlu. Heddiw daeth y freuddwyd yn wir, ond yn lle cael ei gludo mewn limosîn crand fe aeth mewn ambiwlans i Ysbyty Brenhinol Gwent am driniaeth frys.

Gartref, roedd ei rieni yn paratoi am ddathliad pen-blwydd eu priodas ond pan glywyd y newyddion canslwyd y parti cr mwyn bod yn yr ysbyty gydag ef. Roedd ei ewythr a'i genfdryd wedi bod yno eisoes ac wedi rhannu'r wybodaeth â gweddill y teulu. Roedd Huw wedi torri ei gefn. Ni allai gerdded byth eto.

Rhagfyr 22ain, 1997

Diwrnod cyffredin i Alfie. Codi wyth o'r gloch i dderbyn cymysgedd o ddŵr poeth, OXO a bara fel brecwast. Ei wraig, Nora, wrth y bwrdd wrthi'n dadrwymo'r cortyn o gwmpas y cig erbyn amser cinio. Distawrwydd anghynnes yn y gegin yn cael ei darfu gan dician y cloc. Cododd. Estynnodd y baco o'r drôr a'i roi yn ei boced. Aeth at y drws. Edrychodd ar y ffôn fel petai'n ysu iddo ganu. Agorodd y drws mewn tawelwch a cherddodd allan gan roi ei wellington am ei draed. Roedd yn barod am ddiwrnod caled o waith.

Ar ôl te daeth cnoc ar y drws, y gweinidog wedi dod i siarad â Nora ac Alfie, ond roedd Alfie newydd fynd i fwydo'r gwartheg. Eisteddodd i lawr am baned o de cyflym efo Nora cyn mynd i'r sied i weld Alfie. Dyna lle'r oedd y dyn pedwar ugain oed yn fforchio gwair i'r gwartheg, y chwys yn diferu o'i dalcen fel diferion o dap dŵr, gwenodd ond nid gwên hapus chwaith. Yna'n sydyn disgynnodd. Distawrwydd. Dim symudiad. Rhedodd y gweinidog i nôl Nora, a oedd yn siarad â'i merch yng nghyfraith, Eryl.

'Mae Alfie 'di disgyn! Nid yw'n anadlu.'

Pan gyrhaeddodd yr ambiwlans y tŷ roedd Eryl yn ceisio rhoi cusan bywyd iddo ond ni ymatebodd i'r ceisiadau. Bu farw Alfie wrth weithio ar ei fferm ar ôl cael trawiad ar y galon. Bu farw yn y man lle'r oedd hapusaf, gartref efo'i anifeiliaid.

Rhagfyr 26ain, 1997

Wedi derbyn galwad ffôn hanner awr wedi dau yn y bore. Torrwyd y newyddion drwg i'r teulu a ffrindiau agos. Roedd Huw wedi marw ar ôl derbyn triniaeth frys arall neithiwr oherwydd roedd yn gwaedu'n fewnol. Bachgen pedwar ar bymtheg wedi marw. Gwastraff llwyr.

Am ddau yn y prynhawn, angladd Alfie yng nghapel Creigfryn, Carno. Pan gyrhaeddodd y teulu edrychai'r bobl y tu allan arnynt mewn cydymdeimlad. Dagrau'n llifo o lygaid hen ac ifanc. Y gweinidog yn aflwyddiannus wrth geisio creu darlun byw o'r corff marw a orweddai mewn arch bren yng nghornel y capel. Yn dilyn y gwasanaeth, gosodwyd Alfie i orwedd yn y fynwent. Wrth i'r gynulleidfa ganu emyn, aeth y tair aelod ieuengaf o'r teulu at yr arch a gosod tri rhosyn coch arno. Eu ffordd eu hunain o ffarwelio â'u taid.

'Ta-ta, Taid,' meddai'r ieuengaf o'r tair, a gyda hyn taenwyd haen o bridd ar yr arch. Haen, a seliwyd yr hunllef, bod John Alfred Harding wedi mynd.

Ionawr 3ydd, 1998

Angladd arall yng nghapel Creigfryn, Carno ond y tro yma bachgen ifanc yn ein gadael. Tu allan roedd haid o bobl, aelodau gwahanol o glwb rygbi Machynlleth a Phanteg, hefyd criw o aelodau o'r clwb ffermwyr ifanc. Pob un a rhyw berthynas â Huw. Dagrau'n llifo'n ddi-baid o lygaid y teulu. Gwasanaeth dwyieithog, hir ... diflas ... trist. Yr heddlu yn stopio'r traffig er mwyn gwneud lle i'r hers. Beth fyddai ymateb Huw i'r holl ffys? Buasai wrth ei fodd, mae'n siŵr. Rhywbeth na ddown i wybod. Y fynwent yn ddistaw, pawb yn gobeithio deffro o'r hunllef. Y teulu'n ffarwelio â Huw yng nghyfeiliant y gynulleidfa yn canu'r emyn olaf. Gosodwyd Robert Huw Harding i orwedd wrth ymyl ei daid, er na wyddai yntau ddim am ei farwolaeth.

* * *

Edrychodd Rhys ar yr enwau fel petaent yn gafael yn ei lygaid â'u holl nerth. Estynodd ddau flodyn gwyn o'i boced yn araf a rhoi un ar fedd Huw a'r llall ar fedd Alfie. Diflannodd ei ofn. Teimlai'n falch ei fod wedi gwneud yr ymdrech i weld ei ffrindiau. Cododd a dechreuodd ganu. Canu'r gân a ganwyd yn angladd Huw, cân sy'n cael ei chysylltu fel un o anthemau'r maes rygbi. Calon Lân.

Nid yw'n gofyn bywyd moethus,
Aur y byd na'i berlau mân'
Gofyn 'rwyf am galon hapus
Calon onest, calon lân.
Calon lân sy'n llawn daioni
Tecach yw na'r lili dlos,
Dim ond calon lân all ganu
Canu'r dydd a chanu'r nos.

Eisteddfod Penisarwaun

Plant Uned Feithrin a chyn oed ysgol. Adrodd: 1. Sophie Hughes; Canu: 1. Sophie Hughes, 2. Claire Donelly, 3. Harri Kyle; Gwaith Llaw: 1. Sophie Hughes, 2. Claire Donelly; Arlunio: 1. Harri Kyle, 2. Sophie Hughes, 3. Claire Donelly, Nathan Hughes, Mollie Thomas;

Bl.0. Adrodd: 1. Catrin Williams, 2. Glesni Jones; Canu: 1. Glesni Jones, 2. Catrin Williams; Gwaith Llaw: 1. Catrin Williams, 2. Sion Evans; Arlunio: 1. Sion Evans, 2. Liam Morgan, 3. Katie Lewis; Rhyddiaith: 1. Elliw Griffiths, 2. Liam Morgan, 3. Katie Lewis;

Bl. 1&2. Adrodd: 1. Guto Wyn Huges, 2. Sion Dafydd Phillips, 3. Anna George, Kieran Hughes; Canu: 1. Sion Dafydd Phillips, 2. Anest Bryn Jones, 3. Taliesyn Roberts; Rhyddiaith: 1. Anna George, 2. Megan Lois Jones, 3. Megan Glyn Oliver; Arlunio: 1. Dewi Griffith, 2. Megan Lois Jones, 3. Megan Elizabeth Jones; Gwaith Llaw: 1. Sion Dafydd Phillips, 2. Megan Lois Jones, 3. Mewgan Glyn Oliver, Kieran Hughes;

Coginio Bl.2 a iau: 1. Rebecca Evans, Catrin Williams, 2. Sion Evans, Anna George, 3. Taliesyn Roberts, Anest Jones; Parti Canu Bl.0. 1. a 2.: 1. Parti Tecwyn;

Bl. 3&4. Adrodd: 1. Iolo Wyn Hughes, 2. Awen Jones, 3. Caryl Jones, Rhian George; Canu: 1. Caryl Jones, 2. Bethan Williams, 3. Awen Jones; Rhyddiaith: 1. Iolo Wyn Hughes, 2. Awen Jones, 3. Rhys Griffiths; Arlunio: 1. Rhys Griffiths, 2. Bethan Williams, 3. Andrew Woodcock; Gwaith Llaw: 1. Gethin Phillips, 2. Awen Jones, 3. Andrew Woodcock;

PArti Canu oedran cynradd: 1. Parti Bethan.

Bl. 5&6. Adrodd: 1. Luke Hughes, 2. Anest Eifion, 3. Jenny Hamer; Canu: 1. Bedwyr Gwyn Parri, 2. Sioned Williams, 3. Anest Eifion; Rhyddiaith: 1. Sioned Alaw Wiliams, 2. Lois Eifion Jones, 3. Bedwyr Gwyn Parri; Arlunio: 1. Mathew Powell, 2. Sophie Smith, 3. Sioned Alaw Williams; Gwaith Llaw: 1. Lois Eifion Jones, 2. Jenny Hamer, 3. Sioned Williams, Sophie Smith.

Oedran cynradd. Coginio: 1. Sioned Williams, 2. Chris Hamer, 3. Bethan Williams; Ffotograffiaeth: 1. Luke Hughes, 2. Llŷr Hughes, 3. Jenny Hamer; Unawd piano: 1. Lois Jones, 2. Caryl Jones, 3. Llŷr Hughes; Meim i record Gymraeg: 1. Sobin a'r Smaeliaid, 2. Triawd y Coleg, 3. Eden (unigol); Cân werin: 1. Lois Eifion Jones.

Tarian yr Eisteddfod: Sioned Alaw Williams. Canu Bl. 7. 8. a 9: 1. Heledd Bryn Parri, 2. Stephanie, 3. Cennin Eifion.

Uwchradd. Unawd Piano: 1. Heledd Bryn Parri, 2. Erin Eifion, 3. Mathew Phillips; Parti Deulais dan 18: 1. Parti'r Pentref; Cân sgafn: 1. Cennin Eifion, 2. Bedwyr Gwyn Parri, 3. Anest Eifion; Rhyddiaith Bl. 10-13: 1. Erin Eifion; Unawd unrhyw offeryn heblaw piano: 1. Ynyr Gwyn Parri, 2. Heledd Bryn Parri; Deuawd Agored: 1. Erin Eifion a Cennin Eifion.

Cwpan yr Eisteddfod i'r Prif Lenor: Erin Eifion.

Meim i Record Gymraeg (Bl. 7 ymlaen): Mega; Unrhyw ddawns unigol: 1. Anest Eifion, 2. Anest Bryn;

Oedolion: Parti Adrodd: 1. Parti'r Pwyllgor; Gwaith Llaw: 1. Morfudd Edwards, 2. Phyllis Ellis, 3. Mair Edwards; Coginio: 1. Marina Jones, 2. Janice Jones, 3. Judith Harding; Adrodd (18 - pensiynwyr): 1. Mair Edwards; Unawd (pensiynwyr): 1. Dilys Mai Hughes; Cyflwyniad Dramatig: 1. Syrgeri Hanci-Panci; Grŵp Cân Ysgafn: 1. Parti'r Pwyllgor; Parti Canu: 1. Merched Llywarch, 2. Hogia Viagra.

Gorffen Limrig: 1, 2 a 3. John Eifion a Dafydd Williams; Brawddeg o'r geiriau MOEL EILIO: 1. Eifion, 12 Llys y Gwynt, 2. Dilys Mai Roberts, 3. Eifion, Llys y Gwynt.

Hunangofiant Carreg Aelwyd

Stori Fuddugol Sioned Alaw Williams yn Eisteddfod Penisarwaun

Glywsoch chi erioed am garreg yr aelwyd yn siarad? Wel, dyma chi un. Rydw i'n dod o chwarel Dinorwig Llanberis, fe gefais fy ffrwydro o'r garreg yn y mynydd.

Y peth cyntaf rwy'n gofio yw cael fy llusgo i'r caban hollti. Yno bu chwarelwyr yn fy mharatoi i fod yn garreg yr aelwyd mewn tŷ.

Cyn bo hir fe ddaeth adeiladwr i fy nôl a fy nghario mewn berfa a fy ngosod mewn rhywbeth gwlyb. Mewn oriau wedyn roedd rhywbeth wedi caledu dan fy nhraed, ac fe glywais rai yn dweud mai sment oedd.

Mewn dyddiau wedyn daeth gŵr a gwraig ifanc oedd newydd briodi i'r tŷ. Y peth cyntaf wnaeth y wraig oedd fy nglanhau nes fy mod yn disgleirio fel yr haul. Gosododd dusw o flodau hardd gydag arogl hyfryd arnynt arnaf.

Dros y misoedd wedyn bu rhaid i mi fod yn gadair ac yn fwrdd gan fod perchenogion y tŷ yn byw yn yr ystafell yr oeddwn yn byw ynddi.

Mewn amser daeth sŵn plant bach a braf iawn oedd cael eu cwmni, wedi dweud hynny roedd sŵn y crio a'r sgrechian ar adegau yn fyddarol a hiraethu yr oeddwn am fynd yn ôl i dawelwch y chwarel. Bu'r plant yn gadael diodydd ar fy mhen. Un diwrnod fe adawodd un o'r plant damaid o siocled arnaf ond yn anffodus o achos gwres y tân fe doddodd y siocled yn un pwll ar fy mhen. Rhaid dweud ei fod yn flasus!

Roedd llawer o hwyl yn y tŷ ond un diwrnod daeth tawelwch a thristwch mawr. Roedd gŵr y tŷ wedi cael ei alw i'r rhyfel.

Tra oedd y gŵr yn y rhyfel fe aeth un babi bach yn wael ac fe fu farw. Roedd y wraig yn cael ffrindiau a theulu yn dod i gydymdeimlo gyda hi. Ar adegau roedd pobol a phlant yn eistedd ar fy mhen oherwydd doedd dim digon o gadeiriau yn y tŷ.

Roedd y wraig yn poeni nawr oherwydd roedd angladd ei mab, ac reodd ffrindiau a'r teulu yn dal i ddod i gydymdeimlo â hi.

Fe aeth misoedd heibio ac un diwrnod dyma ei gŵr yn cyrraedd adref yn hollol iach ac roedd ei gwyneb yn wyn fel eira o fraw oherwydd doedd hi ddim wedi cael dim rhybudd bod ei gŵr yn dod yn ôl.

Roedd y teulu yn cael eu Nadolig cyntaf yn y tŷ gyda'i gilydd ac roeddwn yn mwynhau gweld y cyfrif o deganau yn mynd yn fwy bob blwyddyn.

Pan ddaeth pen-blwydd yr efeilliaid fe gafodd nhw ddoli glwt a llyfr lliwio yr un.

Pob hyn a hyn roedd y wraig mor brysur â gwenyn, yn golchi dillad a glanhau'r tŷ ac yn fy

Sioned Alaw, Prif Lenor Adran Cynradd, Eisteddfod Bentref Penisarwaun.

sgwrio i gyda cadach budur a blac led'.

Pob noson roedd y tad yn eistedd yn ei gadair siglo ac yn dechrau pendwmpian, roedd wedi cael diwrnod caled o waith.

Roedd y plant yn gadael eu teganau o fy mlaen ac ar fy mhen, ac hefyd roeddent yn darllen eu Beibl o fy amgylch. Fe aeth blwyddyn arall heibio ac unwaith eto roedd hi'r diwrnod cyn Nadolig. Roedd y goeden Nadolig yn mynd i fyny, ac roedd arogl hyfryd yn dod oddi wrthi. Roedd hi'n Noswyl Nadolig ac roedd yr efeilliaid yn crogi eu hosanau uwch fy mhen erbyn i Siôn Corn ddod, yn y nos.

Ar ôl i pawb fynd i fyny'r allt bren roedd cwmni'r goleuadau ac arogl y goeden yn gwmni i mi wrth aros am i Siôn Corn gyrraedd.

Fe godais gyda'r wawr a dyma lle roedd anrhegion i'r efeilliaid. Roeddwn yn edrych ymlaen i weld yr anrhegion. Mewn munudau wedyn dyma'r efeilliaid yn rhuthro lawr y grisiau a braf iawn oedd clywed eu sŵn.

Aeth blynyddoedd heibio a thyfodd yr efeilliaid yn bobol ifanc. O amser i amser byddai ffrindiau yn dod adref gyda'r efeilliaid a rwyf wedi clywed a gweld llawer o bethau dros y blynyddoedd. Rwy'n cofio un diwrnod pan ddaeth un ferch i lawr y grisiau yn gwisgo ffrog laes wen brydferth. Roedd hi am briodi. Ar ôl y seremoni roedd pawb wedi dod draw am barti a rwy'n cofio'r diwrnod, y sŵn, yr hwyl a'r tristwch wrth weld un o'r ffrindiau yn gadael y tŷ. Yn awr doedd yna ddim sŵn plant bach yn crio, dim teganau o fy amgylch a neb yn darllen eu Beibl. Fe aeth y ferch i fyw yn bell o'i chartref a roedd pawb yn ei cholli.

Rwyf yn cofio un noson pan gafwyd storm arswydus ac roedd pawb yn y tŷ ofn y mellt a tharannau. Roedd y teulu wedi closio at ei gilydd a neb yn gwneud smic o sŵn. Rwyf yn cofio meddwl pa mor lwcys yr oeddwn yn cael cysgodi rhag y gwynt a'r glaw. Balch yr oeddwn o fod wedi cael fy nefnyddio i fod yn garreg aelwyd yn y tŷ hwn yn lle bod allan gyda fy nheulu fy hun ar adegau fel hyn.

Daeth yn amser pen-blwydd tad y tŷ a gan fod un chwaer wedi priodi dim ond y fam a'r chwaer arall oedd ar ôl i ddathlu. Roedd y gacen yn edrych yn flasus iawn a dim ond edrych arni y gallwn. Cofiwn am yr amser pan oedd dathlu mawr ar adeg pen-blwydd ond erbyn hyn doedd 'na ddim canwyllau i chwythu allan, dim ond pawb yn cael tamaid o gacen ac yn yfed te.

Fel aeth amser heibio fe aeth y tad yn wael ac yn wan a chyn bo hir mi fu farw. Roedd y teulu yn amlwg yn drist iawn a'r unig gysur allwn i gynnig oedd ei gadael i gynnau tân y tu cefn i mi. Cyrhaeddodd y ferch oedd wedi priodi adref i weld ei theulu ac roeddwn i wedi sylwi pa mor sâl oedd ei Mam yn edrych. Roedd hi'n amlwg fod iechyd y fam yn mynd yn waeth achos nid oeddwn i na'r tŷ yn cael ei lanhau mor amal ac yn yr hen amser. Wedi dweud hynny roeddwn i yn mynd yn hen ac efallai mai arna i oedd y golwg ac nid ar y tŷ.

Daeth un peth hapus yn amlwg tra roedd y ferch a'i gŵr adref. Dywedodd ei bod yn disgwyl babi ac roedd hyn yn newyddion da i'r fam a minnau. Yr oedd yn dweud y buasai sŵn plant yn ôl yn y tŷ eto cyn bo hir ac roeddwn wrth fy modd. Yr oedd hyn yn golygu y byddai sŵn teganau eto o fy nghwmpas ac yn golygu y buasai llanast, y crio a'r hwyl yn ôl yn y tŷ.

Buan iawn daeth y dathlu i ben achos yn ôl i'w chartref ei hunain aeth y cwpwl ifanc a gadael imi fod yn hiraethu am beth fuasai wedi gallu bod.

Peth rhyfedd ydi cael bod yn meddwl am bethau, gweld pethau, arogli pethau a bod yn rhan o deulu ond hefyd yn cael bod ar ben fy hun yn ganol pob dim sydd yn mynd ymlaen.

Pam na allwn i a llawer o fy nheulu i siarad?

Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi

Dydd Sadwrn, 30 Hydref 1999

Beirniaid
Cerdd a Cherdd Dant: Mrs Bethan Bryn, Aberystwyth; Adrodd a Llên: Mrs Nesta Wyn Jones, Abergeirw; Gwau, Gwnïo a Choginio: Pat Jones, Penisarwaun; Arlunio, Gwaith Llaw a Ffotograffiaeth: Gwilym Williams, Deiniolen.

Adrodd. Ysgol Feithrin Bore. 1. Tomos, 2. Rhys Ellis, 3. Rhys Llywelyn; Pnawn. 1. Jack, 2. Cai, 3. Heddwen, Kelsie, Natasha. Bl.0. 1. Dwynwen, 2. Lowri, 3. Dylan, Lois. Bl.1a2. 1. Gwenno, 2. Daniel Ellis, 3. Ceirion. Bl.3a4. 1. Bronwen, 2. Nia a Caryl. Bl.5a6. 1. Kayleigh. Parti dan 12. Ysgol Gwaun Gynfi. Dan 16. 1. Manon, 2. Medi, 3. Esyllt. 16-21. 1. Michelle, 2. Darryl. Darllen o'r Ysgrythur i ddysgwyr (Agored) 1. Stephanie, 2. Miss Moller. Prif Adroddiad (Agored) 1. Meira, 2. Michelle.

Llên. Ysgol Feithrin. 1. Hayley, Angharad, 2. Huw, Jack, 3. Gerwyn, William, Heddwen, Kevin. Blwyddyn 0. 1. Joseff Williams, 2. Lois Mared Jones, Elen Morris, Ceri Ann Williams, Elin Angharad, 3. Tomos Williams, Tudur Wiliams. Bl.1. 1. Owain Glyn, Jason, 2. David, Mandy, 3. Ffion, Gruffydd, Anthea, Christopher. Bl.2. 1. Iwan Price, 2. Kimberley Owen, 3. Cadi Haf Murphy, Haf Bryn Jones. Bl.3. 1. Aaron, Liam, 2. Stephanie, Gwydion, 3. Ben. Bl.4. 1. Aimee Wood, 2. Sioned Williams, 3. Bronwen Phillipson. Bl.5. 1. Gwenllian Owen, 2. Naomi Edge, 3. Gethin Jones. Bl.6. 1. Kayleigh Jones, 2. Ffion Owen, 3. Dionne Davies. Rhyddiaith dan 16. 1. Eluned Hedd Parri, 2. Mari Glynne Davies, 3. Osian Hughes Jones, Keith Roberts, Cai Heath. Medal Lenyddol dan 21. Eleri Wyn Hughes, Carmel. Stori Fer (Agored) Mrs Delian Haf Williams, Porthaethwy. Englyn (Agored) Mr D. O. Jones, Padog, Betws-y-coed. Parodi (Agored) Mrs Valmai Williams, Aberdesach. Telyneg (Agored) Mrs Valmai Williams, Aberdesach. Limrig (Agored) Mr John B Jones, Deiniolen. Linell Goll (Agored) Mr Lewis Jones, Yr Wyddgrug, Mrs Valmai Williams, Aberdesach. Agored. Mrs Bethan Jones, Blaenau Ffestiniog. Cyfansoddi Emyn (Agored) Mr J Lewis Jones, Yr Wyddgrug. Creu Brawddeg (Agored) Mrs J Eirlys Williams, Deiniolen.

Cystadleuaeth y Gadair (Agored) Mrs Helen Hughes, Carmel.

Kimberley Owen, buddugol ar yr unawd Blwyddyn 1 a 2, Ysgol Gwaun Gynfi

Cerdd Ysgol Feithrin Bore. 1. Catrin, 2. Tomos, 3. Rhys Ellis, Rhys Llywelyn, Iola, Lee, Daniel. Pnawn. 1. William, 2. Jack, 3. Cai, Kelsie, Heddwen. Bl.0 1. Lowri, 2. Dwynwen, 3. Elin. Bl. 1a2. 1. Kimberley, 2. Daniel Ellis, 3. Gwenno. Bl.3a4. 1. Ffion, 2. Ashley, 3. Sioned. Bl.5a6. 1. Manon, 2. Aimee, 3. Emma, Gwenllian. Unawd Offerynnol dan 12. 1. Ynyr, 2. Rhian, 3. Nidian Caffo. Canu Emyn dan 12. 1. Manon, 2. Emma, 3. Stephanie. Grŵp Offerynnol. 1. Grŵp Prês, 2. Grŵp Recorders. Unawd piano dan 12. 1. Emma, 2. Bronwen. Parti Canu dan 12. 1. Parti Elfed, 2. Parti Daniel. Unawd dan 16. 1. Elin, 2. Esyllt, Manon, 3. Medi, Malan. Unawd Offerynnol dan 16. 1. Urien Sion, 2. Manon, 3. Medi. Deuawd dan 16. 1. Manon a Medi, 2. Elin ac Iddon. Unawd Cerdd Dant dan 21. 1. Elfed, 2. Medi, 3. Esyllt. Cân Werin dan 25. 1. Esyllt, 2. Darryl, 3. Medi, Malan. Unawd Piano dan 21. 1. Darryl, 2. Malan, 3. Michelle. Unawd 16-21. 1. Darryl, 2. Elfed. Cystadleuaeth Unawdydd Ifanc 2000. Esyllt Tudur Davies. Canu Emyn dros 60. 1. Katie Wyn, 2. Tecwyn, 3. Glenys. Unawd Offerynnol (Agored). 1. Jennie Lyn, 2. Urien Siôn. Cân Werin (Agored) 1. Alun, 2. Wmffra. Her Unawd (Agored) 1. Clarence, 2. Wmffra, 3. Alun. Cyfansoddi Tôn. Valmai Williams, Aberdesach.

Celf a Chrefft ac Arlunio Ysgol Feithrin Bore. 1. Iola, 2. Rhys Llywelyn, 3. Daniel. Pnawn. 1. Gerwyn, 2. Angharad, 3. Jack. Bl.0. 1. Ceri, 2. Dwynwen, 3. Elin. Bl.1. 1. Daniel, 2. Mandy, 3. Ceirion. Bl.2. 1. Daniel

Eisteddfod Gwaun Gynfi (parhad)

Wood, 2. Kelly, 3. Kimberley. Bl.3. 1. Peri, 2. Steven Lee, 3. Samantha. Bl.4. 1. Sioned, 2. Allan, 3. Aimee. Bl.5. 1. Stan!, 2. Bryn, 3. Jonathan. Bl.6. 1. Kayleigh, 2. Summer!, 3. Bart!

Gwaith Llaw Ysgol Feithrin Bore 1. Cicely, 2. Catrin, 3. Rhys Ellis. Pnawn. 1 Natasha, 2. Kelsie, 3. Gerwyn. Bl.0.1a2. 1. Gwion, 2. Osian, 3. Owain.

Gwau Ysgol Gwaun Gynfi. 1. Kayleigh, 2. Sophia, 3. Laura, Emma, Peri, Bronwen, Caryl, Ceinwen, Stephanie. Ysgol Gwaun Gynfi. 1. Cadi Haf. Agored. 1. Valmai, 2. Edna.

Gwnio Ysgol Gwaun Gynfi. 1. Kayleigh, 2. Sioned, 3. Sophia, Bronwen, Rebecca.

Brodwaith a Tapestri. 1. Sharon James, 2. Gwenlli Jones, 3. Edwina Thomas.

Coginio Ysgol Gwaun Gynfi Bl.0.1a2. 1. Daniel Ellis, 2. Cadi, Sophie, 3. Owain, Elin. Bl.3.4.5a6. 1. Liam, 2. Louise, 3. Gwenllian. Ysgol Uwchradd 1. Jenie Lyn, 2. Trystan, Urien Sion, 3. Alaw Mari. Agored. 1. Gwen Griffiths, 2. Margaret Williams, Valmai Williams, 3. Eirlys Williams. Agored. 1. Gwynfor James, 2. Menna Wyn, 3. Valmai Williams, Gwen Griffiths. Dynion yn unig. 1. Hefin, 2. Ellis Wyn, 3. Ieuan, Gwynfor.

Gwaith Coed 1. Jenny Evans.

Ffotograffiaeth Ysgol Gwaun Gynfi. 1. Liam, 2. Daniel, 3. Nia. Ysgol Uwchradd. 1. Jenie Lyn, 2. Trystan Ellis. Agored. 1. Gwenlli Jones, 2. Gwen Griffiths.

Tlws Teulu Ceris: Bronwen; **Tlws Crud-yr-awel:** Kayleigh; **Tlws Mr a Mrs John Peris Roberts:** Manon.

Cwpan er cof am y diweddar Mr W.J. Eames am yr ymgais orau yn Adran Arlunio Bl6. Ysgol Gwaun Gynfi: Kayleigh; **Cwpan Mr a Mrs Hefin Williams:** Darryl;

Cwpan Bryn Du: Sharon James; **Cwpan Clwb Snwcer Deiniolen:** Jenny Evans.

Eisteddfod Bethel

Cafwyd noson liwgar a bywiog i ddechrau gweithgareddau'r Eisteddfod eleni gyda chystadlaethau dawnsio disgo a dawnsio gwerin. Arweinydd y noson oedd Glenys Griffiths a'r beirniaid oedd Carys Davies, Bethesda (disgo) a Mair Jones, Llansadwrn (gwerin). Dydd Sadwrn, 6 Tachwedd, fe gynhaliwyd yr Eisteddfod. Roedd nifer fawr o blant wedi troi i mewn yn y prynhawn i gystadlu a braf oedd gweld y neuadd yn llawn. Gyda'r nos tro plant hynaf yr ysgol gynradd a'r bobl ifanc oedd cystadlu. Unwaith eto cafwyd cefnogaeth frwd.

Y beirniaid oedd Miss Delyth Rees, Llangefni (Cerdd), Mrs Alma Dauncey Roberts, Dolwyddelan (Llefaru), Esyllt Penri, Caernarfon (Llên), Robin Williams, Llanrug (Celf a Chrefft). Y cyfeilyddion oedd Glenys Griffiths a Deilwen Hughes. Arweinyddion y prynhawn oedd Rita Williams ac Anita Owen ac arweinyddion yr hwyr oedd Iorwerth Williams a Geraint Elis. Bu Ffion Meleri, Gwen, Nia Catrin a Manon yn cynorthwyo ar y llwyfan yn y pnawn.

Yn ystod cyfarfod yr hwyr trefnwyd Gorsedd y Beirdd gan Adran yr Urdd o dan arweiniad Geraint Elis, Glenys Griffiths a Sian Harris. Rhian Williams ganodd Cân y Cadeirio gyda Ffion Meleri Owen yn canu'r Gorn Gwlad.

Disgybl Blwyddyn 6, Ceri Elen Roberts, Gorwel enillodd Tlws Llên yr Ysgol Gynradd a Nora Morfudd Ostler, Gwynant, disgybl Blwyddyn 11 o Ysgol Brynrefail enillodd Dlws Llên yr Ysgol Uwchradd.

Dyma'r canlyniadau:

Dawnsio. Disgo unigol. Bl. 1-6: 1. Ceri, 2. Marged, 3. Ella, 4. Greta. Bl. 7-13: 1. Sara. Dawnsio Pâr. Bl. 1-6: 1. Zoe ac Elliw, 2. Ceri a Kelly, 3. Manon ac Elin. Bl. 7-13: 1. Sara a Gethin. Partïon: Bl. 1-6: 1. Parti Marged, 2. Sêr, 3. Speis and Cerise; Bl. 7-13: 1. Curiad.

Dawnsio Gwerin. Bl. 1-6: 1. Parti Cai, 2. Parti Jamie, 3. Parti Robin. Cyflwynwyd Tlws teulu Cefn Ffrwd a thlws bychan (rhoddedig gan Rhys a Sian Harris) i Ceri Griffiths am y perfformiad unigol gorau.

Cerdd: Ysgol Feithrin: 1. Guto a Gwawr, 2. Iolo a James, 3. Catrin, Ffion, Beth a Sion. Bl. 0: 1. Ilyd, 2. Lowri, 3. Kieran a Ffion. Bl. 1a2: 1. Gethin, 2. Gerallt a Llio, 3. Gruffydd a Gwilym. Bl. 3a4: 1. Cai, 2. Ella, 3. Zoe. Bl. 5a6: 1. Heulwen, 2. Lowri, 3. Elan. Bl. 7-9: 1. Huw, 2. Ffion Thorman, 3. Lois. Bl. 10-13: 1. Rhian. Alaw Werin. Bl. 6 ac iau: 1. Ceri. Bl. 7-13: 1. Huw, 2. Lois. Partïon. Bl.1,2a3: 1. Parti Branwen, 2. Parti Tic Toc. Bl. 4,5a6: 1. Parti Arall, 2. Y Betheliaid. Bl. 7-13: 1. Parti'r Mileniwm.

Unawd Piano. Bl. 1,2 ac iau: 1. Sion Elwyn, 2. Angharad, 3. Ella. Bl. 4,5a6: 1. Heulwen, 2. Ceri, 3. Elliw. Bl. 7-9: 1. Huw, 2. Cadi, 3. Manon. Bl. 10-13: 1. Rhian. Offeryn heblaw piano. Bl. 6 ac iau: 1. Berwyn, 2. Sion a Heulwen, 3. Elan a Dewi. Bl. 7-13. 1. Rhys, 2. Ffion Williams, 3. Ffion Meleri a Gwenan. Grŵp Offerynnol. 1. Rock Maniacs, 2. Y Big Bels. Meimio i record Gymraeg: 1. Mega, 2. Eden.

Tlysau: Cerdd/Lleisiol Cynradd - Cwpan Boss (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan deulu Llwyn Eithin): Heulwen Ostler. Tlws Cerdd/Lleisiol Uwchradd - Cwpan Goffa Mrs Joan Foulkes (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Alun a Sheila Foulkes): Huw Alun Foulkes.

Offerynnol gan gynnwys piano, Cynradd - Tarian Goffa W.G. Ellis (tlws bach i'w gadw yn rhoddedig gan Brian ac Eirlys Sharpe): Heulwen Ostler. Uwchradd - Cwpan Goffa John M. Williams (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Gwilym ac Eirlys Williams): Huw Foulkes.

Llefaru. Ysgol Feithrin: 1. Iolo, 2. Beth a Ffion, 3. Gwawr, Sion, Catrin a James. Bl. 0: 1. Ilyd, 2. Awel a Ffion, 3. Kieran a Lowri; Bl. 1a2: 1. Gwilym, 2. Greta a Dyfan, 3. Gerallt. Bl. 3a4: 1. Ella, 2. Aled a Sion, 3. Ceri. Bl. 5a6: 1. Ceri, 2. Aled, 3. Heulwen. Bl. 7-9: 1. Huw, 2. Manon, 3. Lois. Bl. 10-13. 1. Ffion Meleri. Partïon. Bl. 1,2a3: 1. Sion a Sian, 2. Yr Enfys. Bl. 4,5a6: 1. Parti Aled, 2. Y Jyngl. Bl. 7-13: Parti Ffion. Agored. 1. Y Genod. Ymgom. Bl. 1-6: Parti Heulwen, 2. Parti Nain, 3. Parti Gerallt ac Aled; Bl. 7-13: 1. Parti Ffion, 2. Parti Sŵ Bethel. Siarad Cyhoeddus: 1. Ffion Meleri, 2. Ffion Williams. Sgets agored. Cwmni Pupur a Halen.

Tlysau. Llefaru Cynradd - Cwpan Arian (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Arwel a Iola Jones): Ifan Bryn. Llefaru Uwchradd - Cwpan Konica (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Gareth a Rhian Hughes): Huw Foulkes. Tarian Goffa Sian Robinson (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Menna Dauncey Williams): Ffion Meleri Owen.

Llên. B. 1: 1. Gerallt, 2. Georgia, 3. Aled Einion a Manon Louise. Bl. 2: 1. Catrin Jones, 2. Rebecca Parry, 3. Louis Williams; Bl. 3: 1. Cai Jones, 2. Robin Llwyd Jones, 3. Sion Elwyn. Bl.4: 1. Hannah, 2. Elan Jones, 3. Aled Griffiths a Christy Roberts; Bl. 5: 1. Aled Gwilym, 2. Sion Garth, 3. Dewi Foulkes; Bl. 6: 1. Ceri Roberts, 2. Heulwen Ostler, 3. Berwyn Jones a Lowri Jones. Bl. 7-9: 1. Ffion Williams, 2. Cadi Ostler, 3. Lois Hughes. Bl. 10-13: 1. Nora Ostler, 2. Ffion Meleri, 3. Rhian Williams. Brawddeg or gair 'Brycheiniog': Sian Harris.

Tlysau. Tlws Merched y Wawr, er cof am Miss Maggie Owen a thlws bychan i'w gadw (rhoddedig gan Bwyllgor yr Eisteddfod): Ceri Elan Roberts. Tlws y Gymdeithas Lenyddol a thlws bychan i'w gadw (rhoddedig gan Bwyllgor yr Eisteddfod): Nora Morfudd Ostler.

Celf a Chrefft. Creadigol 2D- Cylch Meithrin: 1. Glesni, 2. Sion Emlyn, 3. Catrin; Ysgol Feithrin: 1. Elliott, 2. Ffion, 3. James. Bl. 0: 1. Lowri, 2. Laura Owen, 3. Ilyd; Bl. 1: 1. Chris, 2. Arron, 3. Aled Wynn; Bl. 2: 1. Catrin Jones, 2. Stephanie, 3. Mared; Bl. 3: 1. Sion Elwyn, 2. Robin Llwyd, 3. Sian Harding; Bl.4: 1. Jessica North, 2. Kirsty Jones, a Marged Rhys, 3 Hannah Jones. Bl. 5: 1. Sion Garth, 2. Einir Magee, 3. Glynne Evans; Bl. 6: 1. Lowri V. Jones, 2. Elan Rhys, 3. Heulwen Ostler; Bl. 10-13: 1. Gwen Rowlands, 2. Gwen, 3. Gwen. Collage: Bl. 0,1a2: 1. Mollie Edwards, 2. Gerallt Bryn, 3. Greta; Bl. 3a4: 1. Ffion Roberts, 2. Marged Rhys, 3. Ella Christie a Hefin Owen; Bl. 5a6: 12. Aled Gwilym, 2. Sasha, 3. Sion Foulkes; Bl. 7-9: 1. Ian Morgan, 2. Ffion Williams, 3. Gwion Owen. Logo. Robin Llwyd. Ffotograffiaeth: Bl. 2 ac iau: 1. Daniel Bell, 2. Louis Williams, 3. James Bell; Bl. 3a4: 1. Iona Speake, 2. Mared Rhys, 3. Zoe Williams. Bl. 5a6: 1. Sion Foulkes, 2. Ceri Roberts, 3. Ifan Bryn; Bl. 7-9: 1. Elen Foulkes, 2. Elen, 3. Ffion Williams. Creadigol 3D: Bl. 2 ac iau: 1. Louis Williams, 2. Gerallt Bryn; Bl. 3a4: 1. Hanna Gwyn, 2. Aled Griffiths, 3. Zoe Williams. Bl. 5a6: 1. Aled Gwilym, 2. Sasha Williams. Gwaith grŵp: Bl. 3-6: 1. Lowri, Ceri, Elan a Heulwen, 2. Christy, Marged, Zoe a Manon, 3. Iola a Carla. Pypedau/Tegan Meddal/Tecstiliau: Bl. 2 ac iau: 1. Gwilym Rhys; Bl. 3a4: 1. Marged Rhys; Bl. 5a6: 1. Elan Rhys, 2 Sasha Williams; Bl. 7-13: 1. Ffion Williams, 2. Ffion Williams, 3. Lois Hughes. Graffeg Cyfrifiadurol: Bl. 1-6: 1. Ceri Roberts, 2. Aled Griffiths, 3. Aled Gwilym a Bethan Gwenno Roberts. Cynllunio gwisg ar gyfer parti y mileniwm: 1. Marged Rhys, 2. Elan Rhys.

Tlysau. Cynradd (rhoddedig gan Dafydd a Margaret Wiiams): Sion Garth Owen.

Uwchradd: (rhoddedig gan Wil a Nora Parry): Elen Foulkes.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i'r plant a'r bobl ifanc am gystadlu ac i'r rhai fu'n eu hyfforddi. Diolch hefyd i'r rhai sydd ddim mor ifanc am ddiweddu'r eisteddfod mor hwyliog. Diolch i'r pentrefwyr am ddod i'w cefnogi. Diolch i Ysgol Brynrefail, Ysgol Gynradd Bethel, y Cylch Meithrin ac Adran yr Urdd am bob cymorth a chydweithrediad. Diolch am bob rhodd ariannol gan aelodau o'r pwyllgor, cyfeillion yr eisteddfod a busnesau lleol ac i'r rhai a drefnodd y raffl ac i bawb a atebodd ein cais am nwyddau at y gwobrau. Diolch i bawb a gyfrannodd i lwyddiant yr Eiteddfod.

Llenorion buddugol Bethel, Ceri Elen Roberts, Cynradd a Nora Ostler, Uwchradd.

Llenor Buddugol Cynradd
Ceri Elen Roberts

Meddylgar fel hen wraig
yn siglo ei hoes i ffwrdd mewn cadair siglo,
Fel iâr fach yr haf yn hedfan o flodyn i flodyn yn fywiog,
Yn ddistaw fel yr awel ysgafn yn chwythu'r coed.

Aderyn wedi ei garcharu mewn cawell,
Llygoden fach yn cuddio'n ofnus yn ei thwll
oddi wrth Hitler, y gath fawr ddu.

Caiff y gwningen ei hela gan lwynog,
Caiff y llwynog ei hela gan arth,
Caiff yr arth ei hela gan helwyr.

Plentyn ar goll yn ei meddwl ei hun,
Llyfr wedi ei gau yn derfynol gan Hitler a'i griw.

Angelica Pickles

Eisteddfod Bethel 1999

Llenor Uwchradd Buddugol
'Mwydyn Porffor' - Nora Ostler

TAID

Teflir lluniau atat ti yn rhes o wynebau dieithr, weithiau'n ddisgleirdeb comedi, weithiau'n ddüwch trasiedi. Mae'r lleisiau'n dy alw, weithiau'n ddigrifwch ysgafn, weithiau'n ddifrifwch trymaidd. Rwyt ti'n gwrando heb glywed, gwylio heb weld. Ni all y lluniau dy ddenu o'th fyfyrdod, ni all y bocs du yn y gornel dy ddenu â'i drysorau. Oherwydd nid oes unrhyw lun ar y sgrîn fach mor lliwgar â dy atgofion di, nid oes comedi mor ddisglair na thrasiedi mor ddu; nid oes digrifwch mor ysgafn na difrifwch mor drwm. Ac felly pan wyt ti'n troedio ar lwybr cofio, gam wrth gam yn camu'n bellach yn ôl mewn amser ni all bysedd hirion, cryfion 'aerial' y teledu hyd yn oed dy dynnu oddi arno.

A phan wyt t'n cymryd tro ar hyd y llwybr hwnnw, ni all rhoddion y teledu fy nenu i chwaith oherwydd rwy'n dy wylio di. Mae 'na olwg pell yn dy lygaid fel petaet ti mewn byd arall ac fe fawrha dy sbectol y pellter gan leihau dy lygaid, y gwydr yn ddim ond llen arall rhwng dy fyd di a 'myd innau. Mae'th goesau'n dy gludo ar hyd y llwybr. Â phob cam rwyt ti'n cyflymu a'th goesau'n cryfhau, rwyt ti'n mynd yn iau ac yn iau. Ac â phob cam rwyt ti'n mynd yn bellach ac ymhellach o 'ngafael i.

Yn llygaid dy feddwl nid wyt ti'n daid i mi bellach, nid wyt ti'n hen ŵr a'th gefn wedi crymu gan ddwylo creulon amser, nid yw'th wallt yn frith na'th gorun yn foel, nid oes cryd yn dy gymalau ac nid wyt ti'n eistedd mewn cadair freichiau esmwyth. Rwyt ti'n fachgen bochgoch yn eistedd mewn drws tafarn, y gwynt oer yn brathu dy groen ifanc, diniwed ac mae'th fol yn llew llwglyd yn rhuo am fwyd wrth iti aros i'th famgu faglu'n faich o feddwdod, drewdod y melys fedd yn drwm ar ei hanadl, o'r dafarn yn tu ôl i ti.

Gwaedda fy galon fychan am rhywun i dy garu, ond does 'na neb. Dy dad yn gelain a thithau wedi gorfod gwylio'r cancr yn ei fwyta, yn ei wanhau gegaid wrth gegaid nes fod ganddo mo'r cryfder i ymladd yn ôl. Dy fam wedi danfon dy chwaer i ffwrdd i weithio ac yna diflannu i chwilio am waith i'w hunan. Gadawyd ti ym mreichiau meddwyn.

Felly, yna'r wyt ti, gyntoedd gaeafol Llundain yn gafael yn wawdlyd amdanat a thithau'n tynnu dy gôt yn dynn amdanat, dy fysedd wedi'u gwasgu'n dynn rhwng dy goesau i'w cynhesu — llewys dy hen gôt dyllog yn rhy fyr i ymestyn dros dy ddwylo. Dy lygaid gleision yn gwibio o gwmpas yn lled-dywyllwch noswaith cynnar y ddinas yn cyfri'r lifrau gwyrdd-frown yn mynd heibio. Milwyr yn mwynhau miri'r Nadolig, merched ifanc ar ei breichiau, eu chwerthin llon yn hwylio tuag atat mewn cân ysgafn heibio dy drwyn; fel y plu eira yr wyt ti'n ceisio'u dal ar dy dafod, yn y gobaith gwan y byddant yn llenwi rhywfaint o'r bwlch anioddefol yn dy fol. Yr oedd gaeaf 1917 yn unig i ti — dy unig gwmni, dy unig gysur oedd breuddwydion bachgen wyth mlwydd oed. Ac er fod y milwyr a gyfraist yn gorfod dychwelyd i'r ffosydd wedi'u gwyliau, fe gawsant fwy o hwyl a sbri na thi ym misoedd oer y flwyddyn honno. Roedd ganddynt hwy'r sicrwydd fod gwlad gyfan eisiau iddynt oroesi — doedd gen ti neb.

Rhai o gystadleuwyr ieuengaf Bethel.

Ffion Owen yn derbyn Tarian Goffa Siân Robinson.

* * *

Ac yna'n sydyn mae'r canolbwynt yn newid mae'r ddau smotyn inc ar bapur rhychiog dy groen yn gorffwys arna i, rwyt ti'n edrych arna i. Ond yn llygaid dy feddwl nid person ydw i, nid dy wyres ydw i bellach, dim ond gwrthrych, dy angor yn ôl i'r presennol, ac yn nrych dy ddychymyg rwyt ti'n fachgen ifanc, deunaw oed yn gorwedd ar wely mewn llety, bu'r gwely'n wely mabwysiedig i ti ers chwe mlynedd. Duw yn unig a ŵyr sawl cefn a fu'n gorwedd arno cyn i ti orffwys dy ddiymgeledd arno'n faich trwm am y tro cyntaf. Sawl gwegil a fu'n gorffwys ar olion difwyn amser yr hen obennydd. Sawl llygad a fu'n cyfri'r gwe pry cop ar y nenfwd, cân tonnau'r Tafwys yn croesawu'r llongau i'r porthladd yn y cefndir.

Wrth i ti orwedd yn ddiymadferth ar y gwely, a sigaret yn hongian yn llipa o ochr dy geg gallai unrhyw un dy gamgymryd am ddiogyn ifanc yn gwylio'r mwg yn cyrlio yn yr awyr, mwynhau munudau diwethaf llencyndod, cyn i ti orfod tyfu'n ddyn, derbyn cyfrifoldebau. Rwyt ti'n edrych fel llipryn diog, gwan, ond o dan dy ddillad mae dy gorff tenau'n gyhyrau cryf, cyhyrau wedi'u magu dros chwe mlynedd o waith caled, chwe mlynedd lle bu'n rhaid i ti dyfu'n ddyn cyn dy amser, cymryd cyfrifoldebau na fyddai eraill dy oed wedi eu dychmygu, bu'n rhaid i ti ennill dy fywoliaeth dy hun a thalu am dy lety dy hun, doedd 'na neb arall i wneud hynny drosot ti. Ac o dan dy grys mae 'na graith yn profi hynny, craith a gefaist ar dy wythnos gyntaf yn gweithio, yn rhwyg rhwng dy asennau a dy fotwm bol fel atgof parhaol i ti orfod gweithio'n ddeuddeg oed, i dy fam dy ddanfon i ffwrdd, dy orfodi i weithio wedi i dy famgu farw. Craith a gefaist wrth gludo'r bocsys trwm, y pren yn frith o ysgyrion, y gornel yn dy grafu mor galed nes rhwygo'r croen tyner, plentynaidd Craith sy'n dy atgoffa i ti orfod byw ar dy ben dy hun, heb gâr yn y byd a thithau'n blentyn o hyd. Gwanwyn creulon oedd gwanwyn dy fywyd di.

* * *

Mae'th lygaid yn dilyn y patrwm yn y carped, mae'r canolbwynt wedi newid eto wrth i gerbyd dy atgofion dy gludo i haf dy fywyd. Ymestynna dy wefusau dros dy ddannedd gosod gwynion i gilwennu. Yn nechrau'r haf cymrodd gefnder dosturi drosot a rhoi gwaith gwell i ti, dy gludo o wanwyn gwael Llundain i haf heulog Caerodor. Ym Mryste cefaist wraig, fy Nain, ei theulu mawr yn llenwi'r bwlch a adawodd dy deulu dy hun, rhoi i ti'r cariad a'r agosatrwydd na gefaist gan dy fam, dy dderbyn fel un ohonynt. Megaist dy deulu dy hun, pob un ohonynt yn dy gludo'n agosach at entrych haf.

Hydref yw hi rŵan. Prysur cau i mewn mae'r gaeaf.

Yn y gwanwyn roeddet ti'n ddeilen unig ond tyfodd eraill erbyn yr haf, yn yr haf roeddet ti yn dy anterth, yn addurn hapus ar goeden bywyd Ond rwan, yn yr hydref mae dy gefn wedi crymu, dy fysedd wedi cyrlio'n barhaol gan gryd yn dy gymalau. Mae dy groen yn frith o grychau — pob crych yn graith o nawdeg mlynedd o addurno derwen bywyd. Rwan, rwyt ti'n hongian yn llipa oddi arno, dy gyhyrau wedi gwanhau, eu cryfder wedi hen hwylio i'w hynt ar adennydd gwyntoedd hydref. Mae'th sbectol yn edrych yn debycach ac yn debycach i dafell o rew dros lyn atogfion dy lygaid, ac wrth i'r gaeaf ddod yn agosach ac yn agosach mae'r rhew yn trwchuso, â phob dydd mae'r trwch yn cynyddu ac â phob dydd rwyt ti a chronfa dy hanes yn mynd yn bellach ac ymhellach o 'ngafael i. Gobeithio y byddi di'n cofio dy hanes nes i wyntoedd dy hydref dy gludo'n dawnsio oddi ar y goeden, mae nhw'n rhan fwy ohonot ti na fydd dy wallt arian a'th gryd cymalau fyth. Heb dy atgofion byddai holl greithiau amser ar dy wyneb yn ofer.

Eisteddfod Bentref Llanrug 1999

Rwy'n Caru Rygbi Cymru

gan Geraint Iwan
y Buddugol yn Nhlws yr Ifanc

'Tyrd yn dy flaen, fe fydd dy dad yma mewn munud,' agorodd Gareth un llygad a chafodd ei ddallu gan yr haul oedd yn dod drwy'r ffenest. Caeodd hi'n syth. Cofiodd yn sydyn bod ei dad yn dod i'w nôl i fynd ag ef i brynu siwt iddo gael ei gwisgo ym mharti dathlu priodas ei nain. Ymestynnodd Gareth ei goesau hir ar draws y gwely. Roedd yn ddeunaw oed mewn pythefnos. Roedd wedi gofyn i'w fam a'i dad am gar ar ei ben-blwydd. Roedd wedi pasio ei dest dri mis yn ôl ac wedi cael leisans bythefnos yn ôl felly roedd yn barod i fynd. Roedd wedi gofyn am Vauxhall Nova SR. Canodd y gloch.

'Yli, mae dy dad yma, ti'n gwybod nad ydi o yn hoffi disgwyl am neb.' Agorodd y drws, ond dim corff mawr nobl tad Gareth oedd yn sefyll yno ond corff bychan tila ffrind gorau Gareth, Iestyn.

'Helo, Mrs Huws. Ydi Gareth yna?'

'Ydi, tyrd i mewn, mae o fyny'r grisiau.' Ruthrodd Iestyn i fyny ac yn syth i lofft ei ffrind.

'Gar, Gar, edrych, edrych beth sydd gen i.' Agorodd Gareth ei lygaid a reit o flaen ei drwyn gwelodd ddau diced gêm rygbi Cymru yn erbyn Lloegr, gemau y pum gwlad.

'Lle uffar gest ti rheina?'

'Gan ffrind dad, doedd o ddim yn medru mynd felly ti a fi wedi eu cael nhw, grêt te.'

'Grêt, Grêt? Mae hynna'n blydi ffantastig.' Neidiodd Gareth o'i wely a dechreuodd wisgo. Yna rhedodd lawr grisiau a dweud wrth ei fam.

Gareth a Iestyn oedd un o'r ychydig bobl a oedd yn siarad Cymraeg yn Llundain. Roedd y ddau wedi bod yn trio cael ticedi i weld gêm rygbi Cymru am hydoedd a dyma nhw yn cael gwylio un yn Wembley sydd jest lawr y lôn o dŷ Gareth.

Roedd Gareth a Iestyn ar eu ffordd trwy'r drws pan waeddodd ei fam,

'Ond beth am dy dad?'

'Mae o'n gwybod beth yr ydw i'n ei hoffi,' a chau'r drws ar ei ôl. Roedd Gareth yn methu coelio'r peth. Ef o bawb ar ei ffordd i weld Cymru yn chwarae rygbi. Wrth iddynt gyrraedd y 'Wembley Way' gwelodd Iestyn filoedd ar filoedd o grysau cochion yn cerdded tuag at y ddau dŵr.

'Dyna hi ein giat ni, Iest,' dechreuodd Gareth gerdded tuag ati.

'Disgwyl funud, Gar, tyrd efo fi.' Cerddodd tuag at ddau ddrws mawr.

'Lle ti'n mynd?'

'Fe wnaeth dad ddweud bod lle ffordd na i fynd at ystafelloedd newid y chwaraewyr, a ti'n gwybod beth, does dim llawer o blismyn yno chwaith.

'Be ti'n feddwl?' edrychodd Gareth arno'n syn.

'Cael tipyn o bresanta bach, te.'

'O, na,' trodd Gareth ei gefn.

'Tyrd 'laen, pum munud fyddwn ni.'

'O.K. ond dim mwy.' Cerddodd y ddau i mewn.

'Rho dy ben i lawr y twmffat twp.' Rhedodd plismon heibio iddyn nhw.

'Mae hyn yn wirion, tyrd waeth i ni droi nôl ddim.' Cododd Gareth a dechreuodd gerdded yn ôl am y drws.

'Edrych, dyna nhw yr ystafelloedd newid. Tyrd.' Fel yr oeddynt yn mynd i mewn dyma nhw yn clywed sŵn traed yn dod am yr ystafell. Rhuthrodd y ddau am y cawodydd. Edrychodd Gareth yn sydyn i'r chwith a gwelodd grys rygbi Cymru sbâr ar y bachyn a'r rhif 12 ar ei gefn.

'O, Iesu Grist fab Dafydd, yli crys Scott Gibbs.'

'Da iawn, tyrd neu fe fyddwn yn cael ein gweld.'

Agorodd y drws ac fe gerddodd y tîm i gyd i mewn. Jenkins, Hawley, Gibbs, y ddau Quinell, Dafydd James, Charvis, pawb. Roedd Gareth bron a llewygu ond roedd yn rhaid i'r ddau aros yn y gawod rhag iddynt gael eu gweld.

Roedd bron i hanner awr wedi mynd heibio ac roedd dau ddyn yn dal i siarad yn yr ystafelloedd newid. Roedd y gêm bron ar ben ac roedd y ddau yma wedi bod yn eistedd yn y gawod bron trwyddi hi i gyd. Fe fydd y chwaraewyr yn dod yn ôl cyn hir ac yn mynd i'r gawod. Penderfynodd y ddau eu bod am redeg. Cododd y ddau a dechrau rhedeg. Gafaelodd Gareth yng nghrys sbâr Scott Gibbs a rhedeg drwy'r drws.

'Oi, chi'ch dau, dewch yn ôl y funud yma.'

Rhedodd y ddau am y drws ond roedd dau blismon yn sefyll yno. Pan welsant hwy fe ddechreuasant redeg ar eu holau. Rhedodd y ddau a'u gwynt yn eu dyrnau. Pan gyraeddasant y cae fe edrychodd Gareth ar y cae a'r funud honno dyma Scott Quinell yn ei rhoi hi i Gibbs a dyma hwnnw yn cael y cais gorau a welodd Gareth erioed. Roedd hynny wedi gwneud iddo stopio rhedeg ac fe gafodd ei ddal gan y plismyn.

Tra'r eisteddai'r ddau yn y gell meddyliodd Gareth beth oedd ei fam yn mynd i'w ddweud. Roedd hyn yn ddigon i godi gwallt ei phen. Edrychodd dan ei gôt ble roedd wedi cadw'r siwmper rygbi. Dyna un peth da am y diwrnod. Ar hynny, dyma'r drws yn agor.

'Gareth William Iwan Huws, dos i'r car 'na y munud yma.'

'Ond, mam ...'

'Ond, mam wir! Mae gen ti lawer o egluro i'w wneud.'

Cerddodd mam Gareth at ddrws ei lofft. Roedd wythnos wedi bod ers y gêm rygbi a doedd ei fam byth wedi maddau iddo.

'Tyrd yn dy flaen, neu fe fydd dy dad yn flin oherwydd ei fod yn gorfod disgwyl.' Agorodd Gareth ei lygaid a chafodd ei ddallu gan haul y bore.

'Dad yn disgwyl am be?'

'I chdi gael prynu siwt i achlysur dy nain.'

Ymestynodd Gareth ei goesau ac ochneidiodd.

Prif Lenorion Eisteddfod Bentref Llanrug, Siân Pritchard (y Gadair) a Geraint Iwan (Tlws yr Ifanc).

Canlyniadau Llanrug

Cynhaliwyd Eisteddfod Bentref Llanrug ddydd Gwener, Hydref 15, yn Neuadd Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Y beirniaid oedd - Cerdd a Cherdd Dant: Dennis Williams; Adrodd a Llên: Gwyn Lewis; Gosod Blodau, Coginio a Thecstiliau: Anita Long; Ffotograffiaeth, Arlunio a Thri Dimensiwn: Frank Green; Dawns: Beth Angell. Y gyfeilyddes oedd Mrs Megan Roberts.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod mewn unrhyw fodd.

Dyma restr y canlyniadau:

Unawd dosbarth derbyn: 1. Ffion, 2. Ffion Erin, 3. Darren ac Elain; Adrodd dosbarth derbyn: 1. Elain, 2. Jessica, 3. Ffion Erin; Unawd cyn oedran ysgol: 1. Anna, 2. Craig, 3. Mathew; Adrodd cyn oedran ysgol: 1. Craig, 2. Anna, 3. Iwan; Unawd Bl.1&2: 1. (Cadair Lowri) Gwion, 2. Rebecca, 3. Emma ac Alys; Adrodd Bl.1&2: 1. Christopher, 2. Alys, 3. Heledd a Llywelyn; Unawd Bl.3&4: 1. Ffion, 2. Beverley, 3. Lois; Adrodd Bl.3&4: 1. Declan, 2. Osian, 3. Sion a Lois; Unawd Bl.5&6: 1. Ffion Angharad, 2. Mari, 3. Manon a Tracy; Adrodd Bl. 5&6: 1. (a chwpan am y perfformiad gorau yn y cystadlaethau adrodd oedran cynradd) Mari, 2. Lowri, 3. Llinos.

Parti Unsain i blant oedran Ysgol Gynradd. 1. Llygod Mawr, 2. Llygod Bach. Unawd ar unrhyw offeryn pres i oedran cyradd: 1. Aled, 2. Carwyn; Unawd piano Bl. 5&6: 1. Mari, 2. Lowri, 3. Gwenllian; Unawd ar unrhyw offeryn heblaw pres a phiano i oedran cynradd: 1. Llinos a Mari (Cwpan am y perfformiad offerynnol gorau oedran cynradd, i Llinos); Parti dawns werin i oedran cynradd: 1. Parti'r Orsaf, 2. Y Cochion; Cân werin - oedran cynradd neu uwchradd: 1. (a chwpan am y perfformiad gorau yn y cystadlaethau canu oedran cynradd) Llinos; Dawns fodern i unigolyn neu grŵp: (a) Cynradd: 1. Genod Y Mileniwm, (b) Uwchradd: 1. Y Genod Gwyllt; Cyflwyniad llafar digrif: (a) Cynradd: 1. Parti'r Syrjeri, (b) Uwchradd: 1. Parti Gabi; Unawd Bl. 7-11: 1. Debbie, 1. Natalie; Unawd Cerdd Dant - Agored: 1. Llinos, 2. Mari; Unawd piano Bl. 7-11: 1. Ifan, 2. Guto, 3. Sophie; Unawd ar unrhyw offeryn heblaw piano Bl. 7-11: 1. Donna, 2. Guto; Unawd ar unrhyw offeryn i oedran Bl. 12 a throsodd: 1. Sian Green; Grŵp offerynnol: 1. Munud Olaf; Parti Canu agored: 1. Rhywbeth Fel Hyn, 2. Parti Penbont, 3. Y Bechgyn

CELF A CHREFFT

Gwnio. Bl. 5&6: 1. Fiona Pitts; Agored: 1,2 & 3: Eirianwen Whiteside Thomas; Gwau neu grosio. Ysgol Gynradd. 1. Fiona Pitts, 2. Tracey Evans. Agored: 1. Yvonne Pitts, 2. Angela Roberts.

Coginio. Bl. 1&2: 1. Gwyn Jones, 2. Gwenno Angharad Gibbard, 3. Heledd Anna Roberts a Rhiannon Hughes; Bl. 3&4: 1. Alex Lynes, 2. Elin Haf; Bl. 5&6: 1. Fiona Pitts, 2. Aled Rhys Williams, 3. Mari Deiniol; Bl. 7&8: 1. Ffion Haf Jones, 2. Fflur Angharad Gruffydd, 3. Guto Rhun; Bl. 9&10: 1. Rhian Angharad Jones, 2. Sion Emyr; Agored (merched): 1. Yvonne Pitts, 2. Glenys Jones, 3. Dawn Jones; Agored (dynion): 1. Wavell Roberts; Agored - marmalêd: 1. Eirianwen Whiteside Thomas; Agored - gwin coch: 1. Brian Cooke;

Tri Dimensiwn. Cyn oedran ysgol a Dosbarth derbyn: 1. Rhodri Llŷn Brookes, 2. Elain Roberts, 3. Cara Mitchell; Bl. 1&2: 1. Gwenno Angharad Gibbard, 2. Gwyn Jones, Heledd Anna Roberts, 3. Gwion Dafydd, Rhian Darwood; Bl. 3&4: 1. Efa Dyfan, 2. Elliw Fflur; Bl 5&6: 1. Cai Dyfan, 2. Llion Gethin, 3. Ffion Angharad, 4. Llinos Catrin, Jonathan Daniel, Gwenllian Angharad, Gwenno Catrin, Aled Rhys Williams.

Arlunio. Ysgol Feithrin a Dosbarth derbyn: 1. Rhodri Llŷn Brookes, 2. Llion Rees Hughes, 3. Rhodri Wiliams; Bl. 1&2: 1. Gwenlli Haf, 2. Awen Lyn Hughes, 3. Daniel Wyn Morris, Gwyn Jones, Gwenno Angharad Gibbard, Gwion Dafydd, Llywelyn Williams, Heledd Anna Roberts; Bl. 3&4: 1. Beverley Dawn Hughes, 2. Elin Haf Williams, 3. Gerallt Bryn, Alex Lynes, Rhys McGuire Jones, Lewis Jones; Bl. 5&6: 1. Llion Gethin, 2. Ffion Angharad, 3. Gwenno Catrin, Llinos Catrin, Gwenllian Angharad, Fiona Pitts; Bl. 7&8: 1. (a chwpan Emma Barnard) Debbie Yvonne Hughes, 2. Mark Pitts, 3. Ffion Haf Jones; Bl. 9&10: 1 & 2. Geraint Iwan.

i'w parhau ar dudalen 6

'Edwin' gan Sian Pritchard

Enillydd Cadair Eisteddfod Bentref Llanrug

'Tyrd yn dy flaen os wyt ti eisiau dysgu rhywbeth,' gwaeddodd y doctor. Trodd rownd gan edrych yn syn ar Edwin yn neidio o un deilsen goch i'r llall. Roedd o fel iâr wedi colli ei phen yn neidio a brasgamu bob yn ail o un ochr o'r coridor i'r llall.

'Lle 'dan ni'n mynd Df Caftfait?' gofynnodd Edwin mewn penbleth.

'Mi gei di weld ar ôl cyrraedd yna,' atebodd y doctor yn swta gan droi i lawr coridor arall.

Roedd y lle fel rhyw we pryfcop enfawr meddyliodd Edwin wrth ei hun. Doedd o erioed wedi gweld y ffasiwn goridorau yn ei fywyd o'r blaen. Taerai iddo gerdded ar hyd yr un coridor nifer fawr o weithiau, ond toedd pob coridor yn edrych yr un peth. Doedd o rioed wedi hoffi ysbytai ers iddo gael ei gloi i mewn yn y tŷ bach yn ddamweiniol pan oedd yn ymweld ag Anti Jên, ond rhaid oedd mynd i'r ysbyty os oedd am gael ei brês pên-blwydd gan ei nain. Roedd Edwin wedi cael mwy o brofiadau yn y ddwy flynedd ddiwethaf na mae y rhan fwyaf o bobl wedi ei gael mewn bywyd. Roedd wedi bod yn ffermwr, yn fecanic, yn trin gwallt, yn 'Safeways', yn y sinema, yn gogydd, yn gwneud rownd lefrith, roedd hyd yn oed wedi bod yn y Sŵ. Ond roedd popeth wastad yn troi allan yn ffradach. Roedd wedi gwenwyno dynes pan yn gogydd, wedi gollwng cannoedd o boteli pan oedd ar y rownd lefrith a'r tsimpansis wedi ymosod arno yn y Sŵ. Ond doedd y profiad gwaith hwn ddim yn mynd i fod fel y gweddill. Doedd dim yn mynd i fynd o'i le — roedd wedi cael ei siarsio i fod yn dda gan ei nain.

'Damia!' meddai Edwin wrtho'i hun. Tra roedd o wedi bod yn hel meddyliau roedd Dr Cartwright wedi diflannu i rhywle. Roedd yn rhaid i Edwin ei ffeindio, a hynny'n gyflym rhag ofn iddo golli rhywbeth — roedd ei nain wedi bod yn pwysleisio arno i ddangos diddordeb, i ofyn cwestiynau ac i wrando ar bopeth roedd y doctor yn ei ddweud. Rhedodd i lawr y coridor a chymerodd y troad cyntaf gan obeithio'r gorau. Pan welodd yr arwydd 'DISTAWRWYDD' ar ochr y coridor, stopiodd redeg a cherddodd yn ei flaen yn araf a phwyllog gan edrych i fyny ar y patrwm ar y to.

'Gwyliwch lle rydych yn mynd y twpsyn!' clywodd Edwin y llais gwichlyd.

'O ... sofi musus, do'n i'm yn tfio,' atebodd Edwin yn ddiniwed.

'Dwi wedi bod yn disgwyl yn fama am oriau a neb wedi dod i fy nôl i,' cwynodd yr hen ddynes. 'A rwan dyma chi wedi cyrraedd o'r diwedd. Hen bryd hefyd.' meddai gan edrych ar gôt wen Edwin.

'Dwi iso mynd i'r toilet ers oriau.'

'Ond dwi ddim yn gweithio 'ma ...' atebodd Edwin yn yn gan geisio cael ei big i mewn.

'Ewch a fi rwan,' mynai'r hen ddynes. 'Rwy jest a byrstio.'

'Ond ...'

Dim ots faint o brotestio a wnaeth Edwin doedd dim dod allan ohoni. Roedd wedi cael ei ddyletswydd cyntaf - mynd a'r hen glomen hurt i'r toilet. Gwthiodd Edwin y gadair olwyn ar hyd y coridorau gan esgus mai mewn car rali ydoedd. 'Bfmmm, Bfmmm, Bfmmm,' gwaeddodd wrth redeg o ochr i ochr yn osgoi'r ymelwyr a oedd yn cerdded heibio ar y coridor. 'Bi-bib, Bi-bib,' oedd y twrw a wnai ambell waith pan oedd rhai pobl yn gwrthod symud i'r ochr. Yn annisgwyl i Edwin, roedd yn hen wreigan wrth ei bodd yn rasio o gwmpas y coridorau ac yn chwerthin yn braf wrth i Edwin rampio'r rhannau anwastad o'r teils.

'Dyma chi, musus,' meddai Edwin yn falch wedi iddo gyrraedd y drws gyda llun cadair olwyn arno. Rhywsut neu gilydd ni allai helpu maddau i'r hen wraig am fod yn annifyr gydag ef yn gynharach. Roedd hi'n hen wedi'r cwbl, ac ychydig yn ddryslyd ond mi fuasai'n gwneud 'co-driver' grêt!

'O diolch i chi,' meddai'r hen wraig gan blannu clamp o gusan ar ei foch. Cochodd Edwin ...

'Unfhyw bfyd,' atebodd o'r diwedd. 'Mision acomplishd.'

Diflannodd Edwin lawr y coridor i chwilio am Dr Cartwright. Edrychodd ar y wal ar yr arwydd a oedd yn darllen - 'Theatr' a saeth yn pwyntio am i lawr. Roedd Edwin yn siwr i Dr Cartwright fwydro rhwybeth am rhyw theatr neu gilydd. Ond beth oedd theatr yn da mewn lle fel ysbyty gofynnodd Edwin iddo'i hun mewn penbleth wrth gerdded i lawr y coridor yr un ffordd â'r saeth. Roedd dan yr argraff mai pantomeims oedd mewn llefydd felly - roedd yn cofio mynd i weld 'Jac a'r jireniym' pan oedd yn nosbarth Mrs Davies yn yr ysgol fach. Ond ta waeth roedd ganddo bethau pwysicach ar ei feddwl rwan - dod o hyd i Dr Cartwright.

WEdi cerdded i ben y coridor gwelodd Edwin y drws mawr gwyn gyda 'THEATR' wedi ei ysgrifennu mewn llythrennau bras, diolch byth meddai wrtho ei hun. Wedi edrych yn fanylach roedd rhywbeth aral l wedi ei ysgrifennu ar y drws hefyd, rhywbeth am rhyw 'unauthorised person' neu gilydd ond nid oedd Edwin yn deall y geiriau Saesneg mawr felly fe anwybyddodd hwy. Cilagorodd y drws gan gael pip sydyn tu mewn.

'Df Caftfait!' gwaeddodd Edwin gan weld cefn y doctor.

'Lle wyt ti wedi bod?' gofynnodd y doctor yn flin.

'Esh i ar goll' meddai Edwin yn ddistaw.

'Dim ysgol feithrin ydi fa'ma 'sti - does yma neb i wylio ar dy ôl di bedair awr ar hugain y dydd. Rwan tyfa fyny, a phaid a chrwydro i nunlle eto, deall!'

'Iawn ... sofi Doctof Caftfait,' atebodd Edwin yn nerfus.

'Rwan, tyrd hefo fi a phaid a chyffwrdd dim!'

Cerddodd Edwin yn araf tu ôl i Dr Cartwright a'i ddilyn i fewn i ystafell lle roedd merch ifanc mewn ffrog bapur yn gorwedd ar y gwely. Roedd y ferch i weld fel ei bod yn cysgu, ond nid mewn cwsg cyffredin ychwaith.

'Be' mae hon yn neud yn fa'ma?' gofynnodd Edwin wrth edrych yn hurt ar y ferch. 'Pam mae'n cysgu?'

'Mae'n barod am lawdriniaeth, Edwin. Yr anastetig sydd yn gwneud iddi gysgu,' atebodd y doctor.

'Llaw be?'

'Llawdriniaeth Edwin. Operation.'

'Ond be 'di hyna?'

'Wel...' dechreuodd y doctor egluro. 'Dim ots, gei di weld rwan,' meddai gan sylweddoli yn go fuan mai bradu amser fyddai *trio* egluro'r gair llawdriniaeth i Edwin. 'Rwan mae'n bum munud i ddeg, dylai'r llawfeddygon fod yma unrhyw funud i ddechrau'r llawdriniaeth. Rwan cofia be' ddywedais i'n gynharach, dim cyffwrdd unrhyw beth. Iawn.'

Edrychodd Edwin yn syn o gwmpas yr ystafell. Ni welodd y ffasiwn beiriannau yn ei fywyd o'r blaen. Roedd yno rhyw beiriant efo llwythi o wifrau yn sefyll allan ohono, a rheini gyda gwahanol declyn ar ben pob un. Roedd un ohonynt â rhyw beipen fawr blastig ar ei ben - rhywbeth tebyg i'r twlsyn ar 'Henri' hwfer nain meddyliodd. Parhaodd ei lygaid i grwydro'r ystafell nes y cyrhaeddasant yr hambwrdd metel ar bwys y gwely. Neidiodd Edwin yn ôl mewn braw wedi gweld yr holl dwls a'r cyllyll miniog. Ar y gair daeth y llawfeddygon yr oedd Dr Cartwright wedi bod yn sôn amdanynt i fewn i'r ystafell gan roi eu ffrogiau gwyrdd amdanynt.

Aethant yn syth at y gwely gan ffurfio cylch o'i gwmpas, roedd Dr Cartwright yn egluro'r sefyllfa a'r dasg oedd o'u blaenau. Ni ddeallai Edwin air.

'Tyrd yma os wyt ti eisiau dysgu rhywbeth,' gwaeddodd Dr Cartwright.

Cerddodd Edwin tuag ato'n araf. Estynnodd un o'r llawfeddygon y gyllell fach finiog oddi ar gornel yr hambwrdd a'i llusgo'n araf dros ysgyfaint y ferch. Dyna'r peth olaf a gofiai Edwin.

* * *

Deffrôdd mewn rhyw ystafell gyda nyrs ifanc, ddeniadol o'i flaen. Teimlodd ei ben yn powndian a chododd ei fraich i deimlo'r lwmp anferthol ar ei dalcen.

''Dach chi 'di deffro o'r diwedd!' gofynnodd y nyrs gan wenu arno.

'Be 'nath ddigwydd?' gofynnodd Edwin mewn penbleth.

'Wel, mae hi'n edrych fel fod y theatr wedi bod yn ormod i chi ar eich diwrnod cyntaf. Mi wnaethoch ffeintio a tharo eich pen ar ymyl y cwpwrdd wrth ddisgyn. Roeddech yn anymwybodol am bron i chwarter awr, rydych yn lwcus na chawsoch goncysion.'

'O ...,' meddai Edwin gan esgus ei fod yn deall beth oedd y geiriau mawr crand yn ei feddwl.

'Mae arna i ofn y bydd rhai i chi aros yma i orffwyso tan amser cinio cyn parhau gyda'ch profiad gwaith,' eglurodd y nyrs.

I ddweud y gwir nid oedd gan Edwin fawr o ddiddordeb mewn gwrando ar y termau biolegol crand, roedd yn llawer prysurach yn astudio wyneb prydferth y nyrs. Roedd ganddi wallt hir, cyrliog, brown; trwyn smwt a'r llygaid glas prydfertha welsoch chi erioed. Roeddent fel dau bwll nofio y buasech yn gallu deifio i mewn iddynt unrhyw bryd, ac roedd ganddo tan amser cinio yn ei chwmni. Roedd Edwin ar ben ei ddigon ac wrth ei fodd yn cael maldod gan y nyrs ifanc. Wedi'r cwbl, roedd wedi talu'n ddrud am y fraint meddyliodd wrth gyffwrdd ei dalcen eto. Jest pan oedd yn meddwl na allai pethau fod ddim gwell, fe chwalwyd y cyfan.

Gweddill canlyniadau Llanrug (o dud 5)

Ffotograffiaeth. Agored: 1, 2 & 3. Malcolm Pitts.

LLENYDDIAETH

Rhyddiaith. Bl. 3&4: 1. Lois Angharad, 2. Nia Fflur, 3. Beverley Hughes; Bl. 5&6: 1. Llinos Haf Hughes, 2. Jonathan Jones, 3. Lowri Ann Hughes-Jones; Bl. 7: 1. Debbie Yvonne Hughes, 2. Emlyn Roberts; Bl. 8&9: 1. Geraint Iwan, 2. Natalie Elisha, 3. Mark Pitts, Guto Rhun Wynne; Bl. 10&11: 1. Sion Emyr Wynne, 2. Iwan Rhys Williams, 3. Gemma Jones; Bl. 12&13: 1,2 a 3. Sian Pritchard.

Barddoniaeth. Bl. 3&4: 1. Sophie Owen, 2. Cara Mai Evans, 3. Ceri Mair Roberts; Bl. 5&6: 1. Lowri Ann Hughes-Jones, 2. Ffion Angharad, Stacey Wynne, Stacey Davies; Bl. 7: 1. Debbie Yvonne Hughes; Bl. 8&9: 1. Mark Pitts, 2. Natalie Elisha, 3. Guto Wynne.

Tlws yr Ifanc (Bl. 3-9) 1. Geraint Iwan, 2. Lowri Ann Hughes-Jones.

Cadair yr Eisteddfod (Bl. 10-13): Sian Pritchard;

Agored. Erthygl neu ddarn creadigol addas ar gyfer Eco'r Wyddfa: 1, 2 a 3: Mair Humphreys, Rhoslan, Stad Minffordd; Llinell goll: 1. Anwen Owen & Harri Parri, 3. Dafydd Owen.

'Rwan, mae gennyf alwad i'w gwneud i un o'r wardiau, felly bydd yn rhaid i mi eich gadael. Ond peidiwch a phoeni, mi ddaw Sister Rowlands yma i ofalu amdanoch.'

Diflannodd y nyrs ifanc i lawr y coridor gan adael Edwin i syllu yn geg agored ar ei hôl. Doedd o ddim eisiau rhyw Sister Rowlands, roedd o ei heisiau *hi*. Fel yr oedd Edwin yn hel meddyliau cerddodd y ddynes hyllaf, dewaf, gasaf a welodd neb erioed i mewn i'r ystafell. Am anghenfil meddyliodd Edwin wrtho'i hun pan ddechreuodd y Sister rhestru'r rheolau - nid oedd i symud o'i wely; roedd i fod yn ddistaw ar bob adeg, ac nid oedd i swnian am ddim byd. Nid oedd Edwin am gael ei fwlio gan y bwystfil yma felly pan drodd y Sister ei chefn arno, neidiodd allan o'i wely a'i heglu hi i lawr y coridor. Gallai glywed llais sgrechlyd Sister Rowlands yn glir yn gweiddi arno i ddod yn ôl, ond doedd dim troi'n ôl nawr.

Fel yr oedd Edwin yn pendroni ynglŷn â beth oedd yn mynd i'w wneud daeth ar draws bachgen bach yn cuddio yng nghornel y coridor.

'Be' sy'?' gofynnodd Edwin yn ei lais distaw, diniwed.

'Dwi'n ofn ...' atebodd y bachgen.

'Ofn be'?'

'Dwi'n gorfod tynnu tonsyls fi ... ond nesh i redeg i ffwrdd oddi wrth Dr Cartwright 'na ... a ... a ... mae o'n chwilio amdana' fi.'

'Chdi yn iawn efo fi 'sdi.' Ceisiodd Edwin ei gysuro. 'O ia, Edwin 'dwi. Be di enw chdi?'

'Joni.'

'Lle ti'sho mynd Joni?' gofynnodd Edwin. 'O, dwi' gwbod, ty'd.'

Rhoddodd ei fraich amdano a cherdded i lawr y coridor. Roedd Edwin wedi gwneud ffrind newydd, efallai ei fod yn ddeng mlynedd yn hŷn nag ef ond beth oedd oed i Edwin? Roedd Joni yn fachgen bach direidus iawn ac yn llawn hwyl a dyna'r oll oedd yn cyfrif.

Wedi i'r ddau grwydro am ychydig, cael diod oer yn y siop a chwarae gyda'r ceffyl siglo yn un o'r ystafelloedd disgwyl, daethant o hyd i'r lifts. Edwin oedd y cyntaf i fentro i mewn iddo a Joni yn agos tu ôl. Caeodd y drws amdanynt, a dyna ddechrau ar yr hwyl. Gyrrwyd y lifft i bob llawr posib, o un i dri, i chwech, i naw, yn ôl i bedwar, i fyny i bump, lawn yn ôl i'r gwaelod ac Edwin a Joni wrth eu boddau yn gwylltio'r ymwelwyr allanol oedd yn disgwyl yn y gwaelod am y lifft. Buont wrthi am beth amser cyn i'r lifft arafu i lawr yn araf bach ... a dod i stop. Roedd y ddau yn sownd rhwng dau lawr.

'O na, be' ni'n mynd i neud fwan?' gofynnodd Edwin wedi cynhyrfu'n lân.

'Dwi'n gwbod, dwi 'di 'neud o' blaen sti,' atebodd Joni yn wybodus. 'Pwysa'r botwm 'na hefo llun cloch arno fo.'

Ei bwyso wnaeth Edwin, a chyn pen chwinciad roedd peirianwyr yn cnocio ar y drws i weld os oeddent yn iawn. Piti 'sa nw'n tfwsho'f lift 'ma cyn gynted a ddaethon nhw yma meddyliodd Edwin tra'n eistedd ar waelod y lifft yng nghanol pwll o chwys. Roedd o jest a marw eisiau diod a jest a marw eisiau mynd i'r toiled 'run ffordd. Roedd Joni yn ddistaw am unwaith.

Hanner awr yn ddiweddarach rhyddhawyd y lifft a'r ddau garcharor oedd y tu fewn iddo. Cyn i'r peirianwyr gael dweud gair wrth Edwin roedd wedi diflannu i lawr y coridor i gyfeiriad y toiled.

Wedi diwrnod caled o waith teimlai Edwin y dylai gael ei wobrwyo am ei ymdrechion. Eisteddodd i lawr ar sedd y toiled ac agorodd zip ei boced. Eiliadau yn ddiweddarach swniodd larwm uchel dros yr holl ysbyty, a'r ddynes ar y meicroffon yn gorchymyn pawb i adael yr adeilad ar frys. Sgwn i lle roedd 'rhen Edwin? Yn y toiled yn tynnu yn braf mewn haeddiant llwyr ar ei smôc.

Eisteddfod Ysgol Brynrefail

Eleni eto cafwyd Eisteddfod Ysgol benigamp gyda'r safon ddisgwyliedig o wybod talentau ein disgyblion.

Daw disgyblion y chweched i gael y gorau o aelodau'r tai. Yn wir, rydym yn lwcus iawn i gael chweched dosbarth mor werthfawr ac amryddawn.

Canu, llefaru, dawnsio disgo, actio, siarad cyhoeddus, chwarae offerynau, mae'r rhestr yn hir, ond diflino oeddynt i gyd.

Panic llwyr rhyw ddiwrnod neu ddau cyn yr achlysur mawr; ond fel pob digwyddiad pwysig, roedd popeth yn iawn ar y noson!

Ambell i newid yn steddfod ola'r mileniwm. Rhoi cydnabyddiaeth i gystadlaethau ymlaen llaw gan gyflwyno medalau pwnc am waith gorau yn yr adrannau. Medal o lechen lleol i adlewyrchu cyfraniad y chwarelwyr i'n hysgol.

Tŷ Eilian gipiodd y brif wobr am Weithgareddau ymlaen llaw, Y Sgets, Parti Bechgyn, Parti Ffrangeg, Cân Ysgafn a'r Côr Tŷ. Tipyn o gamp, a da iawn chi.

I Jennie Lyn Morris o dŷ Gwyrfai yr aeth y Tlws Offerynol, ac i Michelle Roberts o dŷ Eryri yr aeth Tlws Emma Bernard am yr adroddiad gorau o'r llwyfan. Huw Ffoulkes (Eilian) a Michelle Roberts (Eryri) aeth â'r Tlysau am y perfformiadau gorau o'r llwyfan, a Sarah Louise Williams (Elidir) a Nia Glyn (Eilian) enillodd y tlysau am weithgareddau cyn eisteddfod.

Ein bardd cadeiriol eleni oedd Elfed Morgan Morris (Eilian) gyda'i stori 'Mewn Drych', a'r llenor ifanc oedd Ffion Williams (Elidir) gyda'i stori 'Cywilydd'.

Am yr ail flwyddyn yn olynol Eilian aeth â hi gyda 883 o farciau, Elidir yn ail gyda 826, Eryri yn drydydd gyda 795 a Gwyrfai yn olaf gyda 786.

'Tro ar fyd,' clywaf rai yn dweud. 'Nid fel'na oedd hi pan oeddwn i yno!'

Ond, ni fyddai'r Eisteddfod wedi bod yn llwyddiant heblaw am un peth: cydweithio. Diolch i gydweithrediad yr athrawon, y staff ategol, y disgyblion, trigolion y cylch, ac yn enwedig aelodau'r chweched dosbarth a fu mor brysur yn ymarfer y corau a'r partïon. Cawsom ŵyl ddiwylliannol a fydd yn aros yn y cof am flynyddoedd lawer.

Enillwyr y medalau pwnc am y cynnyrch gorau ym mhob adran. Rhes gefn: Nikki Hill (Elidir), Clair Pritchard (Eilian), Sarah Louise Williams (Elidir), Dafydd Protch (Eryri), Mathew Pike (Eilian);Rhes flaen: Laura Beard (Elidir), Aisla Orlik (Eryri), Martin Roberts (Elidir). Yn absennol o'r llun mae Thomas Hughes (Eilian).

Sarah Louise Williams (Elidir) a Nia Glyn (Eilian) — y mwyaf o farciau ymlaen llaw.

Grŵp Dawnsio Disgo Elidir

'Mewn Drych' gan Elfed Morris

Enillydd Cadair Ysgol Brynrefail

'I'ch geni'n Gymro
yw eich geni'n freintiedig
nid â llwy arian yn eich ceg
ond â barddoniaeth yn eich enaid
a cherdd yn eich gwaed.'

Rwy'n syllu'n syn i mewn i gannwyll fy llygaid, rwy'n gweld y gwylltineb a'r ofn. Mae fel ffau o dywyllwch yng ngolau dydd, a dirgelwch. Cymro sydd o 'mlaen, Cymro i'r carn, mae mewn cariad â'r Gymraeg, y Cymry a'r wlad. Mae'n flaenwr yn y darlun ac mae adlewyrchiad o'r gorffennol y tu ôl iddo; hen hanes Cymru, ei phobl a'i hiaith.

(1864): Mae'r tywydd yn oer a gwlyb ac mae bywyd yn galed i'r Cymry. Nid oes ganddynt ddim ond ofn. Rwy'n eu gweld yn eu bythynnod bach yn ceisio ennill bywoliaeth drwy ffermio. Maent yn gweithio'n wallgofus er mwyn ennill ychydig o arian i dalu rhent i'w landlordiaid a stiwardiaid Seisnig ac estron.

Mae hen wraig yn ffermio yn y darlun; lladd gwair y mae hi. Mae'i bysedd yn fain ac yn finiog ac mae'i hwyneb fel deilen wedi sychu'n grimp gyda'i grychau main, dwfn yn dangos yr holl wisgo dros y blynyddoedd a fu ynddynt yn y gwynt a'r glaw. Nid yw'n gwenu, mae'n dorcalonnus, mae'n oer a gwlyb. Ai hi yw Cymru yn y flwyddyn 1999.

Mewn cornel dywyll o flaen ei dosbarth, yn unig, mae plentyn yr hen wraig ... mae wedi cael tsiaen newydd o amgylch ei gwddf ... tsiaen fawr gyda'r llythrennau 'W.N' arni. Mae wedi'i chosbi am siarad ei mamiaith, gwaed y wlad sy' i fod i lifo o amgylch y corff i'w gadw'n fyw.

Codi mae rhent ffermwr arall, yn codi oherwydd ei fod wedi gwella'i dir, gweithio'n galed a chael cosb! Y mae'r landlordiaid a'r stiwardiaid yn cosbi'r Cymry hefyd os ydynt hwy'n mynd i gapeli ymneilltuol yn hytrach na'r eglwysi sefydlog.

Y mae'r Cymry'n drist, maent yn breuddwydio am Gymru newydd ... gwlad lle byddant yn cael y rhyddid o fyw fel Cymry, dilyn eu rheolau hwy eu hunain .. rhyddid.

'Yno yn rhywle hwnt i'r gorwelion,
Roedd broydd euraidd o bridd i ddewrion;
O'u dirgelwch: dôi hyder i galon,
i gryf o ewyllys gaer Afallon;
Cariad oedd hyd y cyrion, o'r meysydd
Deuai llawenydd a chnydau llawnion.

(1917): Edrychaf eto i'r drych a gwelaf wyneb yn ymrithio y tu ôl i mi:

'Y Bardd trwm dan bridd tramor, y dwylaw
na ddiddolir rhagor,
y llygaid dwys dan ddwys ddôr,
y llygaid na all agor.'

Rwy'n gweld yr Arianrhod yn disgleirio'n hudolus yn yr awyr ond mae Hedd Wyn, un o arwyr Cymru'n gorwedd mewn ffos ddu yn Ffrainc. Mae ffenestr ei enaid ynghau ... nid oes bywyd yn y corff llonydd.

Mae'r Rhyfel wedi dwyn aur o'n gwlad, bardd Cymreig gyda dyfodol disglair o'i flaen. Mae fy nghalon yn gwaedu wrth feddwl amdano ac am y milwyr Cymreig eraill a fu farw yn y rhyfel gwaedlyd:

'You should be proud that you're in the first line of the war.'

Dyna beth oedd y Saeson yn ei ddweud wrth y Cymry. Y rheswm roedd y Cymry yn y llinell flaen oedd er mwyn lleihau'r nifer o Saeson a gâi eu lladd.

Rhedeg mae Hedd Wyn yn y ffosydd du gyda'i ddryll yn ei law. Mae'n meddwl am ei fam a'i dad a'i frodyr a'i chwiorydd yn yr 'Ysgwrn', ei gartref yn Nhrawsfynydd. Rwy'n gweld ei dristwch a'i ofn.

Mae'r Cymry'n marw, beth am yr hen draddodiadau Cymreig, crefydd a'r iaith? Ydynt hwythau'n marw hefyd? (1969): Wylit, wylit Lywelyn! Mae'r Sais o Lundain wedi'i arwisgo, rwy'n ei weld o'n gwenu yn y drych. Rwyf hefyd yn gweld Llywelyn yn troi yn ei fedd. Mae'r Cymry'n gweiddi canmoliaeth iddo o amgylch castell Caernarfon ... Pam? Rydych yn bobl ddi-asgwrn cefn, pam na fuasech wedi gwneud rhywbeth i wrthsefyll yr hen lwmp o Loegr ... Sais yn dywysog ar ein gwlad.

Barddoni mae Gerallt Lloyd Owen yn erbyn y Sais, mae'n sefyll i fyny i'w wlad a'i bobl ... mae ganddo ef asgwrn cefn, mae hefyd yn wir Gymro.

'Gymru ddifraw, daw y dydd
y gweli dy gywilydd,
ni all sŵn ennill senedd
ni ddaw fyth heb newydd fedd
ac am hynny, Gymru, gwel
y Gŵr sydd ar y gorwel.'

Mae niwl dros y gorwel yn y darlun — ni allaf weld y gŵr. Mae arna i ofn, ofn na fydd y gŵr ar y gorwel.

Annwyl Gymry, peidiwch â throi eich cefn ar eich gwlad a'i phobl a'i hiaith, helpwch hi! (1990): Mae tai ein Harglwydd Dduw yn wag ac mae rhai'n cael eu dymchwel. Mae tafarndai yn cael eu hadeiladu fel madarch o amgylch y lle. Mae pregethau'r gweinidog bellach wedi'u hanghofio a'r unig beth glywir nawr yw'r huddug sgandals sydd yn y tafarndai a sgrech y chwaraewr hap.

Rwy'n gweld pobl yn anwesu'u gwydrau ... mae'r Beibl yn unig ac yn oer yn y capel, dyna'r ddefod a'r ffws. Anghofiwyd.

'Y dydd Saboth, a'i gadw'n gysegredig'

Tesco neu'r dafarn yw canolfan y Sul bellach. Yn lle'n y capel mae Meirion MacIntyre Huws yn barddoni am ferched ac alcohol yn yr Albert yng

Ffion Williams — Enillydd Cystadleuaeth Tlws yr Ifanc
Elfed Morgan Morris — Enillydd Cystadleuaeth y Gadair

Nghaernarfon. Helpu'r iaith ynteu ei lladd hi y mae? Prif-fardd ynteu lladdwr!

Rwy'n gweld Duw'n wylo yn y darlun ... rwy'n teimlo'n flin.

Fe greodd Duw fap ac ar y map roedd smotyn nad oedd o ddim ond smotyn ond roedd o'n smotyn â siap iddo. Siap fel hen ddynes yn pwyntio at lesni'r môr, at bysgod ac at Iwerddon.

Rwy'n gweld Branwen ferch Llŷr wedi'i chaethiwo mewn cell dywyll ... hi yw Cymru'r wlad. Mae ei brawd Bendigeidfran yn mynd i'w hachub, mae'n ymladd drosti.

Brenin coronog ar Brydain a oedd wedi'i arwisgo â choron Llundain oedd Bendigeidfran ... mae'r Saeson wedi claddu ei ben yn y Gwynfryn yn Llundain a'i wyneb tua Ffrainc. Mae arnaf eisiau rhoi drych o'i flaen er mwyn iddo gael gweld adlewyrchiad ei wlad ynddo.

Ond pwy fydd yn achub Cymru'r tro yma? Y Gŵr sydd ar y gorwel? ond ni allaf ei weld! Ynteu'r ieuenctid ... a yw dyfodol y Cymry yn ein dwylo ni? Ni, y rhai mae gwaed ein cyndadau yn llifo'n goch yn ein gwythiennau. Ar ein hysgwyddau ni mae'r cyfrifoldeb. Unwn ac addunedwn:

'A fo ben bid bont'

Michelle Roberts a Huw Alun Foulkes, enillwyr Tlysau'r perfformiadau llwyfan gorau

Dyma oedd gan Natalie Elisha, 8S i ddweud am y Steddfod:

'Y peth gorau i mi ar y diwrnod oedd cael ail yn yr unawd a'r ddeuawd. Roeddwn hefyd yn hapus fy mod wedi cael cyntaf am ysgrifennu stori Gymraeg a Saesneg a bod fy stori Gymraeg wedi ei chynnwys yn y llyfryn 'Goreuon yr Eisteddfod'. Y flwyddyn nesaf buaswn yn hoffi gweld cystadleuaeth newydd yn cael ei hychwanegu, Sgets yr Athrawon! ac wedyn buasem yn siŵr o gael hwyl fawr.

A'r gair olaf i gapteiniaid y tŷ buddugol:

Wedi misoedd o weithio'n galed a chydweithio roedd yr eisteddfod i dŷ Eilian yn fuddugoliaethus. Aeth pob cystadleuaeth ar y llwyfan yn hudolus! Do yn wir, enillodd Eilian yr Eisteddfod am yr ail dro yn olynol.

Hoffai capteiniaid y tŷ, yr is-gapteiniaid a'r ysgrifenyddion ddiolch i bawb a gymerodd ran i greu eisteddfod fythgofiadwy.

Elfed Morgan Morris,
Anne Wiliams, Gemma Orlick
Siân Pritchard a Ffion Hughes

SGOL BRYNREFAIL

afydd Wigley

newidiadau sy'n digwydd ar hyn o bryd yn Nhŷ'r Arglwyddi, pwnc sydd, yn ddiau, o bwysigrwydd cyfansoddiadol mawr i Brydain.

Wrth edrych yn ôl ar y cyfarfod, dywedodd y Prifathro, Eifion Jones, 'Rhaid i mi ddweud fy mod i wedi mwynhau fy hun yn arw heddiw. Wedi'r cyfan, nid pob dydd yr ydych yn cael y fraint o gael siarad â gwleidydd o'r un dalent a gallu â Mr Wigley.'

Ac heb amheuaeth, cawsom ni fel aelodau'r chweched dosbarth fwynhad hefyd o'r prynhawn diddorol, difyr ac addysgiadol yma gydag ef.

Geraint Edwards, Bl.12



arti'r Octagon

Plant Mewn Angen

Bob mis Tachwedd, ceir diwrnod tra gwahanol yng nghalendr yr ysgol, sef diwrnod Plant Mewn Angen. Rhydd y digwyddiad yma gyfle inni gael hwyl a sbort, a hynny dros achosion da. A'r Tachwedd yma,mae'n bur debyg, fe gawsom y diwrnod gorau erioed o ran y miri a'r casglu arian, oherwydd eleni casglwyd dros £650, cant pum deg o bunnau'n uwch na'r cyfanswm llynedd.

Casglwyd yr arian o amryw ddigwyddiadau. I gychwyn, penderfynwyd y dylid cael diwrnod heb wisg ysgol ddydd Gwener, a thalu 50c am y fraint honno. Bu'r chweched dosbarth yn brysur iawn — yn golchi ceir yr athrawon, a chynnal gêm hoci yn eu herbyn. Yn ystod y bore trefnwyd twrnament arall, sef cystadleuaeth sgorio, gyda Mr Euron Hughes, yr athro Saesneg (cefnogwr brwd Everton) yn gôl-geidwad.

I ddisgrifio'r profiad, dywedodd Mr Hughes, 'Gês i gymaint o hwyl yn chwarae yn y gôl! A dweud y gwir, mae'n wyrthiol o beth fy mod i wedi gwneud cystal, yn arbed tua hanner o'r ymgeisiau. Fel y gwelsoch chi, roeddwn i mor flinedig erbyn y diwedd 'de!'

Ac yn goron ar y cyfan, cafwyd gig yn y neuadd amser cinio yng nghwmni grŵp roc a rôl ifanc lleol, 'Y Gogz', sef Chris Carr yn canu ac ar y gitâr, Owain Ginsberg ar y gitâr fâs, a Geraint Owen yn drymio. Dilynwyd hyn oll gan hanner 'Full Monty' gan rai o hogia hŷn yr ysgol. Wrth edrych yn ôl, mae'n dda cael gwybod fod yr hwyl a gawsom wedi rhoi cymorth i lawer o blant a phobl ifanc mewn angen ym Mhrydain heddiw.

YR EISTEDDFOD

Erbyn hanner awr wedi chwech roedd bron pob set yn y neuadd wedi ei llenwi gyda phlant a phobl o bob oedran yn disgwyl i weld y talentau oedd yn cael eu dangos.

Y Tai oedd yn cystadlu oedd Elidir, Eilian, Eryri a Gwyrfai. Yn Eilian rydw i, ac am yr ail flwyddyn ar y trot ni (Eilian) enillodd eto!

Erbyn y flwyddyn nesaf fe fuaswn yn hoffi gweld yr athrwon yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod wrth gystadlu ar y llwyfan. Unawd, deuawd neu rhyw fath o actio.

Rydw i'n meddwl mai hon oedd yr Eisteddfod orau eto i roi clo ar 1999!

Clair Pritchard

Beth yn eich tyb chi sy'n rhoi'r pwysau mwyaf ar berson chweched dosbarth Ysgol Brynrefail? Lefel A? Naci siŵr iawn, STEDDFOD YSGOL!!

Dychmygwch y sefyllfa. Pump yn dod i'r ymarferion parti bechgyn, a'r rheini yn debycach i fwnciod na bechgyn blwyddyn 7. Yn wir, ar adegau roedd hi'n fwy fel arddangosfa syrcas nac eisteddfod ysgol. Nid oedd eleni yn wahanol i'r arfer, roedd pawb yn llawn brwdfrydedd ac yn gwneud eu gorau glas dros eu tai, ond ar ôl yr holl weiddi, a thynnu gwallt ein pen, cafwyd steddfod hynod o lwyddiannus.

Jennie Lyn Morris
Capten Tŷ Gwyrfai

Rhagor o luniau'r parti

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul

Royal Victoria Hotel
wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: Llanberis 870253

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn; Llanberis 870545

CYFARCHION NADOLIG BUSNESAU LLANRUG

CO-OP LLANRUG

diolch am eich cefnogaeth ym 1999
gan edrych 'mlaen i'ch gweld yn y mileniwm newydd

ar agor nos lau,
Rhagfyr 22
tan 7yr hwyr

bwyd a nwyddau o safon
holl anghenion y ty yn lleol

oriau agor (yn cynnwys amser cinio)
8.30 - 5.30 Llun, Mawrth, lau a Gwener
8.30 - 12.30 dyddMercher a Sadwrn

Ffordd yr Orsaf, Llanrug (01286) 672937

LINDA MORRIS

GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
1 BRYN FEDWEN, FFORDD YR ORSAF LLANRUG. Ffôn: 678857

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Simneau glân am bris rhesymol gan

G. LLOYD

4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG

Cyfarchion y tymor i chwi oll

Defnyddir peiriant sugno i lanhau

Ffôn: Caernarfon 674781

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH

DENNIS ROBERTS

(Glyn Roberts a'i Fab)
DYNION GLO LLANRUG
Ffôn: 675043

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth barhaus i ddatblygiad Brynteg drwy gydol 1999. Dewiswyd y Parc ar gyfer rownd derfynol cystadleuaeth a noddwyd gan *Calor* i ganfod "Parc Gwyliau a Gafodd ei Wella Fwyaf yng Nghymru". Ein nod fydd parhau gyda'n llwyddiant yn 2000

HOLIDAY HOME PARK
Brynteg

LLANRUG Ffôn: 873100

Mae James McAllister a thîm Brynteg yn dymuno i chi Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ffyniannus

---

DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Elaine, a staff**

Elaine's

LLANRUG, Ffôn: 672023

ORIAU AGOR	
Mawrth	9.00 - 7.00
Mercher	9.00 - 1.00
Iau	9.00 - 8.00
Gwener	9.00 - 8.00
Sadwrn	7.30 - 2.00

Dydd Mawrth a dydd Mercher i bensiynwyr

Nos Fawrth i ddynion

Colurio ar gyfer achlysuron arbennig

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

CYDNABYDDIAETH. Dymuna Mr Robert Wiliams, Llain Gwta, Gwêl Fynydd, Llanrug a theulu y ddiweddar Mrs Kate Elizabeth Williams ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad ar lafar, ar gerdyn neu ffôn tuag atynt yn eu profedigaeth o golli un annwyl. Diolch hefyd i Feddygon a Staff Nyrsio Ward Beuno a Phrysor, Ysbyty Gwynedd, Bangor am eu gofal tyner ohoni. Carwn gydnabod y rhoddion hael tuag at Gymdeithas Alzheimer er Ymchwil. Trosglwyddwyd £275 iddi er lles dioddefwyr.

ER COF annwyl am y diweddar Mrs Olwen Edwards, Cilan, 10 Ffordd Glanffynnon a fu farw yn ddisymwth ar y 27 Rhagfyr, 1998. Byth yn angof gan Enid a'r teulu, Talysarn.

MARWOLAETH. Bu farw Oswald Davies, Rhyd-y-delyn, gynt o Plas Gwyn a Dyffryn Clwyd yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 22 Tachwedd yn 88 mlwydd oed. Roedd yn ŵr llawn egni a bywyd ac yn hoffi trafeilio a cherdded. Ymdrechodd yn ddewr i'r diwedd. Gadawodd wraig, Jean, a phedwar o blant, Carys a John (Awstralia), Eryl a Val, Enid a Richard, a Rhian a Graham.

Roedd yn daid annwyl i'w wyrion a'i wyresau, Gareth, Iolo, Ceri, Catherine, David, Helen, Emma, Laura, Rachel a Stephanie.

Bu'r angladd ddydd Gwener, 26 Tachwedd yng Nghapel y Rhos, o dan ofal y gweinidog, y Parch Dafydd Hughes, a hefyd Alan W Roberts, Brynsiencyn. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mrs Megan Williams, un o'i gyd-flaenoriaid.

Ffermwr oedd Oswald, ond ei brif ddiddordeb oedd y capel, a bu yn flaenor am dros ddeugain mlynedd. Hoffai hefyd fynd i ddosbarthiadau nos WEA, Clwb yr Henoed a phan yn ifanc, cymerai ran mewn gwahanol ddiddordebau ynglŷn â'r gymdeithas.

Y cludwyr oedd Gareth a David, wyrion, Richard a Graham, meibion yng nghyfraith, Chris a Dave, ffrindiau. Rhoddwyd ef i orffwys ym mynwent Sant Mihangel, Llanrug. Daeth nifer o deulu a chyfeillion ynghyd, a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Megan, Myra, Emlyn (brawd a chwiorydd), Beti a'r teulu (chwaer yng nghyfraith), Carys, John a'r plant, Awstralia, y Parch. Wayne Roberts, gweinidog Capel y Dyffryn, Llandyrnog.

Gyda llawer o ddiolch derbyniwyd blodau gan y teulu a rhoddion tuag at Ysbyty Gwynedd a Meddygfa Llanrug, lle cafodd ofal tyner am nifer o flynyddoedd. Diolch hefyd i'r trefnwyr angladdau, Mr E.W. Pritchard, Llanberis.

Cyflwynwyd crysau newydd i aelodau tîm pêl-droed dan 11 oed Llanrug gan gwmni Lloriau Celtic yn ddiweddar.

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwenda Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsedd ddiolch yn arw iawn i bawb am yr holl ddymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad o'r Swyddfa Bost yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLWN â theulu Mr William Owen Griffiths, 9 Hafan Elan a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar 7 Tachwedd. Hefyd â Mrs Jean Davies a'r teulu, Rhyd y Delyn, Ffordd Glanmoelyn. Bu farw Mr Oswald Davies ar 22 Tachwedd.

CYFARCHION Y NADOLIG. Dymunwn Nadolig hapus iawn i bawb a Blwyddyn Newydd Dda.

GWELLHAD BUAN i Mr John Wyn Owen, Llain Delyn sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri ac i bawb sy'n wael yn eu cartrefi neu'r ysbytai.

DRAENOG

Glywsoch chi am y gŵr o Lanberis sy'n dipyn o giamstar am dynnu lluniau. Aeth yr holl ffordd i ardal Amwythig i dynnu llun pont enwog Ironbridge ond yn anffodus roedd tarpolin mawr yn cuddio'r bont gyfan. Gwell hwyl y tro nesa.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Richard, Meirwen a'r staff
SPAR
Y SGWÂR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 672790

AR AGOR BOB DIWRNOD HEBLAW DYDD NADOLIG

R.D. Thomson
Crefftwaith Coed
Uned 1A Brynafon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674100 (dydd)
(01248) 650732 (fin nos)
Ffenestri, Drysau, Dodrefn
Grisiau, Gwaith Turnio
Blychau Clociau
Blychau dal Offerynnau
Blych Arddangos
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Bob

EMYR JONES
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

GWASANAETH NEWYDD AR GYFER
PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU . . .
RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER POB ACHLYSUR
★ Cig o ffermydd lleol
★ Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
★ Partïon rhwng 40 a 400!
★ Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

G. EVANS
ARBENIGWYR TRWSIO CYRFF CEIR
Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug
(01286) 678030

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
PAT AC EDGAR
SWYDDFA'R POST LLANRUG
Ffôn: (01286) 672422
SWYDDFA'R POST

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon
673574
PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI



GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741
★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ *Porches*
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn: C'fon: 675754
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Rhiannon a holl staff

BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 675175

PRYD I BAWB
Bwffe at bob achlysur
Bwffe blasus o safon ar gyfer
CINIO BUSNES
CINIAWAU ACHLYSURON ARBENNIG
MEGIS BEDYDD NEU BEN-BLWYDD
PRIODAS
TE PRYNHAWN : TE ANGLADDAU
yn eich lleoliad chi neu yn ein tŷ fferm ni
CERID MACKINNON
(01286) 673190
neu (0374) 925502
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb yn y fro

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
FFENESTRI CELTIC **WINDOWS**
Sefydlwyd 1980
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)
NHBC
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI
BRYNGWYN
Glanhau i fusnesau a chartrefi
Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug
(01286) 674416 neu (07880) 847161

Parhad o newyddion Llanrug

MERCHED Y WAWR. Daeth nifer dda o aelodau ynghyd i drydydd cyfarfod y tymor a gynhaliwyd yn yr ysgol gynradd, nos Fawrth 9 Tachwedd. Estynndd y llywydd groeso cynnes i'r aelodau a chroeso arbennig i'n gwestai o Bant Glas, Mrs Nesta Jones, mam Bryn Terfel. Drwy gyfrwng fideo ac atgofion personol cawsom ddilyn gyrfa Bryn o fod yn fachgen ysgol yn canu Cerdd Dant ar lwyfannau eisteddfodau bychain i berfformio prif rannau operâu adnabyddus yn nhai opera enwocaf y byd. Gwelwyd ef yn cystadlu ar amrywiol gystadleuthau mewn sawl prifwyl — yr Urdd, ac ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol. Mrs Megan Roberts, cyn athrawes gerdd Bryn yn ysgol Dyffryn Nantlle a ddiolchoodd i'n gwestai am rannu â ni rai o uchelfannau gyrfa Bryn mewn ffordd mor gartrefol.

Yn ystod ei sgwrs cyfeiriodd ein gwestai at ddyled Bryn i eisteddfodau bychain a braf oedd cael llongyfarch côr y gangen ar ddod yn fuddugol yn Eisteddfod Llanrug. Bu'r eisteddfod bentref, fel eisteddfod bentref Penisarwaun yn hynod llwyddiannus.

Gwnaethpwyd y baned gan Nan, Ann a Pat a diolchwyd iddynt gan Myfanwy, enillydd y raffl oedd Nant Roberts. Atgoffwyd yr aelodau o'r Gymanfa Garolau sydd i'w chynnal yng nghapel Ebeneser, Caernarfon, nos Sul, 5 Rhagfyr. Mynediad drwy raglen - Pris £2.00. Bydd y cinio Nadolig yn y Vaynol Arms, Nant Peris am hanner awr wedi saith nos Fawrth, 14 Rhagfyr. £8 yw'r pris ac Olwen Huws sydd yn casglu'r arian.

PLAID CYMRU. Cafwyd Ffair Nadolig lwyddiannus nos Fercher, 1 Rhagfyr yn yr Ysgol Gynradd, a chafodd Siôn Corn groeso mawr gan y plant. Dyma'r prif enillwyr: Enwi'r Ddol: Carrie Owen. Raffl: 1. Hamper: Paul Rowlinson; 2. Radio: 19 Glanffynnon; 3. Bisgedi: Kate Jones; 4. Lliain Bwrdd: Margaret Jones, Dwyros; 5. Lliain Bwrdd: Megan Roberts, Gregynog; 6 Papur Sgwennu: Eirwen Rowlands; 7. Canhwyllau: Pat Jones, Glanffynnon; 8. Biro: Margaret Jones; 9. Doli: Siân, 35 Nant-y-glyn; 10. Waled: Myfanwy Parry; 11. Camera: Donna Taylor; 12. Ornament: Pat Jones.

DRAENOG

Aeth un o drigolion Bron Eryri, Llanberis, i Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Wedi cael gwahanol brofion roedd yn teimlo'n sychedig. Mor falch oedd o pan ddaeth y nyrs a phaned o de a'i rhoi ar y ddesg o'i flaen. Diolchodd yntau yn gynnes ac yfed y te. Wedyn y sylweddolodd mai'r doctor oedd pia'r baned. Mae'n GaLED peidio chwerthin yntydi?

Ennill yn Haydock — efo Mochyn!

Gyda rasus ceffylau mae rhywun yn cysylltu Haydock Park fel arfer, ond mochyn oedd y rheswm pam y daeth un o drigolion y fro a dwy brif wobr oddi yno yn ystod y mis diwethaf. Ac nid dyma'r tro cyntaf iddo wneud hynny chwaith.

Flwyddyn yn ôl roedd Wavell Roberts o Lanrug yn ennill yn Haydock mewn cystadleuaeth wedi ei threfnu gan y Comisiwn Cig a Da Byw. Eleni, roedd mwy o gigiyddion yn cystadlu, a'r rheini wedi teithio i Haydock o Ganolbarth Lloegr, Glannau Merswy, Swydd Gaerhirfryn, Swydd Efrog, Cumbria a Gogledd Cymru. Roeddent yno i geisio ennill Gwobrau Rhanbarthol am Ragoriaeth mewn Cynhyrchion Cig. Unwaith eto, y Comisiwn Cig a Da Byw oedd yn trefnu'r gystadleuaeth.

Eleni roedd Wavell yn cystadlu mewn tri dosbarth, a daeth o fewn trwch blewyn i ennill Pencampwr y Pencampwyr. Roedd y beirniaid yn marcio'r cynnyrch allan o gant, ac roedd angen 90 neu fwy o farciau i hawlio medal aur. Gyda'i sosej porc traddodiadol enillodd Wavel 96 o farciau. Gyda pastai porc a thwrci enillodd 94 o farciau, a marc yn fyr o fedal aur oedd gyda'i sosej arbenigol — porc a chennin. Fo oedd yr unig gigydd o Gymru i ennill medal aur.

Does ryfedd fod cwsmeriaid yn teithio i Lanrug, nid yn unig o wahanol rannau o Fôn a Gwynedd, ond o nifer o siroedd a threfi yn Lloegr. Felly, os oes angen sosej porc traddodiadol neu bastai porc a thwrci ar gyfer y Nadolig, mae'n bryd rhoi archeb i mewn rwan, cyn i'r cyfan ddiflannu i wahanol barthau o'r wlad.

Eira Mawr 1929

Mae yna lawer o sôn wedi bod am eira mawr 1947, ond roedd eira mawr y bore Llun hwnnw o Chwefror yn 1929 yn llawer gwaeth, gyda lluwchfeydd mawr. Roeddwn yn rhoi dillad ar y lein yn y bore cyn cychwyn i'r ysgol a rheini yn rhewi'n gorcyn cyn gorffen eu pegio.

Yn Pant Cerrig, Waunfawr roeddwn i'n byw ar y pryd ac yn mynd i Ysgol Higher Grade, Caernarfon. Codwn yn y bore tua hanner awr wedi pump i helpu fy chwaer hynaf i yrru fy mrodyr i'r chwarel. Ned a Dic ac Arthur i chwarel Llanberis, Wil a fy nhad i chwarel Cefndu, ac ewythr Wil, brawd fy mam a oedd yn byw gyda ni, i chwarel Gors y Bryniau, Rhosgadfan. Cerdded, cofiwch, dros Allt Goed Maxx yno ac yn ôl ar ôl diwrnod caled o waith. Byddai fy nhad yn gosod lle i ddefaid cadw yn y gaeaf, a byddwn i yn arfer mynd o amgylch y caeau yn y bore cyn mynd i'r ysgol i edrych rhag ofn bod rhai ynghlwm yn y drain a'r mieri, yna newid fy esgidiau a rhedeg heibio Pant Cae Haidd i ddal y bws am ugain munud i naw. Bws Trevor Roberts ar y pryd.

Y dydd Llun yma daeth neges i'r ysgol i ni, blant Waunfawr a Chaeathro, i ddod ar unwaith i'r maes gan fod y bws yn dod i'n cyrchu, a hefyd y bobl oedd yn gweithio yn y siopau a'r offices. Roeddwn wedi stwffio i mewn i waelod lle Mr Pound, y tynnwr lluniau ar y maes, i ddisgwyl y bws. Wel, mi gyrhaeddodd, ac wedi cael gafael ar bawb dyma gychwyn, a bron iawn yn methu dod i fyny heibio Ysbyty Pen Cefn. Dyma gyrraedd llidiard Pant Cae Haidd a fy nhad yn y fan honno yn fy nisgwyl. Wedi bod yn nôl paraffin yn efail Robert Williams, Croesywaen yr oedd, lampau paraffin oedd gennym ni'r amser hynny.

Roedd 'nhad yn dweud na fedren ni ddim mynd adref heibio Ty'n Twll Mawr, fel yr oeddem ni yn arfer, gan fod yr eira wedi cau'r lôn. Felly dyma gychwyn heibio Pant Cae Haidd a Ktie Cae Gwyn (Mrs R. Humphreys, Pengelli ar ôl hynny), fy nghyfnither hefo ni. Ar ôl cyrredd y llidiard oedd yn mynd i Pant Cerrig bu'n rhaid i mi fynd am fy nhŷ fy hun, er mwyn i 'nhad ddanfon Katie adref i Cae Gwyn, a gwneud yn saff ei bod wedi cyrraedd. Roeddwn i bron wedi rhewi pan yn mynd am y tŷ, dan weiddi, 'O, mam bach,' a bron iawn a thorri i grio, ond roeddwn yn falch o gyrraedd i le cynnes a digon o dân a llond bol o lobscows, mi gofiaf yn iawn fel tae'n ddoe.

Yna yr hogiau yn cyrraedd adref fesul un o'r chwarel. Dim ond un oedd ar ôl, Arthur oedd hwnnw. Gadael drws cefn y tŷ yn agored drwy'r nos yn ei ddisgwyl o rywle, ond welson ni mohono fo tan y bore wedyn. Roedd o a Jack, fy nghefnder o Ceunant, wedi cerdded o chwarel Llanberis trwy Pen Cefn a llawer un arall o Waen a Betws Garmon. Roedd Arthur a Jack yn ymadael â'i gilydd yn Croesywaen. Fe ddaeth Arthur cyn belled â Threddafydd, led cae o Pant Cerrig. Mr a Mrs Pascalls, Saeson, oedd yn byw yno ar y pryd ac wedi clywed rhywun yn pasio dyma nhw yn agor y drws a'i gymeryd i mewn. Fe gafodd fwyd a digon o gynhesrwydd a chysgu ar y seti tan y bore. A Jack fy nghefnder, druan bach, wedi mynd i fyny lôn Croesywaen am y Groeslon, ac wedi gorfod rhoi i fyny a throi i mewn i gwt mochyn gwag yn llawn o ddrain a mieri yn Ty'n Cae, lle roedd Nansi Meira yn byw ar y pryd. Rwyf bron yn siŵr mai newydd ddechrau yn y chwarel roedd y ddau, ers rhyw flwyddyn efallai. Roeddynt yn cael gadael yr ysgol yn bedair ar ddeg oed, ond pymtheg oed oeddwn i yn ymadael.

Roeddem ni yn lwcus yn cyrraedd adref, bu rhaid i drên aros ger Llanllyfni drwy'r nos yn llawn o blant a'u tadau a'r giard a'r dreifar yn tanio trwy'r nos i geisio eu cadw yn gynnes, a phobl o fewn cyrraedd i'r trên yn ceisio mynd a thamaid o fwyd a diodydd cynnes iddynt a'r mamau yn poeni a methu gwybod lle i droi wrth weld neb yn cyrraedd adref. Mi fu'r trên yno am wythnos neu ragor, a bu'r ffordd o Gaernarfon i Bwllheli ar gau am tua thair wythnos, a bysus coch Clynnog a Trefor yn methu cyrraedd pen eu taith. Fe fu chwarel Dinorwig ynghau am tua chwe wythnos, mae'n siŵr am fod y tywydd wedi bod mor galed. Mi fyddai'r chwareli yn lleoedd peryglus iawn ar dywydd eira a rhew, a llawer o ddamweiniau yn digwydd, rhai ohonynt yn angheuol.

Nancy Pant Cerrig (Pierce gynt)
Nancy Roberts
6 Bryn y Gof, Caeathro

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYN AFON ENGINEERING LTD

PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob math o waith metel

GWAITH BRYN AFON

LLANRUG, Ffôn: 675523

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

Ysgol Yrru Ofalus

★ Gwasanaeth 7 diwrnod
★ O ddrws i ddrws
★Control Deuol

D **L**

PRITCHARD

43 Glanffynnon, Llanrug
Ffôn: C'fon 675112

Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth

Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng

NGHARTREF

Y Foelas

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Mark, Lucinda a staff y

GLYNTWROG
LLANRUG

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

PHILL A SHIRL
A STAFF

TAFARN
PENBONT
LLANRUG

Lle braf a chwmni difyr dros wyliau'r Nadolig a'r Milflwydd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth

ARFON A CARYS

SIOP CHIPS
TEGFAN
Y Sgwâr
LLANRUG
676128

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU oddi wrth

NEIL, TONY A STAFF

y Siop Sglodion
Pontrhythallt
Llanrug

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

GAREJ HAFOD

PEUGEOT

LLANRUG Ffôn: 673372

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth John Trevor a'i deulu, a'r holl staff

PEUGOT 206

SYFRDANOL! CYFFROUS!

Y CAR I'CH CLUDO I'R MILENIWM NEWYDD

DWYLO I FYNY

Dwylo i fyny os ydych wedi ymddeol neu wedi cael eich diswyddo ond fe hoffech gael mwy allan o fywyd. Os ydych dros 50 oed, mae'r *Retired and Senior Volunteer Programme* (RSVP) yn cynnig cyfle i chi ddechrau bywyd o'r newydd.

Mae RSVP yn chwilio am bobl hŷn i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau er mwyn gwella eu cymunedau lleol. Gallwch ddewis sut a pha bryd yr hoffech helpu ac mae costau allan o boced ar gael. Efallai y byddech yn gweithio ar her amgylcheddol, yn helpu rhywun hefo siopio a thasgau beunyddiol eraill neu yn rhan o dîm sy'n darparu gwasanaeth cludiant cymunedol hanfodol.

Mae RSVP yn cydnabod y profiad a'r sgiliau y mae pobl hŷn yn gallu eu cynnig i gymunedau ac rydym yn croesawu gwirfoddolwyr o bob cefndir, gyda phob math o ddiddordebau a sgiliau. Os ydych wedi ymddeol fel cyfarwyddwr cwmni neu os ydych yn wraig tŷ, yn actif iawn neu'n gaeth i'r tŷ, rydym eich angen i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr i eraill yn eich ardal leol.

Yn arbennig, rydym yn edrych am bobl i drefnu grwpiau bychain o wirfoddolwyr i weithio ar gynlluniau fel gwau dillad i fabanod sydd wedi cael eu geni cyn amser, cynlluniau llythrennedd mewn ysgolion neu unrhyw brosiect bychan sy'n gwneud gwahaniaeth i'ch pentref neu dref. Nid oes angen sgiliau arbennig, dim ond diddordeb mewn pobl ac ychydig o amser sbâr pob wythnos.

Mae'r gwirfoddolwyr i gyd yn elwa o gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp, cyfarfod ffrindiau newydd, dysgu a datblygu sgiliau a diddordebau — i gyd wrth iddynt gael hwyl! Mae'n rhoi teimlad o foddhad i bawb sy'n rhan o'r gwaith wrth iddynt chwarae rhan allweddol yn eu cymunedau unwaith eto.

Faint o amser sydd gennych i'w gynnig a beth bynnag yr hoffech ei wneud, mae gan RSVP 'swydd' yn barod i chi! Ffoniwch Manon Williams ar 01286 676004 neu ysgrifennwch at RSVP, 2 Stryd y Plas, Caernarfon, Gwynedd.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD

BANGOR
(01248)
354646

Y DEWIS

Edrychai Nest i ddyfnder y fflamau a chrwydrodd yn ôl i'r saithdegau cynnar gan fyseddu'r llun. Syrthiodd deigryn ar y gwydr a sychodd ef i ffwrdd â'i llawes. Daeth y diwrnod hwnnw'n ôl mor glir iddi ...

* * *

Cerddodd Nest a Huw i'r ward fudr, heibio i welyau nad oeddent wedi gweld cynfasau glân ers achau. Gorweddai rhai o'r 'pethau bach' diniwed yn noeth yn eu budreddi eu hunain. Siglai eraill yn ôl a blaen yn rhythmig, gan edrych i'r gwagle â llygaid pŵl. Rhain oedd 'plant' yr unben dieflig Ceausescu, a gasglai gyfoeth y wlad i'w goffrau ef a'i wraig, gan adael yr ysgolion a'r ysbytai — os medrech eu galw yn ysbytai, yn amddifad o unrhyw fwynderau sylfaenol. Roedd yr ysbytai hyn yn frith o gwmpas y wlad — fel arfer, ymhell o gyrraedd pobl ac ymhell o lygaid y byd.

'Nest, 'does 'na ddim ymgeledd i'r rhan fwyaf o'r rhain, wsti.'

'Na, Huw, un o'r RHAIN dwi isho ... petawn ond yn achub un ohonyn nhw o'r uffern 'ma ... hogan fach ... hogan fach gaiff fwrlwm o gariad gynnon ni.'

Ochneidiodd yntau. Gwyddai'n rhy dda nad oedd pwrpas trio gwyrdroi Nest unwaith yr oedd wedi gwneud penderfyniad. Daethant at wely bychan lle'r eisteddai merch fach lygatddu o gwmpas ei dwyflwydd.

'Hon dwi isho, Huw,' ac eisteddodd y ddau ar erchwyn ei gwely.

'Mi fydd yn rhaid iddi gâl archwiliad cofia ...'

'Mi wn i hynny, Huw, ond mae 'na rywbeth yn y llygaid 'na sy'n dweud llawer — ac eto'n cuddio mwy.'

Yn dyner cododd Nest hi a'i hanwesu. 'Mari fyddi di o hyn ymlaen ... Huw, tynn y ddoli glwt allan iddi.'

Rhoddodd yntau hi ym mreichiau'r fechan. 'I ti mae hon, Mari fach.'

Cipiodd y plentyn y ddoli, edrych arni a'i gwasgu'n dynn i'w chôl. Edrychodd y ddau ar ei gilydd — mwyaf tebyg nad oedd y ferch fach erioed wedi gweld doli, nag unrhyw degan arall o ran hynny. Bywiogodd y llygaid am ennyd ac yna rhoddodd gusan frysiog ar foch Nest a chuddio ei phen yn swil yn ei chesail. Yn sydyn clywsant sŵn traed o'r tu ôl iddynt

'You like her Mister and Misis Williams — she is healthy, yes?' Nyrs oedd yno a golwg llym arni a'i gwisg mor bygddu â'r muriau o'u cwmpas.

'Yes, we like her very much — what is her name?'

'No name — her family all

gan Mair Humphreys
Llanrug

dead. All children here — families all dead,' atebodd heb unrhyw fath o emosiwn.

Sawl gwaith tybed oedd hi wedi traethu'r geiriau yna, meddyliodd Nest.

'Come with me please — to sign some papers.'

Gorfododd Huw a Nest y nyrs i roi dŵr iddynt i ymolchi'r fechan a gwisgodd Nest hi mewn ffrog goch a choler lês wen arni ... roedd hi'n bictiwr.

* * *

Oedd, roedd Mari mor dlws yn y wisg honno. Ochneidiodd, gan roi'r llun yn ôl yn ei barchedig le ar y piano. Pryd? Pryd y câi ei gweld unwaith eto? Efallai mai camgymeriad oedd ei chymryd o'i chynefin bryd hynny. Cofiodd fel yr oedd wrth ei bodd yn adrodd a chanu yn yr Eisteddfod leol — chwarae'r darnau piano hynny iddi hi a Huw gyda'r nos. Mynd i drybini wrth fynd hefo'i ffrindiau i chwilio am benbyliaid, gan gario potyn a rhwyd simsan ac yna dod yn ôl a'i thraed yn wlyb domen — heb y potyn! Dro arall, edrych trwy'r ffenest arni hi a'i ffrindiau bach yn sglefrio ar eu boliau ar hambwrdd yn yr eira — chwerthin llond bol — a rhedeg i'r tŷ wedyn hefo'i dillad isa'n wlyb ar ôl cael cymaint o sbort! Gwenodd wrth gofio'r lluniau bach a dynnai yn yr ysgol ar achlysuron fel pen-blwydd. Fel unrhyw fam arall, roedd wedi cadw pob un ohonynt. Ond mae plentyn yn tyfu — tyfu i fod yn ddeunaw oed yn llawer rhy fuan.

* * *

'Mam.'

'Dwi'n llnau'r llofftydd ... tyd i fyny.'

Rhedodd Mari i fyny'r grisiau fel ewig ac eistedd yn glowt ar wely ei mam. 'Mam,' petrusodd eiliad. 'Dach chi'n gwbod mod i'n ych caru chi a dad yn fawr iawn on'd ydach ...'

'Yli, Mari bach — dwi wedi bod yn disgwyl hyn ers tipyn rwan — rwt ti isho ffeindio dy wreiddia on'd wyt ti?

'Ydw, mam — dach chi'n deall on'd ydach chi?'

Fe gymrodd bron i ddwy flynedd o lythyru'n ôl a blaen cyn i'r amlen bwysig gyrraedd Llain Wen.

'Dyma fo, Mam — drychwch. Agorwch chi o, plîs.'

'Na, Mari, i ti mae o, ond paid â gobeithio gormod cofia.'

* * *

Gobeithio gormod? Collodd Nest Mari i'w chenedl ei hun o'r foment honno, yn ferch ugain oed. Byddai'n saith ar hugain erbyn hyn meddyliodd. Mor braf fyddai ei gweld. Collai gwmni Huw, oedd wedi ei gadael am gymar arall ers blynyddoedd bellach. Straen, medda fo, o geisio trin merch ifanc a fyddai ar rai adegau yn anystywallt ac anodd i'w thrin. Byddai byth a beunydd yn dweud wrthi 'rwt ti'n sbwylio'r hogan ma'n rhacs!' Cododd Nest i wneud un baned arall o'r paneidiau a yfai yn ystod y diwrnod — thalai hi ddim i hel meddyliau, ceryddodd ei hun. Sylwodd bod amlen wedi cyrraedd iddi a brysiodd i'w chodi.

Stamp post BUCAREST! Rhoddodd ei chalon lam a theimlodd yn well drwyddi — ond na, llawysgrifen hollol ddieithr oedd hon ac ofnai'r gwaethaf.

* * *

'Sacha, Sacha, nei di plîs beidio rhedeg yn ôl a blaen bob munud,' ceryddodd y gŵr ifanc ei ferch fach nwyfus a redai o gwmpas y trên.

'Lle mae tŷ nain, dadi?'

'Tyd rwan, rydan ni bron â chyrraedd.'

Teimlai Ion chwithdod mawr nad tri oedd yn ymweld â Nest wedi'r holl flynyddoedd. Cyrhaeddodd y tacsi bentref Glanmor a chychwynnodd y ddau i gyfeiriad Llain Wen — y gŵr ifanc yn drwm ei gam a'i galon ar dorri, ond sgipiai Sacha wrth ei ochr gan godi llaw ar ddynes a safai wrth ddrws y ffrynt. Rhedodd ati.

'Nain, Nain, Sarbatori Fericite (Nadolig Llawen),' meddai gan wthio anrheg fechan yn drwsgl i ddwylo Nest.

'Mari ... Mari.'

'Naci nain, Sacha ydw i ...' torrodd y fechan ar ei thraws.

'Wel, ia siwr iawn — ma dy Nain yn mynd yn hen, wsti,' ac wrth edrych i'r wyneb tlws a'r llygaid tywyll, daeth y diwrnod bythgofiadwy hwnnw'n ôl iddi. Rhedai'r dagrau'n rhydd erbyn hyn ...

'Rwt ti mor debyg ... mor debyg ...'

Ar Drothwy Canrif Newydd

Ar drothwy canrif newydd,
A dyn yn deyrn o hyd;
Ei fys o ar y botwm
I lwyr ddinistrio'r byd.

Croeshoelio'r Iesu eto
'Wna dyn â'i enaid drwg,
A gollwng bom atomig
Drwy ladd a chlec, a mwg.

Gweddïo wnawn i gyd
Ac ymbil gweddi daer,
Gan gredu yn yr Iesu
'A chlod i Fab y Saer'.

Os oedd hi'n flwyddyn anodd
Wrth ddirwyn 'nawr i ben,
Wrth ddilyn ffordd yr Iesu
Fe fydd hi'n Nefoedd Wen.

Ceryddwn bob rhagrithiwr
Ac anghredadyn ffol,
Wrth gredu yn yr Iesu
Mae'n siŵr o ddyn yn ôl.

Daw dydd yr Armagedon,
Ac orig dydd y Farn
Ar holl ddynoliaeth gyfan
A bwystfil pedwar carn.

John V. Morris
Rhianfa, Clwt-y-bont

O dudalen 1

ddigon o sioe, ac roedd ffenestri y siopau yn ddigon i ddenu unrhyw un i wario!

Bore dydd Gwener roeddem yn ffodus iawn o gael y cyfle i ymweld â Track 2000, sef busnes cymunedol yn casglu dodrefn gan aelodau'r cyhoedd ar gyfer pobl mewn angen - tebyg i'n Gwasanaeth Ailgylchu ond ar raddfa llawer mwy. Cawsom groeso godidog gan redwyr y cwmni, Tony a Terry. Roedd y cynllun yn agoriad llygad gyda gweithdy ailgylchu pren a gweithdy atgyweirio cyfrifiaduron. Roeddynt hyd yn yn oed yn defnyddio drymiau peiriannau golchi ar gyfer gwneud meinciau ac offer addurniadol. Roeddem hefyd wedi ein syfrdanu gan y ffwrnais paleti pren a ddefnyddiwyd ar gyfer cynhesu'r adeilad, dywedwyd y gallai gynhesu hanner Caerdydd petai rhaid.

Ein hymweliad nesaf oedd y Cynulliad ym Mae Caerdydd. Daeth Ieuan Wyn Jones yno i'n croesawu a chawsom daith o amgylch yr adeilad. Roedd waliau yr adeilad wedi eu haddurno â nifer o luniau diddorol o ardaloedd ar draws Cymru. Gwelsom hefyd fodel o'r adeilad newydd wedi ei wneud o garreg, llechen a gwydr — edrychwn ymlaen i ddod eto ar gyfer ei weld.

Yn y prynhawn cafodd y grŵp gyfle i wahanu ac ymweld â safleoedd o ddiddordeb. Aeth rhai i Neuadd y Dref, lle roedd dawns Nadolig yn cael ei threfnu ar gyfer y Swyddfa Gymreig. Aeth eraill i'r Amgueddfa Genedlaethol lle roedd nifer o bethau diddorol yn cynnwys adran dda ar fywyd gwyllt. Cafodd rhai fodd i fyw yn 'Ail-Greu', sef prosiect yn gwerthu deunyddiau gwastraff o ffatrioedd ar gyfer gwaith crefftau — os byddwch yn ymweld â siop grefftau Antur Waunfawr byddwch yn siŵr o weld rhai o'r deunyddiau wedi eu ail-ddefnyddio. Aeth eraill i ganolfan ailgylchu Caerdydd a safle tirlenwi y ddinas.

Bore dydd Sadwrn, a ninnau wedi cael dau ddiwrnod prysur dros ben cawsom amser i wneud un ymweliad ag adeilad anferthol a oedd i'w weld o bob cyfeiriad yng Nghaerdydd, Stadiwm y Mileniwm. Cawsom ddefnyddio yr un mynediad â'r chwaraewyr, yn ogystal ag ymweld ag ystafell newid timau i ffwrdd (yn anffodus ni chawsom fynd i ystafell newid tîm Cymru oherwydd fod y tîm yno ar y pryd yn cael ffisiotherapi). Cawsom gyfle sydyn i wneud siopa funud olaf er mwyn cael rhywbeth bach i gofio am y trip, cyn cychwyn yn ôl am y gogledd am adref.

Idwal Williams yn cyflwyno'r tedi i Robin Owen oedd wedi ei ennill yn raffl Sefydliad Coffa Llanrug.

Cynrychioli Gwynedd yn Thailand

Ddechrau Ionawr bydd Iwan Griffith o Lanrug yn cychwyn ar chwe mis o waith hollol wahanol ac yn rhoi cychwyn i'r milflwyddiant na fydd yn debygol o'i anghofio tra bydd byw. Dewiswyd Iwan i gynrychioli Gwynedd mewn Prosiect Cyfnewid Gwirfoddol Rhyngwladol, gan ddechrau ar ei waith yn Penrith, Cumbria cyn symud dramor i wlad Thailand.

Mae'r cyfnewid yn cael ei drefnu ar y cyd rhwng Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru a'r Gwasanaeth Gwirfoddol Tramor (VSO). Prif nôd y cynllun yw cael pobl ifanc — rhwng 17 a 25 oed — i gydweithio â'i gilydd er mwyn creu gwell cymdeithas, beth bynnag fo'u hiaith, eu crefydd neu eu diwylliant.

Mae Iwan eisoes wedi treulio peth amser yn Birmingham yn dod i adnabod y bobl ifanc fydd ar yr un cynllun ag ef, ac yn derbyn hyfforddiant sylfaenol yn y math o fywyd fydd yn ei wynebu am y chwe mis. Yn Penrith, bydd yn gweithio fel rhan o dîm yn cynnwys pobl ifanc o bob rhan o Brydain a rhai o Thailand hefyd. Bydd yn byw gyda theuluoedd o'r ardal ac yn gweithio ar brosiectau fydd yn helpu'r gymdeithas.

Ar ddechrau Ebrill bydd ail ran yr antur fawr yn cychwyn, a'r daith i Thailand. Yno, does wybod beth fydd yn wynebu'r tîm, ond byddant erbyn hynny wedi dod i adnabod ei gilydd yn dda ac yn gallu cydweithio er lles y cymunedau yn Thailand.

Fel rhan o ymrwymiad Iwan i'r Prosiect, bydd yn rhaid iddo gasglu £500 tuag at y fenter. Byddai'n ddiolchgar o unrhyw gyfraniad gan fusnesau, cymdeithasau neu unigolion o'r fro a fyddai'n barod i'w noddi yn y gwaith. Gellir anfon cyfraniadau neu gael mwy o wybodaeth am y cynllun gan Iwan o Hawddamor, Llanrug. (Ffôn: 01286 674896).

I Gari Wyn

ar ôl iddo bwrcasu darn o ddilledyn am arian go sylweddol er budd Cronfa Eisteddfod 2001.

Mae rhai â lot o arian,
I eraill mae'n go dynn,
Ond yn y dosbarth cyntaf,
Heb os, mae Gari Wyn.

Uwch potel wîn un noson
'Doedd hynny ddim yn stynt,
Fe ffoniodd Gari Ruthun
I brynu trons *'y front.*

Fe'i clywais ar y radio
Yn sôn, rhwng ambell reg,
Fel prynodd drons Rhys Ifans
Am bedwar cant dau ddeg.

Ac i Fodurdy Bethel
Daw cannoedd - rhai yn swil,
I lygad-rythu'n gegrwth
Ar seren Notting Hill.

A chofiwch, Fwrdd yr Orsedd,
Fe wariodd heb gybôl,
Rhowch Wisg Wen dros ei
'sgwyddau,
Caiff drons dros ei ben ôl.

Beth am gynyddu'r eiddo,
Cael cymar at y trons?
Be' well mewn ffrâm na brasiyr
Ms Catherine Zeta Jôns?

GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON
Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr
STRYD FAWR, LLANBERIS 870840
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

ANGEN CODI CLODDIAU O UNRHYW FATH A FFENSIO?
Cysylltwch ag
R. E. PRITCHARD
PARC, CARNEDDI, BETHESDA
(01248) 601216
WALIO A FFENSIO
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
SGIPIAU ANFRAG
(ROBIN THOMAS)
★ DOMESTIG A MASNACHOL
★ SGIPIAU 6, 8 a 10 LLATH
★ TRWYDDED LAWN I GLUDO GWASTRAFF
★ GWASANAETH 7 DIWRNOD
HEFYD YN DELIO
MEWN METAL SGRAP
METALAU HAEARN A DI-HAEARN

Ffôn: **870753** neu **660118**
Symudol: **0498 636559**
TAN Y FOEL, GALLT Y FOEL, DEINIOLEN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
CEIR ADAM

HURIO PREIFAT YN UNIG
LLEOL NEU HIRBELL
LLANBERIS
871539

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

CYDYMDEIMLAD. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â Mr Eryl Davies a'r teulu ym Mryn Madog yn eu profedigaeth o golli tad a thaid ym marwolaeth ddiweddar Mr Oswald Davies, Rhyd y Delyn, Llanrug.

PRIODAS. Dydd Sadwrn, 4 Rhagfyr, yng Nghapel Coch, Llanberis priodwyd Neil Roberts, mab Alwyn a Shirley Roberts, 1 Minffordd â Cheryl Williams o Lanberis. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty Brenhinol Fictoria a bydd y pâr priod yn ymgartrefu maes o law yn Fferm Penllyn.

Dymuna Neil a Cheryl ddiolch i bawb am bob caredigrwydd ar achlysur eu priodas.

DAMWAIN. Roedd yn ofidus deall am y ddamwain angeuol a ddigwyddodd ddydd Sadwrn, 4 Rhagfyr pryd y bu gwrthdrawiad rhwng modur a lori ar gwr y pentref, ger mynedfa tai Minffordd a lôn Cytir. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â theulu gyrrwr y modur, sef Nia Green o Dddeiniolen, a fu farw yn y ddamwain ac â'i pherthnasau ym Mrynrefail, sef teulu Mrs Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian a theulu Llwyncoed Bach. Ymhlith nifer o ddamweiniau ar y rhan beryglus hon o'r ffordd B4547, dyma'r drydedd ddamwain yn ystod y blynyddoedd diwethaf lle mae teithwyr wedi colli eu bywydau.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos Lun, 13 Rhagfyr mwynhaodd aelodau'r gangen eu cinio Nadolig blynyddol yng Ngwesty'r Vaynol Arms, Nant Peris. Bydd cyfarfod cyntaf blwyddyn 2000 yn y Festri nos Lun, 17 Ionawr a bydd y noson yng ngofal Pat Jones ac Anita Long yn arddangos y grefft o baentio ar sidan.

EGLWYS BRESBYTERAIDD BRYNREFAIL. Dydd Sadwrn, 27 Tachwedd aeth nifer o aelodau a phlant yr Ysgol Sul i Theatr Gwynedd i weld y ffilm 'Gŵr y Gwyrthiau'. Bu gweld y ffilm hon a oedd wedi ei hanimeiddio yn brofiad unigryw a llawer o'i chynnwys wedi gadael argraff nodedig ar bawb oedd yn bresennol.

Mae cofion yr Eglwys yn mynd at bawb yn ystod tymor Gŵyl y Geni, yn arbennig at y rhai na fu yn dda eu hiechyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Nadolig Dedwydd a dymuniadau gorau ar gyfer y Mileniwm Newydd i bob un ohonoch.

Trefn yr oedfaon ar gyfer Ionawr 2000 fydd:

Ion 2: Parch H Gwynfa Roberts, Llanwnda am 2.00;

Ion 9: Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon am 2.00;

Ion 16: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon am 5.30;

Ion 23: Mr Alun Rowlands, Bangor am 10.00

Ion 30: Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel am 5.30.

CLWB ERYRI

Yn y cyfarfod ar nos Wener, 3 Rhagfyr, yng Ngwesty'r Fictoria, rhoddodd y llywydd, John Emlyn Jones, groeso cynnes yn ôl i'r rhengoedd i'r Dr Dan Hughes a fu'n wael am gyfnod yn ddiweddar.

Hefyd cydymdeimlwyd â Huw Price Hughes a gollodd ei fam fyr amser yn ôl. Dymunwyd adferiad llwyr a buan i'w lawn iechyd i Bert Parry oedd yn yr ysbyty wedi triniaeth lawfeddygol a mynegwyd pleser yr aelodau o weld John Hugh Hughes yntau wedi mendio at gerdded ei filltiroedd eto.

Llongyfarchwyd dau aelod ar eu campau llenyddol sef John Roberts Williams ar gyhoeddi cyfrol arall yn ei ddilyniant, y tro hwn dan y teitl 'Dal i Edrych Dros Fy Sbectol', a J. Norman Davies a enillodd gadeiriau eisteddfodol iddo'i hun yn Nyffryn Ogwen, Treuddyn a Llanaelhaearn, a hynny mewn llai na pythefnos.

Cadeirydd y noson oedd Evan Parry a chyflwynodd y siaradwr, y Dr Gwyn Williams, trwy roi inni amlinelliad o'i yrfa a'i amryw ddiddordebau. Cawsom sgwrs ddiddorol ac ysgolheigaidd ganddo ar ddulliau y gwahanol genhedloedd a chrefyddau o ddyddiau cynnar diwylliant yr Aifft o sut i fesur amser a chrisialu'r cwbl mewn calendr, oedd yn gymharol synhwyrol a dibynadwy. Bu hyn yn broblem o'r cychwyn cyntaf ac ni allodd crebwyll meddyliau gorau yr Ymerodraeth Rufeinig a'r grefydd Gristnogol wedyn ei datrys yn hollol foddhaol hyd nes i linynnau mesur a dyfeisiadau soffistigedig gwyddonwyr a mathemategwyr roi trefn ar bethau, a hynny'n gymharol ddiweddar. Diolchwyd i'r siaradwr gan John Roberts Williams. Wrth gloi, dymunodd y llywydd orau'r Ŵyl a'r Mileniwm i bawb cyn cyhoeddi bod cyfarfod nesaf y Clwb ar nos Wener, 7 Ionawr pryd y ceir sgwrs gan y Dr Eurwyn Lloyd Evans gyda John Roberts Williams yn y gadair.



Â'i gi bach yr aeth Sel Coed,
Ond fe'i brathwyd yn ei droed;
Â'i gi bach yr aeth Sel adra —
Ci mawr diarth wedi ei fwyta.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

ADREF O'R YSBYTY. Da deall for Mrs Sally Brennan, Afallon wedi dod adref o Ysbyty Gwynedd ar ôl llawdriniaeth. Hyderwn y bydd iddi hi a John ei gŵr, sydd hefyd yn cwyno, gael adferiad llwyr a buan. Anfonwn ein cofion fel ardal at y ddau.

LLONGYFARCHIADAU. Anfonwn ein llongyfarchion i Delyth a Clive, 5 Maes Eilian ar enedigaeth eu mab Kian. Pob bendith iddynt i'r dyfodol.

PROFEDIGAETH. Drwg oedd gennym ddeall am farwolaeth Menna Perkins, fel yr oeddym yn ei hadnabod gynt. Roedd wedi bod yn wael am rai bynyddoedd. Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs Dilys Williams, Bro Elidir gynt, a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Yr ydym yn deall hefyd fod Mrs Dilys Williams wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ond wedi dod adref erbyn hyn. Hyderwn y bydd iddi gael llwyr iachad. Brysiwch wella, Dilys.

DIOLCH. Dymuna Mr a Mrs John Brennan, 'Afallon' ddiolch o galon i'w cymdogion a'u ffrindiau am y cardiau, blodau a'r anrhegion a fu iddi dderbyn tra yn yr Ysbyty. Hefyd y maent am ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn yr ardal. Mawr ddiolch i bawb.

CYMDEITHAS UNDEBOL LENYDDOL DINORWIG. Ar nos lau, 25 Tachwedd yr oedd y noson yng ngofal y Canon Idris Thomas, Trefor. Mae Idris yn fab hynaf i Mrs Alice Thomas a'r diweddar Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir, wrth gwrs. Cafwyd noson hynod o ddiddorol yn ei gwmni. Cawsom sleidiau yn dangos lleoliadau arbennig yn gysylltiedig â damwain Ysgol Sul St Mair a ddigwyddodd ym Mhwllheli dros ganrif yn ôl. Hefyd cawsm weld lluniau o'r chwarel a hefyd rhai o'i blwyf yng Nghlynnog a Threfor. Llywydd y noson oedd Mrs Alice Griffith a thalwyd y diolchiadau gan Mrs Jane Jones. Braf oedd cael estyn croeso i'r Gymdeithas i gyn blant yr ardal, sef y Parch William John Lewis a'i wraig ac hefyd ei chwaer, Eluned. Diolch iddynt am ddod. Cafwyd ychydig eiriau gan Mr Lewis ac amlwg oedd ei fod yntau, fel ninnau, wedi mwynhau ei hun.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 16 Rhagfyr, sef noson o Garolau dan ofal Mrs Olwen Bryn Hughes, gyda Mrs Margaret Cynfi Griffith wrth y piano. Cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd fydd Cyfarfod Gweddi ddechrau'r flwyddyn ar 6 Ionawr, dan ofal Eglwys M.C.

GAIR O DDIOLCH. Ar ddiwedd blwyddyn a diwedd canrif carwn ddiolch i bawb a fu o gymorth i mi yn ystod y flwyddyn ac am lawer gair caredig a gefais gan rai o fro'r Eco. Hefyd tros y teulu a minnau carem ddiolch o galon am yr holl garedigrwydd y mae Sara wedi ei dderbyn o bentrefi'r fro. Mae Sara wedi mynd trwy lawer yn ystod y flwyddyn ond er hyn i gyd mae yn dal i wenu, ac yn ddiolchgar iawn i bawb. Diolch hefyd gan Ceri, ei hefaill. Carwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Diolch o galon.

NADOLIG LLAWEN a
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth
WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo
Ffôn: (01286) 870674
GWASANAETH GARDDIO PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

Ar ôl eich Nadolig Llawen!
SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu
Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol
CREDWCH! HOLWCH!
ffonlwch (01286) 830609
— TENEUWCH —
SLIM CHWIM MEWN DIM!

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

PLAS PENGWAITH.
Tachwedd 5: Mwynhawyd Noson Tân Gwyllt gan y preswylwyr yn y Lolfa yn gwylio'r tân gwyllt ar y lawnt. Cafwyd *hot dogs* a *beefburgers*. Gyda diolch i Mrs L Williams a'r staff ar y noson.
Tachwedd 15: Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Côr Clychau'r Grug.
Rhagfyr 15: Fe fyddwn yn cael ein Cinio Nadolig yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis.
DIOLCH yn fawr i Mr a Mrs B. Thomas am eu rhodd i'r Cartref.
YN YR YSBYTY ar hyn o bryd mae Ms Olwen Price a Mrs A Morris. Gan ddymuno gwellhad buan iddynt.
DATHLU eu pen-blwydd ym mis Ionawr bydd Mr D.J. Thomas, Ms M. Miller, Mrs M. Lewis. Pen-blwydd hapus iawn iddynt oll.
MARWOLAETH. Trist yw cyhoeddi marwolaeth Mrs N Pritchard, Dôl Afon, Cwm-y-glo gynt a fu gyda ni ym Mhlas Pengwaith am gyfnod hapus iawn. Bu farw'n dawel yn Ysbyty Eryri, ddydd Mercher 1 Rhagfyr. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu oll yn eu profedigaeth.
DIOLCH. Carwn ddiolch yn fawr i Ysgol Dolbadarn, Llanberis ac Ysgol Brynrefail, Llanrug am eu rhodd i'r Cartref ar ôl dathlu y Diolchgarwch ac Eisteddfod yr ysgol. Hefyd hoffai'r trigolion ddiolch i aelodau Eglwys Llandinorwig, Deiniolen am y rhoddion a dderbyniwyd gan rai o gyn-breswylwyr y pentref a chyn-aelodau'r eglwys yno.
FFAIR NADOLIG. Yn ein Ffair Nadolig ar 11 Rhagfyr bydd Siôn Corn gyda ni yn y Grotto yn dosbarthu anrhegion. Croeso cynnes i bawb a diolch yn fawr am y gefnogaeth.
DIOLCH ARBENNIG. Hoffai swyddogion, staff a thrigolion y Cartref ddatgan eu diolch i Mr Myrddin Pritchard, Mr Gwynfor Jones a Mrs Jane Jones am eu blynyddoedd o wasanaeth i'r Cyngor yn trosglwyddo ein preswylwyr a Gofal Dydd i'r Cartref. Diolch am eu gofal a'u caredigrwydd arbennig. Roeddent yn diweddu eu gwasanaeth ddiwedd Hydref. Pob lwc iddynt i'r dyfodol.

POB LWC. Pleser ydi cyhoeddi hefyd bod Mrs Annie Williams yn gweithio'n galed iawn ar hyn o bryd i wneud ei NVQ mewn Coginio. Dymunwn bob lwc iddi hithau hefyd.
DIOLCH. Dymuna Mrs Iona JOnes, 40 Stryd Goodman ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd aqr ei phen-blwydd yn 60 oed yn ddiweddar.
CYFARCHION. Dymuna'r Cynghorydd Trefor Edwards Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i blwyfolion Llanberis a Nant Peris, gyda diolch am bob cefnogaeth.
PRIODAS. Ar 8 Hydref yng Nghaer, priododd Michael, mab Derek a Pat Randall, Porthaethwy ag Einir, merch Eurwyn ac Eiddwen Thomas, 9 Stryd y Ffynnon, Llanberis. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.

DYMUNA Michael ac Einir Randall, Bangor ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar eu priodas.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS

Mae'r Côr yn dymuno Nadolig Llawen iawn i holl ddarllenwyr yr Eco a dymuniadau gorau i'r Flwyddyn 2000. Diolch yn fawr i bawb am bob cymorth.

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Grŵp Rhifedd Haf, 1999
Daniel McGuigan, Emma Lovell, Ffion Haf Jones, Michelle Jones a Mathew John Humphreys. Hefyd Dionne Davies, sydd ddim yn y llun.

NEWYDDION Y SEINDORF. Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ennill y wobr gyntaf yn Nosbarth 2, Pencampwriaeth Bandiau Prês Gogledd Cymru yn Llandudno ar 4 Rhagfyr.
CLWB 200 Y SEINDORF. Enillwyr Tachwedd. £25: Eilir Williams, 1 Pentre Helen; £15: Deanna Price, Tros Waun, Pentir; £10: Carol Jones, 3 Rhes Cynfi.
Enillwyr Rhagfyr. £25: Margaret Williams, Rhiwen; £15: Sian Sullens, Bethesda; £10: M.W. Jones, Ceris.
PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb 100 Mis Rhagfyr. £10 Mr R.J. Williams, Tyddyn Badin, Pentir; £5: Mrs Janet Bingham, 28 Rhydfadog, Deiniolen.
CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Iorwerth, Peri a'r teulu, 5 Hafod Oleu Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion a ffrindiau oll.
DIOLCH. Dymuna Mrs Elizabeth Griffith, 15 Deiniol Road ddiolch yn fawr iawn i'w ffrindiau a'i theulu am y caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Arwel Williams a enillodd Gwpan y Cornet Gorau ym Mhencampwriaeth Bandiau Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Llandudno yn ddiweddar.

Siop Nwyddau Tŷ a Gardd
FORMAG
41A STRYD FAWR
LLANBERIS Ffôn: 872501

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH IFOR A MARGARET

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dim bysus dydd Nadolig a Gŵyl San Steffan, 25 a 26 Rhagfyr.
Gwasanaeth Sul 27 a 28 Rhagfyr.
Dim bysus 31 Rhagfyr ac 1 Ionawr. Gwasanaeth Sul 2 a 3 Ionawr

Pen-blwydd Priodas Aur



Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i mam a dad (nain a taid), Mr a Mrs Huw a Rita Morris, sydd yn dathlu eu Priodas Aur ar 14 Ionawr, 2000 oddi wrth Bryn, Nerys, Deirdre a'u teuluoedd.

Daeth Siôn Corn heibio'r fro eleni eto. Dyma fo yn Ffair Plaid Cymru Llanrug.

Gwasanaeth Carolau

Ysgol Brynrefail
yn
Eglwys Sant Padarn Llanberis
am 7.30 o'r gloch
Nos Lun, Rhagfyr 20

Casgliad at Cymorth Cristnogol

PENISARWAUN

CYFARCHION NADOLIG. Ni fydd Nancy Jones, Meillionydd, yn anfon cardiau Nadolig eleni ond dymuna Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ei ffrindiau a'i chymdogion.

JIWBILI 2000

Cynhelir cyfarfod 'Clymblaid Jiwbilî Bangor a'r Cylch' nos Lun, 10 Ionawr, yng Nghanolfan yr Esgobaeth, Bangor am 7.30pm. Byddir yn trafod mwy o syniadau ar gyfer yr ymgyrch. Croeso i BAWB yno.

RHODDION

£10: Mr a Mrs Jim Munro, Cartref y Borth, Ffordd Betws, Llanrwst;
£5: Bryn, Nerys a Deirdre a'u teuluoedd; Iorwerth, Peri a'r teulu, 5 Hafod Oleu, Deiniolen; Y Cynghorydd Trefor Edwards, Llanberis;
£2: Di-enw, Llanberis; Mrs Iona Jones, Llanberis.

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

DYDDIADUR RHAGFYR

19. Sul	**DEINIOLEN:** Gwasanaeth Plant yr Ysgol Sul am 10.00 yn Ebeneser. Parti Nadolig yr Ysgol Sul am 2.00
21. Maw	**LLANBERIS:** Parti Nadolig Ysgol Sul Capel Coch yn y Festri am 6.00.
22. Mer	**PENISARWAUN:** Parti Nadolig yr Ysgolion Sul yn Neuadd Eglwys Santes Helen am 2.30.
23. Iau	**CAEATHRO:** Parti Nadolig y plant yng Nghanolfan Bontnewydd.
24. Gwe	**DEINIOLEN:** Oedfa Noswyl Nadolig am 11.30 yr hwyr.
25. Sad	**LLANBERIS:** Oedfa Bore Nadolig Capel Coch am 10.00.
31. Gwe	**PENISARWAUN:** Gwylnos Litani yn yr Eglwys am 11.30 yr hwyr.

Ionawr 2000

2. Sul	**LLANBERIS:** Gorymdaith ac Oedfa'r Milflwyddiant. Gorymdaith i gychwyn am 5 o'r gloch ac oedfa yn Eglwys Sant Padarn am 5.30.
4. Maw	**LLANBERIS:** Cyfarfod Gweddi dan nawdd Y Gymdeithas Undebol yn Festri Capel Coch am 2.00.
6. Iau	**DINORWIG:** Cyfarfod Gweddi dan nawdd Y Gymdeithas Undebol.
10. Llun	**LLANBERIS:** Y Gymdeithas Undebol yn Capel Coch am 2.00. Sgwrs gan Miss Haf Morris.
	DEINIOLEN: Cyngor Eglwysig. Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yn Libanus am 7.00.
17. Llun	**BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched — Arddangosfa paentio ar sidan.
	DEINIOLEN: Merched y Wawr. Sleidiau gan Miss Moeller.
24. Llun	**DEINIOLEN:** Y Gymdeithas.
27. Iau	**WAUNFAWR:** Plygu'r Eco yn Festri Croesywaun.

O dudalen 1

Aelodau'r Pwyllgor yw: Bob Thomas, Dafydd Pritchard, Dafydd Whiteside Thomas, Goronwy Hughes, Gwyndaf Hughes, Idwal Williams, Jane Jones, Margaret Jones (Cae Rhos), Mr Jones, Caernarfon, Richard Jones, Selwyn Jones, Siân Wiliams.

Am fanylion pellach, cysylltwch â Goronwy Hughes ar (01286) 674839 neu Eirian James ar (01286) 675955.

SAIN (RECORDIAU) Cyf. ■ CANOLFAN SAIN ■ LLANDWROG ■ CAERNARFON ■ GWYNEDD ■ LL54 5TG
Ffôn/Tel 01286 831.111 Ffacs/Fax 01286 831.497 e-bost/e-mail music@sain.wales.com W: http://www.sain.wales.com

SAIN (FIDEO) ■ CYHOEDDIADAU SAIN ■ STIWDIO SAIN ■ CRAI ■ TRYFAN ■ CAMBRIAN ■ WELSH TELDISC

Casetiau/CD' a Fideos gan SAIN-ta Clos

JOHN EIFION CD - £11.99/Caset - £6.99
Llais arbennig y tenor o Hendre Cennin ac enillydd Rhuban Glas '99. 12 cân yn cynnwys carolau, emynau, 'Llanrwst' a chaneuon Robat Arwyn ac Andrew Lloyd Webber. Perfformiadau gan Siân Gibson, Côr Meibion Caernarfon ac Annette Bryn Parri.

STEVE EAVES ac ELWYN WILLIAMS
Barddoniaeth teimladwy a cherddoriaeth blŵs arbennig. Gwyn Jones - drymiau; Jaci Williams - llais cefndir. 'Iawn' ydi'r teitl - 'Da iawn' ydi'r ymateb ...

DYLAN A NEIL - CD - £4.99
Caset - £3.45
'Y Flwyddyn Dwy Fil' - 5 o ganeuon canu gwlad gan y ddeuawd o'r Felinheli. Caneuon gwreiddiol ac un fersiwn Gymraeg gan Boyzone! Dawnsiwch i sain y tad a'r mab!

FIDEOS - Teletubbies Cymraeg, Fideo Mawr y Plant, C'mon Midffild 10, John ac Alun a
CEFN GWLAD ERYRI - Dai Jones yn eich ardal chi!

A mwy ...
Côr Godre'r Aran 'Cwlwm Aur' / Timothy Evans 'Yr Hudol Awr' / Barddoniaeth R.S. Thomas / Ysgol Glanaethwy

O'ch siop leol, neu ffoniwch Sain - 01286 831111 neu ffacs 831497

CHWARAEON

Roeddem ni ar y brig weithiau!

Er fod llawer yn cyfeirio ataf fel 'hen' chwaraewr, dim ond hanner y ganrif bresennol y gallaf gofio. Yn Nyffryn Ogwen y mae fy ngwreiddiau, ond yr wyf wedi ymgartrefu ym Methel ers 23 o flynyddoedd erbyn hyn. Edrychais yn ôl dros hanes pêl-droed y ganrif yn Nyffryn Peris yn ddiweddar. Mae cronicl gwych ohono yn llyfr Arwel, wrth gwrs. Fy meibl i, ar y llaw arall, oedd Llawlyfr Cymdeithas Pêl-droed yr Arfordir. Daeth llu o dlysau y cynghreiriau lleol i'r fro dros y ganrif ond meddwl oeddwn i a oedd cyfnodau pan oedd timau Dyffryn Peris ar y brig ymhlith timau'r Gogledd. Ni ddaeth unrhyw gwpan genedlaethol i'r fro gan un o dimau'r oedolion ond daeth Cwpan Pantyfedwen i Lanberis a Chwpan Cyril Rogers i dîm Ysgol Brynrefail. Wnes i ddim chwarae yn erbyn Deiniolen na'r Waunfawr — dyma'r ddau newydd ddyfodiaid i fywyd cynghreiriol y fro. (Rhaid nodi fod timau wedi bod yn Ebeneser yn y blynyddoedd cynnar). Yn sicr, yn y 60au a'r 70au gemau caled oedd yn wynebu unrhyw dimau fentrai i faes Ffordd Padarn neu Eithin Duon, gyda'i 'slôp' enwog. Timau o chwaraewyr profiadol oeddynt — gyda thipyn o grefft a'r ysbryd tîm hanfodol yna oedd yn eu gwneud yn anodd i'w curo. Cofiaf ennill yn Llanbêr gyda Llechid, a hefyd gyda thîm y Normal mewn gêm cwpan (Cwil Bach yn cael cerdyn coch). Dyma ddwy o'r gemau caletaf ond gorau i mi chwarae ynddynt. Yna, gêm y ganrif yn sicr yn yr ardal yma pan gurodd Llechid y Darans o 1-0 i gipio Cynghrair Caernarfon o flaen torf o ryw 800. Pe buasai Llanbêr wedi ennill buasent wedi cael y gamp lawn — pob cwpan, y gynghrair, cwpan Amatur a lau y Gogledd. Yn sicr, dyma un o dimau gorau Llanberis erioed.

Llanberis yw tîm hynaf yr ardal. Daeth y Cwpan lau i'r pentref ar chwe achlysur — 34/5, 35/6, 63/4, 64/5 a 65/6. Clwstwr diddorol yntê? Roedd angen y braso fesul galwyni yn y 60au gan i Gwpan Amatur y Gogledd ddod i'r Darans yn 64/5 a 67/8. Dyma gyfnod y trip enwog i'r Sowth! a Chaerleon yn crafu ennill. Enillodd tîm Iwan Williams yr Intermediate Cup yn 79/80 wedi i'r Darans symud i fyny o'r gynghrair lleol. Yr un ystadegyn diddorol yw fod Cwpan Ieuenctid y Gogledd wedi dod i Lanberis yn 1981/82. Pam mae chwaraewyr da y fro yn chwarae i Gaernarfon Youth yn y cwpan yma erbyn hyn? Beth am dîm y fro i gystadlu?

Diwedd y 70au oedd oes aur Llanrug pan ddaeth y Junior Cup yno yn 77/8 a 78/9. Roedd hwn yn dipyn o dîm hefyd, ac er profi ambell lwyddiant yng Nghynghrair Gwynedd, sefyll yn ei unfan y bu'r clwb yn ddiweddar.

Tîm cymharol newydd yw Deiniolen, ond os ennill rhywbeth, gwneud hynny mewn ffordd arbennig! Ie, Deiniolen enillodd y Cwpan lau yn 1993/4, blwyddyn canmlwyddiant y Gymdeithas.

Amser a ddengys os bydd y Waunfawr yn dringo'r ysgol yn y blynyddoedd i ddod. beth fydd y dyfodol ys gwn i? Mae twf y Cynghreiriau Sul yn argoeli'n wael i'r cynghreiriau lleol. Tybed a fydd yr olwyn yn troi ac y byddwn yn ôl i dimau ym mhob pentref yn yr ardal yn chwarae yn erbyn ei gilydd mewn cynghrair bro. Ai dyma'r ffordd ymlaen — gwir ystyr chwarae — sef cyd-chwarae, a chynrychioli cymuned.

Diolch Go Iawn!

Cymeraf y cyfle yma i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn (Milflwydd) Newydd Dda i bawb sy'n ymwneud â'r campau yn y fro. Nid gwaith hawdd yw llunio colofn bob mis, ond gallaf eich sicrhau ei fod yn waith pleserus. Fe fydd yn gofnod o gyfnod i haneswyr y dyfodol.

Y mae'r fro yma yn dal i gynhyrchu pencampwyr ar sawl lefel a phob camp. Yn hyderus edrychwn ymlaen at ddatblygiad y ddau Eifion — Jones draw yn Anfield a Williams ym mhyllau nofio y wlad. Diolch am ddycnwch Marc Lloyd Williams, a ddangosodd y gall bechgyn o'r fro fynd yn broffesiynol. Diolch i Manon, ei chwaer am roi arweiniad i enethod y fro fel mae pêl-droed merched yn cynyddu. Diolch i'r diymhongar Gwynfor Owen a fu'n symbyliad i Colin Jones, Alun Vaughan a'r newydd ddyfodiad Gwyn Williams. I Ken Jones, a gafodd y weledigaeth o Ras yr Wyddfa. I Twm John a frwydrodd dros ieuenctid y fro a sefydlu Cynghrair Gwyrfai. I Alun Wyn a'r 'C'mon Llanbabs'. I'r llu eraill nad oes ofod i'w henwi. Ymfalchïaf fel 'dyn dŵad' ond mab mabwysiedig eich bro yn cich llwyddiannau. Fe naddwyd brid arbennig o 'bonciau'r' fro hon. Edrychaf ymlaen i groniclo'r llwyddiannau yn y ganrif nesaf.

Hoci Bl. 8 a 9

Ar yr ail o Ragfyr, chwaraeodd tîm hoci genethod 8 a 9 eu gêm gyntaf. Ysgol Dyffryn Nantlle oedd yr ymwelwyr. Cafodd tîm Brynrefail ddechreuad hyderus a sbardun o gôl gynnar. Suzanne Thomas lwyddodd i sgorio.

Fel yr âi'r gêm yn ei blaen roedd cyd-chwarae y tîm yn gwella, ac roeddem yn dechrau rheoli'r gêm. Daeth yr ail gôl hanner ffordd trwy'r ail hanner, gyda Karen Evans yn gorffen symudiad da o basio. Wedi ennill ein gêm gyntaf o 2-0, edrychwn ymlaen rwan am ein gêm nesaf.

Beth Ddaeth wrth Edrych Nôl!

Mileniwm, canrif, degawd, blwyddyn. Cyfnod o amser yw hi i bob un ohonom, ac yn naturiol cyfnod o edrych yn ôl yw'r Nadolig.

Yn rhifyn Nadolig 1991 yr oedd y golofn chwaraeon gyntaf i mi gyfrannu i'r Eco. Yn yr erthygl oedd yn fy 'nghyflwyno' soniwyd fy mod am geisio adlewyrchu holl agweddau chwaraeon y fro. Mor wir oedd hyn i fod, a dros y blynyddoedd diwethaf cafwyd ystod eang o chwaraeon. Yn sicr, nid ardal bêl-droed yn unig yw bro'r Eco erbyn hyn. Yn rhannu'r dudalen gyntaf honno roedd hanes Kenny Griffiths, bocsiwr 13 oed o Lanrug. Roeddwn wedi gwahodd Huw Hughes, y cynghorydd erbyn hyn, i gyfrannu colofn bysgota, a diolch iddo fod y 'llith' honno yn dal i fynd.

Roedd cyfeiriad at Caitlin Wroe o'r Waunfawr, oedd wedi ei dewis i garfan sgïo Ieuenctid Prydain. Beth yw ei hanes hi erbyn hyn tybed?

Yn rhestr canlyniadau pêl-droed Ysgol Brynrefail roedd tîm y flwyddyn gyntaf wedi colli 12-0 yn erbyn y Cofis yng Nghwpan Cyril Rogers. Onid gwefr, mewn ychydig flynyddoedd, oedd cael cofnodi camp tîm yr ysgol yn cipio'r cwpan hwnnw - yr ysgol leiaf o ran maint i gyflawni'r gamp.

Cyflwynwyd y syniad o 'Dlws y Mis' a bu hwnnw yn dân siafins am ryw ddwy neu dair blynedd. O edrych yn ôl teimlaf mai un o'r prif resymau am ddirywiad y tlws oedd fy mod i fy hun yn gorfod dewis yr enillydd. Fy mwriad oedd bod clybiau neu gymdeithasau'r fro yn enwebu'r enillwyr. Cael pobl i gyfrannu yw bwgan unrhyw olygydd papur bro. Serch hynny, rwy'n ymfalchïo ein bod wedi cael llu o ieuenctid i gyfrannu erthyglau chwaraeon yn y misoedd diwethaf.

Yn rhifyn Nadolig 1991 penderfynais fod yn Siôn Corn a dyfalu pa anrhegion fuasai byd chwaraeon yr ardal yn hoffi eu derbyn.

I Ddeiniolen roeddwn yn dymuno cae newydd yn y pentref, yn lle ymlwybro i gae Brynrefail. Daeth y cae a daeth cryn lwyddiant, ond siomedig braidd yw pethau tua'r Bwthyn yn ddiweddar. Diolch am y criw ffyddlon, gweithgar sy'n cynnal y fflam!

I dîm Llanberis, tipyn o storm i'w hatgoffa am hen dân y Darans. Mae arwyddion y tymor yma yn galonogol ond a yw'r cyfeusterau a'r gefnogaeth yno i fentro i gynghrair uwch. Oherwydd rhesymau ariannol efallai y gwnaed i ffwrdd â'r ail dîm. Tristwch i mi, a fu'n gwylio ac yn chwarae yn ystod oes aur y Darans yng nghynghrair cryf y Caernarfon and District yn y 60au.

I Lanrug, hyder i gario 'mlaen â'r gwelliannau gwych i gae Eithin Duon. Gwnaed hyn yn sicr, ond eto cyfnod llwm iawn fu hi yn y tymhorau diwethaf. Serch hynny, diolch i'r pwyllgor am geisio rhoddi llwyfan i'r bechgyn sy'n dod trwodd o'r timau ieuenctid.

Gofynnais am anrheg gan Gyngor Arfon i osod maes aml-bwrpas, bob tywydd yn yr ardal. Daeth y cynhwyster a gwelir ei ddylanwad yn sicr fel adnodd hyfforddi, ac ym mherfformiad-au tîm hoci'r ysgol.

Diddorol yw edrych yn ôl ond y dyfodol yw ein sialens. Ardal o newid yw bro'r Eco ym myd y campau, ond gobeithiaf, beth bynnag yw'r gamp, pwy bynnag yw'r unigolyn, y bydd cefnogaeth naturiol y fro yma yno i'w gynnal.